

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
X: **@SeneddHinsawdd**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) Adroddiad Cyfnod 1

Hydref 2025



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Julie Morgan AS
Llafur Cymru



Carolyn Thomas AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy wrth graffu ar y Bil.



Cefin Campbell AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhellion	7
Cyflwyniad	14
Cylch gwaith	14
Y dull craffu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor	14
Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd	15
1. Cefndir	16
Ynglŷn â'r Bil	16
Datblygu'r Bil	17
Deddfwriaeth ledled y DU	17
2. Egwyddorion cyffredinol y Bil	18
Rhan 1: Amcan ac egwyddorion amgylcheddol	18
Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru	19
Rhan 3: Targedau bioamrywiaeth ac ati	20
Gweithredu'r Bil	21
Cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau	22
Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet	22
Ein barn ni	23
Argymhelliad	24
3. Rhan 1: Amcan ac egwyddorion amgylcheddol	25
Adran 1 – Amcan amgylcheddol	25
Adran 2 – Egwyddorion amgylcheddol	27
Adrannau 3 a 4 – Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru	28

Adran 5 – Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus	32
---	----

Adrannau 6 a 7 – Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.....	34
---	----

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet.....	37
--	----

Ein barn ni.....	43
------------------	----

Argymhellion.....	47
-------------------	----

4. Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru49

Adrannau 8 a 9 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru	49
---	----

Adran 10 – Strategaeth SLIAC	55
------------------------------------	----

Adrannau 11 i 13 – Swyddogaethau monitro, adrodd a chynghori.....	59
---	----

Adran 14 – Hysbysiadau gwybodaeth.....	64
--	----

Adran 15 – Ymchwiliadau	64
-------------------------------	----

Adrannau 16 i 19 – Hysbysiadau cydymffurfio	65
---	----

Adrannau 20 i 22 – Adroddiadau gwella a chynlluniau gwella	72
--	----

Adrannau 23 i 27 – Cydweithredu, datgelu gwybodaeth a chyfrinachedd ...	72
---	----

Adran 28 – Cynlluniau trosglwyddo staff	75
---	----

Adrannau 29 i 32 – Ystyr termau allweddol	75
---	----

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet.....	78
--	----

Ein barn ni.....	90
------------------	----

Argymhellion.....	98
-------------------	----

5. Rhan 3: Targedau bioamrywiaeth101

Adran 33 – Targedau bioamrywiaeth.....	101
--	-----

Adran 34 – Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus	117
--	-----

Adran 35 – Cynlluniau Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf 2016	122
--	-----

Adran 36 – Adroddiadau o dan adran 6 o Ddeddf 2016	124
Adran 37 – Adroddiad gwerthuso	125
Adran 38 – Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth	125
Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet.....	126
Ein barn ni.....	133
Argymhellion.....	139
6. Rhan 4: Cyffredinol.....	142
Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet.....	144
Ein barn ni.....	144
Argymhelliad	144
Atodiad 1 : Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.	145
Atodiad 2 : Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig	147

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.
.....Tudalen 24

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ymestyn cwrdd y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn adran 3 fel ei bod yn gymwys i bob polisi a gaiff ei lunio (yn hytrach na dim ond polisi sy'n cael, neu a allai gael unrhyw effaith ar yr amgylchedd).....Tudalen 47

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i egluro ystyr "polisi" yn Rhan 1 o'r Bil. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys darpariaeth dehongli sy'n cynnwys rhestr anghynhwysfawr o faterion a fyddai'n dod o fewn ystyr "polisi".Tudalen 47

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol wrth gyflawni swyddogaethau a nodir yn adran 5(2).
.....Tudalen 47

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus yn fwy cyffredinol i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.Tudalen 47

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'n benodol yn natganiad adran 6 sut y dylai'r egwyddorion amgylcheddol gael eu dehongli.
.....Tudalen 47

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu datganiad adran 6 unwaith bob tymor y Senedd, a
- galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r datganiad ar unrhyw adeg arall.Tudalen 47

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal

ymgyngoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi datganiad adran 6 neu ddatganiad diwygiedig.....Tudalen 48

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer craffu ar ddatganiad adran 6 yn y Senedd. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn adran 18 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn darparu cynsail defnyddiol.....Tudalen 48

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y bydd yr holl ddarpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn dod i rym yn awtomatig ddwy flynedd i'r dyddiad y bydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, i'r graddau nad ydynt wedi'u cychwyn trwy Orchymyn yn flaenorol.
..... Tudalen 98

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mai diben cyffredinol SLIAC yw sicrhau effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a chyfrannu at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd..... Tudalen 98

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth benodol yn y Bil i nodi annibyniaeth SLIAC oddi wrth Lywodraeth Cymru..... Tudalen 98

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod penodi (neu ailbenodi) aelodau anweithredol SLIAC yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Senedd..... Tudalen 98

Argymhelliad 14. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i dderbyn Argymhelliad 13, dylai gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu rôl fwy sylweddol i Bwyllgor perthnasol y Senedd wrth benodi (neu ailbenodi) aelodau anweithredol SLIAC. Mae'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer penodi Comisiynydd y Gymraeg yn darparu cynsail defnyddiol..... Tudalen 98

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth benodol yn y Bil ar gyfer sicrhau bod SLIAC yn cael digon o gyllid. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn Neddf yr Amgylchedd 2021 a Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn darparu cynsail defnyddiol..... Tudalen 98

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn y rhestr o gyrff goruchwyllo lle dylai

SLIAC geisio osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd o dan baragraff 1(1)(e) o Atodlen 2. Os oes angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o gael cydsyniad cyn i'r Bil gyrraedd ei gyfnod terfynol yn y Senedd..... Tudalen 99

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro canlyniad unrhyw asesiad y mae wedi'i gynnal o orgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau SLIAC ac OfWat, a rhwng swyddogaethau SLIAC a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Os yw gorgyffwrdd posibl wedi'i nodi, dylai hefyd esbonio pam nad yw OfWat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi'u rhestru ym mharagraff 1(1)(e) o Atodlen 2. Tudalen 99

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i SLIAC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus wrth baratoi ei strategaeth (neu ei strategaeth ddiwygiedig). Tudalen 99

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu pŵer galluogi i SLIAC adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg. Dylai'r pŵer hwn ategu yn hytrach na disodli'r gofyniad i SLIAC adolygu ei strategaeth unwaith bob pedair blynedd. Tudalen 99

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu rôl wedi'i diffinio'n glir i SLIAC wrth fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth statudol (a bennir o dan Ran 3 o'r Bil). Tudalen 99

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull yn seiliedig ar hawliau i ddinasyddion:

- wneud sylwadau i SLIAC ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol,
- cael gwybod am ymateb SLIAC i sylwadau ac unrhyw gamau a gymerwyd.

Mae adrannau 32 a 34 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn darparu cynsail defnyddiol. Tudalen 99

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- galluogi SLIAC i gynnal adolygiad mewnol o hysbysiad cydymffurfio yn dilyn cais gan awdurdod cyhoeddus o dan adran 18, a
- sicrhau na all aelod o bersonél SLIAC fod yn rhan o'r adolygiad o hysbysiad cydymffurfio os oeddent yn ymwneud ag ymchwilio i'r methiant cydymffurfio honedig neu'r penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio.Tudalen 100

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid cwblhau adolygiad o hysbysiad cydymffurfio/cydymffurfio brys cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn cais gan awdurdod cyhoeddus o dan adran 18.Tudalen 100

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymeg dros ddarparu gwell amddiffyniad rhag datgelu ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio (o dan adrannau 25(1) a 26(1)) y tu hwnt i'r amddiffyniad a ddarperir eisoes o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.....Tudalen 100

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLIAC, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach cyn gwneud rheoliadau o dan adran 29(4).Tudalen 100

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a fyddai y tu allan i oruchwyliaeth SLIAC neu'r OEP.Tudalen 100

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i geisio cydsyniad gan Lywodraeth y DU i ddod ag awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru o fewn goruchwyliaeth SLIAC. Os nad yw'n fodlon neu'n methu cael cydsyniad, dylai gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut mae'n bwriadu gweithio gyda'r OEP i fynd i'r afael â materion cydymffurfio mewn perthynas â'r awdurdodau hynny.Tudalen 100

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys "targed pennawd" yn y Bil i adlewyrchu'r uchelgais cyffredinol ar gyfer adfer bioamrywiaeth erbyn 2050, wedi'i alinio â gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar gyfer 2050.....Tudalen 139

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- gwneud rheoliadau i osod “targed toreithrwydd rhywogaethau 2035” o fewn 18 mis i’r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol, ac
- ymgynghori â rhanddeiliaid a’r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau.

Rhaid i’r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd.....Tudalen 139

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu y dylai’r fframwaith ar gyfer gosod targedau o dan adran 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (a gyflwynwyd gan adran 33 o’r Bil) ei gwneud yn ofynnol i osod targedau byrdymor/interim a hirdymor.....Tudalen 139

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheoliadau sy’n gosod targedau yn y pedwar maes blaenoriaeth o fewn 18 mis i’r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol.....Tudalen 139

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid a’r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau sy’n gosod targed o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2026 (a fewnosodwyd gan adran 33 o’r Bil).....Tudalen 139

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targedau unwaith bob tymor y Senedd ac adrodd i’r Senedd ar y canlyniad..... Tudalen 140

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid a’r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau sy’n dirymu neu’n gostwng targed o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
..... Tudalen 140

Argymhelliad 35. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targed amgen yn lle targed sy’n cael ei ddirymu..... Tudalen 140

Argymhelliad 36. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cael data bioamrywiaeth at ddibenion monitro cynnydd tuag at dargedau a osodwyd o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

..... Tudalen 140

Argymhelliad 37. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn data bioamrywiaeth, a chynyddu gallu a chapasiti monitro bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion..... Tudalen 140

Argymhelliad 38. Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu at gyflawni targedau bioamrywiaeth. Dylai unrhyw ddyletswydd o'r fath ddisodli'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â tharged a'r ddyletswydd gysylltiedig i gyfrannu at gyflawni'r targed hwnnw. Tudalen 140

Argymhelliad 39. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus i gefnogi'r broses o weithredu'r dyletswyddau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, ac
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw i'r canllawiau hyn.

..... Tudalen 140

Argymhelliad 40. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi cynllun (neu gynllun diwygiedig) o dan adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Tudalen 140

Argymhelliad 41. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y cynllun o dan adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi cynigion a pholisïau sy'n cwmpasu meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Tudalen 141

Argymhelliad 42. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu ychwanegu SLIAC at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg

(Cymru) 2011. Os felly, dylai egluro pam nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn. Tudalen 144

Cyflwyniad

1. Ar 2 Mehefin 2025, cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig (yr Ysgrifennydd Cabinet), Huw Irranca-Davies AS, Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil) i'r Senedd. Ar 3 Mehefin 2025, gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.
2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, a nodwyd 24 Hydref 2025 fel dyddiad cau ar gyfer adrodd.

Cylch gwaith

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gwaith canlynol:
 - Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen i'r ddeddfwriaeth gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Darpariaethau'r Bil, gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.
 - A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
 - Goblygiadau ariannol y Bil.

Y dull craffu a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos o hyd rhwng mis Mehefin 2025 a mis Gorffennaf 2025 a chafwyd 46 o ymatebion. Cafwyd 940 o ymatebion hefyd yn dilyn ymgyrch a gydlynwyd gan Cyfeillion y Ddaear Cymru.
5. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 26 Mehefin 2025 a 18 Medi 2025. Ysgrifennodd hefyd at yr Ysgrifennydd Cabinet ar 8 Gorffennaf 2025 yn gofyn am wybodaeth ychwanegol.
6. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion allanol, gan gynnwys academyddion, cynrychiolwyr o'r sector amgylcheddol, a chyrrff llywodraethiant mewn rhannau eraill o'r DU.

7. Mae manylion cyflwyniadau ysgrifenedig, sesiynau tystiolaeth lafar a gohebiaeth i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

8. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

9. Cymerodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y meysydd sydd o ddiddordeb iddynt. Mae eu hadroddiadau i'w gweld ar wefan y Senedd.

1. Cefndir

Ynglŷn â'r Bil

10. Diben y Bil yw:

- sefydlu egwyddorion amgylcheddol ac amcan amgylcheddol (Rhan 1);
- sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC), a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru (Rhan 2); a
- diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf 2016) i sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth (Rhan 3).

11. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol (ME), nod cyfunol y Bil yw atgyfnerthu ymateb Cymru i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

12. O ran Rhan 1, mae'r ME yn dweud:

*"Nod y darpariaethau egwyddorion amgylcheddol yw sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â thair her graidd: brwydro yn erbyn effaith gyfunol yr argyfyngau hinsawdd a natur, diogelu'r amgylchedd rhag niwed ac ymateb i newidiadau mewn strwythurau llywodraethiant amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE."*¹

13. Mae'r ME yn dweud mai'r nod wrth sefydlu SLIAC (o dan Ran 2) "yw gwella effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol drwy sicrhau cydymffurfiaeth, darparu goruchwyliaeth strategol a meithrin cydweithrediad ymysg awdurdodau cyhoeddus a chyrff amgylcheddol."²

14. Yn olaf, "nod cyffredinol" Rhan 3 yw "cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur"³.

¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.19

² Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.29

³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.30

Datblygu'r Bil

15. Mae Rhannau 1 a 2 o'r Bil wedi'u datblygu mewn ymateb i fylchau mewn goruchwyliaeth amgylcheddol yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE. Yn 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar egwyddorion a llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE ac, yn 2020, daethpwyd â Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethiant Amgylcheddol ynghyd i lywio'r cynigion ymhellach.

16. Datblygwyd Rhan 3 o'r Bil yn dilyn archwiliad dwfn o fioamrywiaeth gan Lywodraeth Cymru yn 2022, lle gwnaeth grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr nodi themâu allweddol ac argymhellion ar gyfer camau gweithredu penodol, gan gynnwys gosod targedau bioamrywiaeth domestig. Cynhaliwyd y gwaith hwn yng nghyd-destun Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, sef yr ymrwymiad rhyngwladol (gyda 23 o dargedau) i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2030 a byw mewn cytgord â natur erbyn 2050.

17. Ym mis Ionawr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer y Bil. Ym mis Gorffennaf 2024, ymatebodd gyda chynigion wedi'u diweddarau.

Deddfwriaeth ledled y DU

18. Mae egwyddorion amgylcheddol a chyrrff llywodraethiant amgylcheddol domestig statudol wedi'u sefydlu ar gyfer gwledydd eraill y DU:

- sefydlodd Deddf yr Amgylchedd 2021 ('Deddf y DU') Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) yn 2021 ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, a chyflwynodd egwyddorion amgylcheddol domestig; a
- sefydlodd Deddf Ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 ('Deddf yr Alban') Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) yn 2021, a chyflwynodd egwyddorion amgylcheddol domestig.

19. O ran targedau bioamrywiaeth:

- mae Deddf y DU yn darparu'r sail statudol ar gyfer cyflwyno targedau bioamrywiaeth a fframwaith amgylcheddol ehangach ar gyfer Lloegr; ac
- mae Llywodraeth yr Alban yn bwriadu cyflwyno targedau bioamrywiaeth trwy Fil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) (a gyflwynwyd ar 19 Chwefror 2025 ac sy'n cael ei basio drwy Senedd yr Alban ar hyn o bryd).

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

20. Roedd cefnogaeth eang i egwyddorion cyffredinol pob un o Rannau sylweddol y Bil:

Rhan 1: Amcan ac egwyddorion amgylcheddol

21. Roedd consensws bod angen Rhan 1 i adfer egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE, ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu hymwreiddio ym mholisi a deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol. Wrth grynhoi barn llawer o gyfranwyr, dywedodd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur:

“Embedding environmental principles into legislation is crucial for ensuring Wales responds to the nature emergency with the seriousness and urgency it demands...By placing these principles on a statutory footing, they become a stronger lever for guiding consistent, accountable and forward-looking decision-making across all sectors.”⁴

22. Ychwanegodd y bydd y Bil yn sicrhau nad yw ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu neilltuo ac, yn hytrach, eu bod yn cael eu hintegreiddio mewn polisi ac ymarfer, gan ddarparu ymateb cydlynol, trawslywodraethol [i'r argyfyngau hinsawdd a natur].⁵

23. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru, er bod yr egwyddorion sy'n deillio o'r UE yn sail i lawer o fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru, fod angen y Bil er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cymhwyso mewn ffordd benodol ac atebol a'u bod yn darparu gofyniad statudol wrth wneud unrhyw benderfyniadau.⁶

24. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ei bod yn “deall yr angen” i gynnwys y nod a'r egwyddorion amgylcheddol mewn polisïau a deddfwriaeth Cymru.⁷ Ychwanegodd, “Mae'n bwysig nodi... bod cymhwyso'r nod a'r egwyddorion hyn eisoes yn arfer cyffredin yn Cymru”.⁸

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

25. Cododd rhai awdurdodau cyhoeddus bryder y gallai Rhan 1 effeithio'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau. Ymddengys fod hyn yn seiliedig ar gamddehongli'r darpariaethau a/neu sut y byddent yn gymwys yn ymarferol.

26. Er gwaethaf y gefnogaeth i egwyddorion cyffredinol Rhan 1, cododd cyfranwyr bryder am gryfder a chwmpas y dyletswyddau newydd (i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelwch amgylcheddol), ac amlygwyd heriau gweithredu. Trafodir y materion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

27. Roedd cefnogaeth gref i greu SLIAC i fynd i'r afael â'r bwlch presennol o ran llywodraethiant amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE. Tynnodd cyfranwyr sylw at y ffaith bod cyrff llywodraethiant amgylcheddol wedi bod ar waith yng ngwledydd eraill y DU ers nifer o flynyddoedd. Awgrymwyd y dylai'r oedi wrth gyflwyno'r Bil gael ei ddefnyddio fel mantais, i ddysgu o'r dulliau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU ac i wella arnynt.

28. Dywedodd Healthy Air Cymru:

*"The need for an Office of Environmental Governance for Wales (OEGW) is clear and long overdue. Wales has been without a statutory body to monitor and enforce breaches of environmental law since Brexit. It is the last UK nation to introduce legislation to plug this governance gap."*⁹

29. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

*"The establishment of the OEGW is welcome. This body is long overdue, and therefore we recommend the Bill provides the strongest framework possible to ensure the Body can immediately deliver its functions appropriately and effectively once established. It is crucial the body is established at pace to close the governance gap in place since Wales' departure from the EU."*¹⁰

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Healthy Air Cymru

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

30. Dywedodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) fod sefydlu SLIAC yn gam pwysig tuag at sicrhau atebolrwydd amgylcheddol.¹¹

31. Awgrymodd un unigolyn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu buddsoddiad yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn hytrach na sefydlu corff llywodraethiant newydd.¹²

32. Er gwaethaf y gefnogaeth gref i egwyddorion cyffredinol Rhan 2, cododd llawer o gyfranwyr bryder am annibyniaeth SLIAC oddi wrth Lywodraeth Cymru. Er bod cyfranwyr yn croesawu'r dull cynyddol o orfodi, roedd galwadau am eglurder ynghylch pwerau gorfodi a phwerau ychwanegol SLIAC. Trafodir y materion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Rhan 3: Targedau bioamrywiaeth ac ati

33. Roedd cefnogaeth eang i Ran 3, gyda llawer o gyfranwyr yn nodi bod cyflwyno fframwaith statudol ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth (y fframwaith) yn angenrheidiol ac yn hirddisgwyliedig.

34. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

"the Bill and statutory biodiversity targets will positively focus attention on nature recovery and key actions and also galvanise wider interest and support for nature recovery action across other policy interests and sectors.

*Statutory targets will make clear how Wales is looking to support international commitments and especially those under the Global Biodiversity Framework (GBF). It will also help put Wales into better alignment with England and Scotland who are also taking a legislative approach, and, through comparison, enable mutual learning with them as well as other nations."*¹³

35. Dywedodd Dŵr Cymru fod gan y fframwaith y potensial i ddarparu mwy o eglurder a ffocws i awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill.¹⁴ Ychwanegodd:

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Justin Groves

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

“Measures that help identify where investment and effort can deliver the greatest biodiversity benefit are particularly valuable. Targets offer a clear articulation of the outcomes Wales is seeking to achieve...”¹⁵

36. Er bod CLILC yn pwysleisio ei fod yn “cefnogi egwyddorion diogelu'r amgylchedd ac adfer natur yn llwyr”, cwestiynodd pa fudd y byddai targedau bioamrywiaeth statudol yn ei gael.¹⁶ Nododd:

“Nid yw'n ymddangos bod [targedau statudol presennol] wedi gweithio i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth dros y blynyddoedd. Mae hi felly yn aneglur sut y byddai'r targedau a canlyniadau newydd hyn yn wahanol”.¹⁷

37. Cododd llawer o gyfranwyr bryder nad oedd y fframwaith gosod targedau yn ddigon uchelgeisiol nac yn dangos digon o frys.

Gweithredu'r Bil

38. Tynnodd llawer o gyfranwyr sylw at y ffaith mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd gweithredu'r Bil. Pwysleisiwyd na fyddai unrhyw rwymedigaeth ar Lywodraeth Cymru wahanol i gyflawni bwriadau polisi Llywodraeth bresennol Cymru, oni chaiff y rhain eu nodi'n glir yn y Bil.

39. Dywedodd Dr Viviane Gravey wrth y Pwyllgor:

“a lot of this Bill is written with the underpinning assumption that Welsh Ministers now and in the future will always care for the environment. And I think that's a problem. It's a nice view to have, but I think if you're going to go through the effort of creating a Bill, you need to prepare for a moment when you may have Welsh Ministers who will not care as much as the environment.”¹⁸

40. Dywedodd RSPB Cymru:

“... to a very significant degree, [the Bill] will not be delivered by the current Welsh Government and Senedd, but by their

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 9 Gorffennaf 2025

successors. There is no guarantee that the shared commitment to robust governance and high ambition and accountability for biodiversity, as set out in the declaration of a nature emergency by the Senedd in 2021, will be maintained.”¹⁹

41. Cafodd y farn hon ei hadleisio gan sefydliadau amgylcheddol eraill.

Cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau

42. Nododd llawer o gyfranwyr fod cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau ar draws awdurdodau cyhoeddus yn rhwystr i weithredu'r Bil yn effeithiol.

43. Dywedodd Dŵr Cymru:

“resource constraints may limit the ability of public authorities to comply with new duties. Many authorities are already operating under significant financial and staffing pressures, and the introduction of additional reporting and compliance requirements could exacerbate these challenges.”²⁰

44. Rhybuddiodd CLILC yn erbyn gosod “baich ariannol newydd ar gynghorau sydd eisoes yn gorfod gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau”.²¹ Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod gofynion deddfwriaethol newydd ar lywodraeth leol yn cael eu hariannu'n briodol, yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth.

45. Cwestiynodd Jean-Francois Dulong (CLILC) gadernid yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan godi pryder nad oedd y costau gweithredu ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau cyhoeddus eraill wedi'u hystyried yn ddigonol.

46. Thema a welwyd dro ar ôl tro o ran y dystiolaeth oedd yr angen i sicrhau bod gan SLIAC ddigon o gapasiti ac adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, gyda chyfranwyr yn gwneud sylwadau ar ehangder ei chylch gwaith a'i llwyth gwaith posibl. Ymdrinnir â chyllid digonol ar gyfer SLIAC ym Mhennod 5.

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

47. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chryfhau cyfraith amgylcheddol yng Nghymru,

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

yn enwedig trwy wneud yn siŵr nad oes unrhyw ostyngiad mewn ansawdd na safonau amgylcheddol ar ôl ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.²²

Ychwanegodd:

*"... this is not simply an exercise in replacing the structures or legislation that were in place whilst the UK was a member of the EU—it's far more than that. Our approach is, actually, very specifically tailored to the Welsh context as well, to ensure that we can secure a wide range of reforms that we prioritise to protect the environment. So, it's above and beyond the EU withdrawal piece; it fits within our policy context as well, and it's something bespoke for Wales."*²³

48. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn adlewyrchu'r angen parhaus am weithredu parhaus, hirdymor i gyflawni newid trawsnewidiol, newid sylweddol, i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.²⁴

Ein barn ni

Trwy gydol y Chwchedd Senedd, rydym wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i gau'r bwlch llywodraethiant amgylcheddol ac i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol. Rydym felly yn croesawu cyflwyno'r Bil hwn, er ei fod yn llawer hwyrach nag y byddem wedi'i ddymuno.

Mae Rhan 1 o'r Bil yn cyflawni ymrwymiad hirsefydlog Llywodraeth Cymru i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru. Mae'n ceisio sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori ar draws polisiau a'r broses ddeddfu yng Nghymru yn y dyfodol, gan gryfhau'r sylfaen ar gyfer diogelwch a llywodraethiant amgylcheddol. Rydym yn nodi'r gefnogaeth gref ymhlith cyfranwyr i'r dull hwn ac yn cymeradwyo egwyddorion cyffredinol Rhan 1.

Roedd y dystiolaeth a gawsom mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil yn gymhellol: mae angen corff goruchwyllo amgylcheddol newydd ar Gymru i ddwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i gyfrif mewn perthynas â'u rhwymedigaethau amgylcheddol. Pwysleisiodd cyfranwyr fod yn rhaid i'r corff hwn fod yn wirioneddol annibynnol, rhaid iddo feddu ar bwerau gorfodi cadarn,

²² Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 26 Mehefin 2025

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 26 Mehefin 2025

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 26 Mehefin 2025

a rhaid sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau, os yw am ennyn hyder y cyhoedd a chyflawni canlyniadau ystyrlon. Rydym yn rhannu'r safbwyntiau hyn ac, ar y sail hon, yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Rhan 2.

Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad *Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030* (Ionawr 2025), mae colli bioamrywiaeth yn fater sydd yr un mor frys a hanfodol â newid hinsawdd, ond nid yw wedi derbyn yr un ffocws o ran polisi na'r un flaenoriaeth ddeddfwriaethol. Mae Rhan 3 o'r Bil yn rhoi cyfle pwysig i fynd i'r afael â hyn. Roedd consensws eang ymhlith cyfranwyr y bydd gosod targedau adfer bioamrywiaeth yn y gyfraith yn hanfodol i ysgogi gweithredu i gyflawni ymrwymïadau bioamrywiaeth domestig a byd-eang Cymru. Rydym felly'n cefnogi egwyddorion cyffredinol Rhan 3.

Fodd bynnag, nodwn fod y penderfyniad i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon tuag at ddiwedd y Chweched Senedd yn golygu y bydd y cyfrifoldeb am ei gweithredu yn disgyn i Lywodraeth nesaf Cymru. Roedd hwn yn bryder allweddol a godwyd gan lawer o gyfranwyr. Clywsom alwadau cryf am fwy o eglurder a chryfder yn narpariaethau'r Bil i sicrhau ei fod yn cyflawni'r bwriadau'r bwriadau polisi yn llawn, ac am amserlenni mwy uchelgeisiol i alluogi gweithredu cyflym. Rydym yn trafod y materion hyn yn fanwl trwy gydol gweddill yr adroddiad hwn ac yn gwneud argymhellion penodol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth.

Argymhelliad

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

3. Rhan 1: Amcan ac egwyddorion amgylcheddol

Adran 1 – Amcan amgylcheddol

49. Mae adran 1 yn sefydlu'r "amcan amgylcheddol". Fe'i diffinnir fel cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd, gyda golwg, yn benodol, ar gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) (adran 1(1)(a));
- cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu (adran 1(1)(b));
- lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo (adran 1(1)(c)); a
- cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth (adran 1(1)(d)).

Tystiolaeth gan randdeiliaid

50. Roedd cefnogaeth eang i'r amcan amgylcheddol.

51. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cynnwys amcan amgylcheddol lefel uchel...yn gosod y disgwyliad bod yn rhaid i'r holl ddyletswyddau a swyddogaethau dilynol o dan y Bil... gyfrannu at welliant amgylcheddol ac nid osgoi niwed yn unig.²⁵

52. Dywedodd Dŵr Cymru fod yr amcan amgylcheddol yn uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â nodau cynaliadwyedd ehangach.²⁶ Ychwanegodd y bydd effeithiolrwydd yr amcan yn dibynnu ar sut y caiff ei weithredu a'i fesur.²⁷

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

53. Er gwaethaf eu cefnogaeth i'r amcan, galwodd cyfranwyr am rai diwygiadau i'r canlyniadau a nodwyd yn adran 1(1).

Aliniad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

54. Mae adran 1(1)(a) yn gwneud darpariaeth i alinio'r amcan amgylcheddol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol (NE), mae hyn er mwyn sefydlu cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogi ei gweithrediad ehangach.

55. Cododd sefydliadau amgylcheddol, Healthy Air Cymru, UKELA a'r Athro Maria Lee bryder y gallai cynnwys adran 1(1)(a) wanhau'r amcan amgylcheddol. Mae hyn oherwydd nad yw'r nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u cyfyngu i'r amgylchedd. Maent hefyd yn mynd i'r afael ag agweddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ar ddatblygu cynaliadwy. Roedd galwadau ar i adran 1(1)(a) gael ei hailystyried neu ei dileu.

56. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

*"Attaining a high level of environmental protection and improvement of the environment can only be delivered by focusing on the environment. A statutory focus on environmental protection and improvement is crucial and will bring wider benefits, enabling Ministers and public authorities to achieve the wellbeing goals. A watered-down environmental objective risks muddying the focus of the Bill, moving away from environmental protection."*²⁸

57. Wrth ymateb i bryderon cyfranogwyr, esboniodd Derek Walker (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru):

"what public bodies and what Welsh Government are required to do is to deliver on the environmental objective, but in doing so understand how that can contribute to delivery of wider well-being objectives and other goals. So, it doesn't take away from the objective, it just means that when that objective is being delivered we need to have wider regard to how we can

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

maximise our contribution across the well-being goals and the well-being Act."

58. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cefnogi alinio'r egwyddor amgylcheddol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Awgrymodd NFU Cymru y dylai'r Bil fynd gam ymhellach trwy gyfeirio'n benodol at ystyriaethau cymdeithasol ac economaidd o dan yr amcan amgylcheddol.

Adran 2 - Egwyddorion amgylcheddol

59. Mae adran 2 yn sefydlu pedair egwyddor amgylcheddol:

- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle;
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

60. Roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion amgylcheddol. Gwnaeth Dr Victoria Jenkins grynhoi barn nifer o gyfranwyr, gan ddweud:

"The environmental principles underlined law and policy making in the EU, which almost exclusively directed approaches to environmental protection in Wales, for more than 40 years. In the interests of stability and the continued alignment in approaches to environmental protection across the UK, it is important that these principles are maintained. The principles of prevention, precaution and the polluter pays are also essential principles of international law."

61. Er bod y Gynghair Cefn Gwlad yn cydnabod bod yr egwyddorion amgylcheddol yn adlewyrchu pedair egwyddor graidd yr UE, awgrymodd y byddai'n deilwng cynnwys egwyddorion eraill yn y Bil: arloesi; dim atchwelyd; enillion net; a graddfa briodol.

62. Nododd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nad yw'r egwyddorion amgylcheddol yn ymarferol ar gyfer ymateb brys heb gymhwyso sylweddol a/neu eglurhad pellach.²⁹

Ystyr “egwyddorion amgylcheddol”

63. Yn ôl Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, mae'r egwyddorion yn rhai amwys sy'n agored i gael eu camddehongli. Galwodd ar i'r Bil gynnwys diffiniadau cliriach, yn enwedig o'r egwyddor ragofalus a difrod amgylcheddol. Mynegwyd barn debyg gan Undeb Amaethwyr Cymru.

64. Dywedodd Trafnidiaeth Cymru:

“gall diffyg diffiniadau statudol ar gyfer egwyddorion amgylcheddol arwain at anghysondeb o ran cymhwysedd. Gallai cynnwys diffiniadau cryno yn y Bil neu god ymarfer statudol wella eglurder”.

Ymagwedd tuag at “integreiddio diogelu'r amgylchedd”

65. Yn wahanol i Ddeddfau'r Alban a'r DU, nid yw'r Bil yn cynnwys “integreiddio” diogelu'r amgylchedd fel egwyddor. Yn hytrach, mae “integreiddio” wedi'i ymgorffori yn nyletswyddau Gweinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus (yn adrannau 3 i 5). Roedd cefnogaeth eang i'r dull gweithredu hwn.

Adrannau 3 a 4 – Dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

66. Mae adran 3 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol drwy wneud y canlynol:

- rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru sy'n cael, neu a allai gael, unrhyw effaith ar yr amgylchedd, ac
- integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

67. Mae adran 4 yn diwygio'r ddeddfwriaeth a sefydlodd Cyfoeth Naturiol Cymru i osod dyletswydd ar y corff i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; a thystiolaeth ysgrifenedig Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

lunio polisi o ran Cymru, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Cryfder y dyletswyddau

68. Croesawodd llawer o gyfranwyr gryfder y dyletswyddau (h.y. i roi “sylw arbennig”) ar Weinidogion Cymru ac ar Cyfoeth Naturiol Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn gryfach na'r ddyletswydd gymaradwy ar Weinidogion yng ngwledydd eraill y DU.

69. Pwysleisiodd cyfranwyr pa mor bwysig yw sicrhau bod “sylw arbennig” yn cael ei ddeall yn dda gan ddeiliaid dyletswydd er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol, gan nodi nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio'n eang. Esboniodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

“To deliver the duty's intended purpose, it must be communicated well to ensure duty holders understand the legal weight and apply the duty correctly and consistently. Without clarity, there is a risk the duty is misinterpreted or applied superficially, and so undermining its intended effect.”³⁰

70. At ei gilydd, roedd cyfranwyr o'r farn y gellid cyflawni hyn drwy ganllawiau manwl. Awgrymodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai ystyr “sylw arbennig” gael ei nodi hefyd yn adran 42 (dehongli cyffredinol) er eglurder.

71. Roedd lechyd Cyhoeddus Cymru, yr Athro Maria Lee a WildFish yn ffafrio dyletswydd fwy uniongyrchol i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol neu i weithredu yn unol â nhw. Dywedodd lechyd Cyhoeddus Cymru y byddai hyn yn “fwy cydnaws â'r ddyletswydd bresennol ar Aelod-wladwriaethau o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, y mae'r Bil hwn yn ei disodli”.³¹

72. Mewn cyferbyniad, nododd NFU Cymru fod y ddyletswydd yn arbennig o lym ac yn rhy gaeth.³² Cododd bryder ynghylch cymhwyso'r ddyletswydd yng nghydestun llunio polisiau gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymodd NFU Cymru y byddai dyletswydd i roi sylw dyledus yn ddigonol.

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, lechyd Cyhoeddus Cymru

³² Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

Cwmpas dyletswydd Gweinidogion Cymru

73. Cododd llawer o gyfranwyr bryder nad yw'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (adran 3) yn ymestyn i lunio pob polisi, ond yn hytrach i lunio polisiâu sy'n cael, neu a allai gael unrhyw effaith ar yr amgylchedd. Esboniodd y Gynghrair Werdd:

*"The environmental principles duties in other legislation in the UK cover all policy making, with some exceptions for fiscal and defence policy. The Welsh Government has instead opted for what appears to be a narrower approach..."*³³

74. Tynnodd sefydliadau amgylcheddol sylw at y ffaith nad yw'r berthynas rhwng llunio polisiâu a'r amgylchedd bob amser yn amlwg ar unwaith. O'r herwydd, awgrymwyd bod cwmpas y ddyletswydd yn golygu y gallai effeithiau amgylcheddol gael eu colli.

75. Ymhellach, cododd cyfranwyr bryder bod y ddyletswydd yn rhoi disgrisiwn sylweddol i Weinidogion Cymru y dyfodol benderfynu pa bolisiâu sy'n dod o fewn ei chwmpas. Roedden nhw'n ystyried bod hyn yn risg yn y tymor hwy, yn enwedig gyda newidiadau i'r llywodraeth.

76. Dywedodd Alex Phillips (WWF Cymru):

*"fundamentally it comes down to the freedom that is given to a Minister in future to declare what is or isn't affecting the environment...You could end up in a situation where [the duty is] disapplied in lots of areas"*³⁴

Integreiddio diogelu'r amgylchedd

77. Cododd sefydliadau amgylcheddol, Healthy Air Cymru ac academyddion bryder bod cwmpas y ddyletswydd yn tanseilio integreiddio diogelu'r amgylchedd yn llawn.

78. Esboniodd yr Athro Maria Lee:

"The restriction of the duties to policy which has, or could have, 'any effect on the environment' fails to recognise the meaning

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Werdd

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 17 Gorffennaf 2025

and power of integration specifically. Integration implies a positive duty - i.e., even if a policy has no environmental effect in its initial iteration, integration of environmental protection could convert it into a positive environmental measure.”³⁵

79. Nododd Ruth Chambers:

“the whole point of integration is to bring the environment into all policy making...[the Bill] limits the integration duty only to environmental policy, which knocks the legs right from under it. Why have a duty to integrate the environment into the environment? It just doesn’t make sense. So, I think the scope is problematic.”³⁶

Ystyr “polisi” a “lunio polisi”

80. Galwodd Dr Viviane Gravey a’r Athro Ludivine Petetin ar i ystyr “polisi” fod yn ehangach i gynnwys strategaethau, cynlluniau a rhaglenni hefyd.³⁷ Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am ddiffiniad clir a chynhwysfawr o “bolisi” i sicrhau bod cynlluniau gweithredu, strategaethau, cyllidebau a ffurfiau eraill ar bolisi yn cael eu cynnwys yn y diffiniad.³⁸

81. Cododd yr Athro Maria Lee bryder bod y dyletswyddau yn adrannau 3 a 4 wedi’u cyfyngu i lunio polisiâu. Dywedodd y dylent fod yn berthnasol i’r holl benderfyniadau perthnasol a wneir, gan adlewyrchu dull yr UE.³⁹ Mynegwyd barn debyg gan academyddion eraill a Cyswllt Amgylchedd Cymru. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

“For the avoidance of doubt, it would be useful to clarify that the [duties in sections 3 and 4]...must be applied at every stage, from when policy is first developed or adopted at the outset, to any time it is applied as well as when policy is revised at a later stage”.⁴⁰

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Maria Lee

³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 17 Gorffennaf 2025

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a’r Athro Ludivine Petetin

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Maria Lee

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

82. Awgrymodd lechyd Cyhoeddus Cymru y dylai'r dyletswyddau hefyd fod yn berthnasol wrth ddirymu polisiau, gan y gallai hyn gael canlyniadau amgylcheddol.

Adran 5 – Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus

83. Mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol drwy wneud y canlynol:

- rhoi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth asesu cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (h.y. wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol), ac
- integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny.

84. At ddibenion adran 5, diffinnir “awdurdod cyhoeddus” fel:

- Awdurdod Cymreig datganoledig o dan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; a
- Y rhai a restrir ym mharagraff 9(2) neu 9(6) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

85. Roedd barn cyfranwyr ar adran 5 yn gymysg.

86. Roedd CLILC yn ystyried bod y ddyletswydd yn gymesur. Dywedodd Jean-Francois Dulong wrth y Pwyllgor eu bod nhw o'r farn ei fod yn ddigon. Nododd eu bod nhw o'r farn, trwy edrych arno ar lefel Asesiad Amgylcheddol Strategol, ein bod ni wedi cyrraedd y math hwnnw o fwlb strategol.⁴¹ Ychwanegodd fod gan awdurdodau lleol fecanweithiau ar waith eisoes ar y lefel gyflawni a gweithredol i ystyried bioamrywiaeth, natur a'r amgylchedd yn briodol.⁴²

87. Pwysleisiodd CLILC fod angen i'r egwyddorion amgylcheddol a'r datganiad integreiddio diogelu'r amgylchedd (o dan adran 6) “ddiffinio'n glir beth mae i

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 18 Medi 2025

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 18 Medi 2025

ystyried yn ei olygu a sut y gall hynny gael ei dystio”.⁴³ Mynegodd Dŵr Cymru farn debyg.

88. Esboniodd sefydliadau amgylcheddol a'r Athro Bob Lee fod Asesiadau Amgylcheddol Strategol eisoes yn gofyn i ffactorau amgylcheddol gael eu hystyried yn gyson wrth ddatblygu cynlluniau neu raglenni. Fel y cyfryw, maent yn nodi mai yn y cyd-destun hwn y mae angen y ddyletswydd leiaf, gan gwestiynu pa fudd ychwanegol y byddai'n ei ddarparu.

89. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol am ddyletswydd gryfach ar awdurdodau cyhoeddus sy'n cael effaith ar yr amgylchedd, fel Awdurdodau Cynllunio Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, a chyrrff eraill sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli tir, dŵr croyw a môr yng Nghymru a gweithgareddau sydd ynghlwm â'r mannau hynny.⁴⁴ Mynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru farn debyg, gan awgrymu y dylai fod ddyletswydd gryfach ar awdurdodau cyhoeddus allweddol, yn enwedig y rhai hynny sy'n cael effaith sylweddol ar ddefnydd tir, seilwaith, cynllunio a datblygu economaidd.⁴⁵

90. Galwodd rhai cyfranwyr ar i'r ddyletswydd gael ei hymestyn y tu hwnt i Asesiadau Amgylcheddol Strategol i gynnwys swyddogaethau ehangach awdurdodau cyhoeddus. Esboniodd Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU (UKELA):

“there are other forms of policy assessment outside of SEA that fall particularly on local authorities...Due regard to the environmental principles and the guidance of the statement would be most useful in such contexts and ought to be considered.”⁴⁶

91. Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i swyddogaethau fel rheoli tir sy'n eiddo i awdurdodau cyhoeddus, penderfyniadau ariannol a gweithredu gwasanaethau lleol.

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, CLILC

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru; a thystiolaeth ysgrifenedig, Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, UKELA

92. Galwodd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin ar i'r ddyletswydd fod yn berthnasol wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â'r amgylchedd.⁴⁷ Nodwyd ganddynt y byddai hyn yn gam dewr ond angenrheidiol o ystyried yr argyfyngau hinsawdd a natur parhaus.⁴⁸

93. Dywedodd yr Athro Maria Lee fod y ddyletswydd yn gulach ac yn fwy cymhleth na'r dyletswyddau yn adrannau 3 a 4.⁴⁹ Ychwanegodd y byddai'n llawer symlach ac, o bosibl, yn gryfach cymhwyso'r un rhwymedigaeth bolisi ag yn [adran] 3 (gan gynnwys rhoi 'sylw arbennig' yn hytrach nag ystyriaeth).⁵⁰

94. Argymhellodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid ymestyn y ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion i bob awdurdod cyhoeddus er mwyn sicrhau bod modd cymhwyso'r egwyddorion yn ehangach ar lefel leol a rhanbarthol.⁵¹ Ychwanegodd:

*"Proportionate application of the principles across all public authorities would enhance delivery through the ability to achieve more integrated policy outcomes. It will enable collective accountability and consistent application across Welsh public bodies."*⁵²

Adrannau 6 a 7 – Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd

95. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi "datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd" (y datganiad) a nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r datganiad ei gynnwys, gan gynnwys: esboniad o sut mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd, a chanllawiau i awdurdodau cyhoeddus ynghylch sut i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil.

96. Mae adran 7 yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ac ymgynghori mewn cysylltiad â llunio a chyhoeddi'r datganiad (neu'r datganiad diwygiedig).

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Maria Lee

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Maria Lee

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Diben y datganiad

97. Wrth dynnu sylw at arwyddocâd y datganiad, dywedodd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin nad yw'r diffiniad a'r dehongliad o bob un o'r egwyddorion wedi'u setlo.⁵³ Felly, mae posibilrwydd y gallai'r datganiad lunio safbwynt Cymru ar y dadleuon hynny.⁵⁴

98. Dywedodd y Gynghrair Cefn Gwlad:

"while the statement must explain how environmental principles relate to each other and the section 3(1)(b) duty it does not seem that the statement needs to set out what the principles mean and how they are to be understood and applied".⁵⁵

99. Yn yr un modd, nododd NFU Cymru nad oes unrhyw ofyniad penodol i'r datganiad gynnwys diffiniadau o'r egwyddorion amgylcheddol. Rhybuddiodd y byddai gadael yr egwyddorion heb eu diffinio yn creu ansicrwydd, yn enwedig i ddeiliaid dyletswydd, ac y gallai arwain at her gyfreithiol.⁵⁶

100. Awgrymodd RenewableUK Cymru y dylai'r datganiad gynnwys un diffiniad diamwys o bob egwyddor a sut y dylai gael ei dehongli.⁵⁷

101. Rhoddodd rhai cyfranwyr farn ar sut y dylid diffinio a/neu ddehongli'r egwyddorion, yn benodol, yr egwyddor ragofalus.

102. Gofynnodd sawl cyfrannwr am eglurhad ynghylch sut mae'r egwyddorion a'r dyletswyddau cysylltiedig yn ymwneud â gofynion deddfwriaethol eraill, neu sut y byddent yn rhyngweithio â'r gofynion hynny, gan gynnwys y rhai o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, adran 6 o Ddeddf 2016 a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Roedd galwadau ar i'r datganiad fynd i'r afael â'r materion hyn.

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Cefn Gwlad

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RenewableUK Cymru

Adolygu'r datganiad

103. Mae adran 6(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r datganiad "o bryd i'w gilydd".

104. Pwysleisiodd llawer o gyfranwyr fod angen sicrhau bod y datganiad yn cadw i fyny â'r dystiolaeth ddiweddaraf a deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd domestig a rhyngwladol, ac yn darparu canllawiau cyfredol i ddeiliaid dyletswydd.

105. Mynegodd sefydliadau amgylcheddol, Healthy Air Cymru ac academyddion bryder bod y Bil yn rhoi disgresiwn llwyr i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid adolygu'r datganiad a phryd. Nododd Alex Philips:

"There is a danger there that if a weak statement is put in place, a subsequent Government might, for convenience, just never change it, and it might never progress in a way that we might want it to do".⁵⁸

106. Roedd galwadau i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r datganiad yn rheolaidd. Cyflwynwyd awgrymiadau amrywiol ar gyfer cyfnod adolygu addas, yn amrywio o unwaith ym mhob tymor y Senedd hyd at saith mlynedd.

107. Nododd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin na fydd SLIAC mewn sefyllfa i fwydo i mewn i ddatblygiad y datganiad cyntaf (gan na fydd yn gwbl weithredol tan ar ôl i'r datganiad gael ei gyhoeddi). Felly, maent yn nodi y dylai'r datganiad cyntaf gael ei adolygu a'i ddiwygio'n gyflym unwaith y bydd SLIAC yn gwbl weithredol.

Gofynion gweithdrefnol

108. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at yr angen i sicrhau bod digon o gyfle i randdeiliaid a'r cyhoedd lywio datblygiad y datganiad, o ystyried ei arwyddocâd.

109. Awgrymodd RenewableUK Cymru y dylai'r datganiad fynd trwy broses ymgynghori gadarn i sicrhau bod barn y rhai sy'n defnyddio'r canllawiau neu y bydd ymgorffori'r egwyddorion hyn yn effeithio arnynt yn cael eu hystyried.⁵⁹

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 17 Gorffennaf 2025

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RenewableUK Cymru

110. Dywedodd yr Athro Maria Lee y dylai'r datganiad fod yn seiliedig ar ymgynghoriad agored er mwyn gwella cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau o dan Confensiwn Aarhus.⁶⁰

111. Awgrymodd FUW, y Gynghrair Cefn Gwlad a WWF Cymru y dylai'r datganiad fod yn destun craffu gan y Senedd. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r dull a fabwysiadwyd yn neddfwrfeydd eraill y DU.

Amseriad y datganiad

112. Mynegodd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin siom nad oedd datganiad drafft ar gael ar yr un pryd â'r Bil, gan ychwanegu:

*"This is kicking the ball further down the line. This also means that there is no debate and no scrutiny of the Statement by the Senedd and this committee which is quite problematic."*⁶¹

113. Galwodd sefydliadau amgylcheddol a Healthy Air Cymru am eglurhad ar yr amserlen ar gyfer ymgynghori ar y datganiad cyntaf a'i gyhoeddi.

114. Nododd Jean-Francois Dulong fod tuedd i ganllawiau sy'n helpu i roi deddfwriaeth newydd ar waith gael eu gohirio, am flynyddoedd weithiau. Pwysleisiodd fod angen i'r datganiad (a fydd yn cynnwys canllawiau i awdurdodau cyhoeddus) gael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r adeg y bydd dyletswydd adran 5 yn dod i rym.

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

Adran 1

Alinio'r amcan amgylcheddol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

115. Wrth esbonio cynnwys adran 1(1)(a), pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet bwysigrwydd mabwysiadu ymagwedd gyfannol sy'n ategu fframwaith polisi a deddfwriaethol ehangach Cymru. Ychwanegodd:

"we want to make sure that we fulfil the aims of the environmental objective...But there is complementarity here. Mutually supportive outcomes associated with achieving this

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Maria Lee

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

objective are highlighted, and these outcomes are not exhaustive...[section 1(1)(a)] provides a clear link and emphasises the compatibility between the sustainable development framework, set out by the WBFG Act, and the environmental objective in this Bill.”⁶²

116. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod dull tebyg yn cael ei fabwysiadu yn adran 3(2) o Ddeddf 2016 ac agweddau ar yr amcanion rheoli tir cynaliadwy yn adran 1 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Adran 2

117. Wrth sôn am yr egwyddorion amgylcheddol, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“These are not novel...They are in common parlance globally. They’re foundational aspects of environmental governance. They have been also, by the way, these principles, consistently referenced in UK and EU environmental frameworks for a number of years, so they’re very well established.”⁶³

118. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam nad oedd integreiddio diogelu'r amgylchedd wedi'i gynnwys fel egwyddor amgylcheddol yn adran 2. Dywedodd fod yr egwyddorion amgylcheddol yn wahanol yn eu nodweddion i'r cysyniad o integreiddio ac y byddai'r ddyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd (yn adrannau 3 i 5) yn cryfhau eglurder ac effeithiolrwydd integreiddio.⁶⁴

Adrannau 3 a 4

Cryfder y ddyletswydd

119. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod y ddyletswydd sylw arbennig yn mynd y tu hwnt i'r ddyletswydd gymaradwy yn Neddfau'r DU a'r Alban.⁶⁵ Ychwanegodd eu bod nhw wedi dysgu o'r ddeddfwriaeth honno ac wedi meddwl, 'Ble allwn ni fod yn gryfach mewn gwirionedd?'.⁶⁶

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 107, 18 Medi 2025

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 26 Mehefin 2025

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 26 Mehefin 2025

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 38, 26 Mehefin 2025

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 53, 26 Mehefin 2025

120. Wrth esbonio effaith gyfreithiol “sylw arbennig”, dywedodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet:

“‘special regard’...is a rather more unusual duty than ‘due regard’, and so the effect of ‘special regard’ is that, when making policy in accordance with the duty in section 3, the Welsh Ministers would need to place considerable importance and weight to the principles when making policy. So, that’s different to a ‘have regard’ or ‘due regard’ duty, which requires less weight and proportionality.”⁶⁷

Cwmpas dyletswydd Gweinidogion Cymru

121. Wrth sôn am gwmpas y ddyletswydd yn adran 3, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“it wouldn’t make sense to apply the duty when making policy if there is no effect whatsoever on the environment.

[...]

I think you and I would struggle to see the areas where there wouldn’t be an effect. So, they’re likely to be exceptionally rare, but there’s no requirement to do so in that case.. But in the small number of cases where there might be no impact on the environment, we don’t think it’s appropriate or proportional then to apply the principles”.⁶⁸

122. Gwrthododd yr Ysgrifennydd Cabinet yr honiad bod cwmpas y ddyletswydd yn tanseilio’r egwyddor integreiddio. Dywedodd:

“We’ve made provision for clear and strong duties to integrate environmental protections in sections 3-5 of the Bill...It’s important to note as well that this is really important, this integration, because some of the greatest threats to environmental damage arise outside the realm of environmental policy...We undertake a broad range of policy making, so it’s very important that the scope is clear in

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 26 Mehefin 2025

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 39-40, 26 Mehefin 2025

providing that the duty applies wherever a policy has or could have an effect on the environment.”⁶⁹

Ystyr “polisi” a “llunio polisi”

123. Wrth esbonio ystyr “polisi”, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“Y bwriad yw bod gan bolisi ystyr eang ac, yn gyffredinol, gellir ei ddeall fel y camau y bwriedir eu cymryd i gyflawni amcan neu ganlyniad.

[...]

“O gofio bod llunio polisi yn fater eang ac amrywiol, nid yw’n bosibl rhoi diffiniad deddfwriaethol cynhwysfawr o bob achos o lunio polisi. Fel eglurhad pellach, bwriedir i’r ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru fod yn berthnasol drwy gydol y broses o lunio polisi, gydag enghreifftiau fel: cynigion deddfwriaethol; cynigion ar gyfer “lled-ddeddfwriaeth” fel codau a chyfarwyddydau; datganiadau polisi; strategaethau a fframweithiau; datganiadau gan weinidog sy’n disgrifio safbwynt ffurfiol y llywodraeth ar bwnc; neu unrhyw ddogfen bolisi arall sy’n nodi newid mewn agwedd at safbwynt polisi sefydledig.”⁷⁰

Adran 5

124. Wrth sôn am adran 5, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“the Bill is taking a very targeted approach to further enhance the underlying legislative goals by just ensuring that those certain public authorities, when undertaking the SEAs, do have regard to the principles and they integrate environmental protection”.⁷¹

125. Dywedodd y byddai’r ddyletswydd yn adran 5, yn ymarferol, yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus sy’n berchen ar dir a/neu’n datblygu

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 18 Medi 2025

⁷⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

⁷¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

tir, er enghraifft, awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.⁷² Fodd bynnag, ychwanegodd fod “y diffiniad yn fwriadol fras er mwyn cynnwys unrhyw “awdurdodau cyhoeddus” (fel y’u diffiniwyd) sy’n dod o fewn cwrmpas Rheoliadau 2004.”⁷³

126. Ar y mater o ddyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai’r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn adran 3 yn rhaeadru i lawr i awdurdodau eraill o ran polisi gweithredol a chyflawni.⁷⁴ Dywedodd na fyddai angen gosod y ddyletswydd llunio polisïau ar gyrff cyhoeddus eraill ac y byddai gwneud hynny fwy na thebyg yn anghymesur o ystyried bod disgwyl iddynt ddilyn y fframweithiau a goruchwyliaeth polisi cenedlaethol.⁷⁵

127. Rhybuddiodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai risgiau godi pe bai’r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso i’r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cyhoeddus o ddydd i ddydd.

Adrannau 6 a 7

Y datganiad

128. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er nad oedd dyddiad cau statudol ar gyfer cyhoeddi’r datganiad, byddai angen iddo gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl y diwrnod y mae’r Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Ychwanegodd:

*“almost all of the provisions in Part 1 of the Bill will be commenced within six months of Royal Assent. So, that’s stipulated. At this point, Welsh Ministers, NRW and certain public authorities will be subject to the relevant duties in that part. So, the statement and the guidance, in effect, will need to be consulted on and finalised before this time. In effect, that six months is the deadline for publication. It’s a very practical deadline.”*⁷⁶

⁷² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

⁷³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 26 Mehefin 2025

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 26 Mehefin 2025

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 62, 26 Mehefin 2025

129. Ychwanegodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y strategaeth yn dechrau yn y misoedd nesaf.⁷⁷ Dywedodd mai'r nod yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn diwedd y Chweched Senedd.

130. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet esbonio pam nad oes gofyniad penodol i Weinidogion Cymru nodi yn y datganiad sut y dylid dehongli'r egwyddorion. Dywedodd:

"Within the explanatory notes, we've explained that the [statement] will provide an opportunity to improve the understanding of that interpretation and application of the principles and the duty to integrate environmental protection".⁷⁸

131. Ychwanegodd fod adran 6(4) yn rhoi disgrisiwn i Weinidogion Cymru gynnwys unrhyw faterion eraill y gallant ystyried eu bod yn briodol, ac felly byddai modd delio â'r pwynt dehongli yn rhan o hynny.⁷⁹

132. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor eu bod yn credu, gyda'r cyfuniad o adran 6 a'r datganiad hwnnw, y bydd yn gwneud yn glir sut y bydd yr egwyddorion yn cael eu dehongli a sut y byddant yn cael eu cymhwyso.⁸⁰

Adolygu'r datganiad

133. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor y dylai'r datganiad gael ei adolygu pan fo hynny'n briodol.⁸¹ Ychwanegodd y byddai gofyniad i adolygu'r datganiad yn gyson yn faich systematig a biwrocrataidd.⁸²

Gofynion gweithdrefnol ar gyfer y datganiad

134. Pan ofynnwyd iddo pam nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Senedd graffu ar y datganiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r gofyniad yn adran 7(2) yn galluogi'r Senedd i graffu ar y datganiad. Ychwanegodd:

"Nid ydym yn credu bod angen gwneud darpariaeth ychwanegol ar gyfer gweithdrefn benodol i'r Senedd mewn

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 18 Medi 2025

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 26 Mehefin 2025

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 60, 26 Mehefin 2025

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 60, 26 Mehefin 2025

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 18 Medi 2025

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 18 Medi 2025

perthynas â'r datganiad, gan y bydd yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â chanllawiau ar gyfer CNC ac awdurdodau cyhoeddus eraill...Fel arfer, nid yw'r Senedd yn craffu ar fathau eraill o ganllawiau statudol, er enghraifft canllawiau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015".⁸³

135. Er gwaethaf yr uchod, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed barn y Pwyllgor ar sut y gallai proses y Senedd ar gyfer y datganiad weithio. Fodd bynnag, rhybuddiodd:

"gallai unrhyw ofynion ychwanegol arwain at arafu gallu Llywodraeth Cymru i gwblhau a chyhoeddi'r datganiad cyn cychwyn y darpariaethau, sef ar hyn o bryd chwe mis ar ôl y cydsyniad brenhinol. Os ychwanegir prosesau a gweithdrefnau pellach, efallai y bydd angen ymestyn yr amserlen hon."84

Ein barn ni

Adran 1

Rydym yn croesawu cynnwys yr amcan amgylcheddol, sy'n nodi uchelgais amgylcheddol Cymru yn glir.

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth y gallai adran 1(1)(a) wanhau'r amcan trwy wanhau ei ffocws amgylcheddol. Fodd bynnag, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cabinet a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddadl gref dros sicrhau ei bod wedi alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). At ei gilydd, rydym yn fodlon bod adran 1(1)(a) yn cael ei chynnwys.

Adran 2

Rydym yn cydnabod y gefnogaeth eang ymhlith cyfranwyr i'r egwyddorion amgylcheddol. Mae'r egwyddorion hyn yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel meincnodau llwyddiannus ar gyfer diogelu a gwella'r amgylchedd. Maent yn cyd-fynd â phedair egwyddor graidd yr UE a'r egwyddorion statudol a roddwyd

⁸³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

⁸⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

ar waith ar draws gweddill y DU ar ôl ymadael â'r UE, a fydd yn bwysig er mwyn cynnal cysondeb. Ar y sail hon, rydym yn fodlon ag adran 2.

Rydym yn nodi'r galwadau yn y dystiolaeth am ddiffiniad clir o'r egwyddorion amgylcheddol i ddarparu sicrwydd o ran ystyr a sicrhau cymhwysiad cymesur. Credwn mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio datganiad ar ddiogelu'r amgylchedd (o dan adran 6), sy'n anelu at wella dealltwriaeth o'r egwyddorion ac a fydd yn nodi sut y dylent gael eu cymhwyso yn ymarferol. Rydym yn ystyried y datganiad yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Adrannau 3 a 4

Cryfder a chwmpas dyletswyddau

Rydym yn croesawu'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol. Roedd mwyafrif y cyfranwyr o'r farn bod hwn yn gam angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gan yr egwyddorion rôl gref wrth lunio polisïau a deddfau yng Nghymru yn y dyfodol.

Er bod cryfder dyletswydd Gweinidogion Cymru yn ganmoladwy, rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr am gwmpas y ddyletswydd. Fel y'i drafftwyd, mae adran 3 yn creu ansicrwydd ynghylch pa bolisïau fyddai'n cael eu cwmpasu gan y ddyletswydd. Mae hyn yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru benderfynu a yw polisi yn debygol o effeithio ar yr amgylchedd. O ganlyniad, mae ganddynt ddisgresiwn eang o ran pryd i roi sylw arbennig i'r egwyddorion. Ymhellach, mae'n tybio bod effeithiau amgylcheddol polisïau yn hawdd eu hadnabod, a chlywsom gan gyfranwyr nad felly y mae hi bob amser.

Fel y nodwyd gan gyfranwyr, mae'r egwyddor integreiddio yn ceisio sicrhau bod llunwyr polisi yn nodi cyfleoedd i ymwreiddio diogelwch amgylcheddol ym mhob polisi, nid yn unig y rhai sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr bod cwmpas y ddyletswydd, fel y'i drafftwyd, yn tanseilio'r egwyddor hon.

Rydym yn nodi'r dadleuon a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros y dull a fabwysiadwyd. Fodd bynnag, nid yw wedi rhoi'r sicrwydd rydym yn ei geisio y bydd adran 3 yn cyflawni'r bwriad polisi yn llawn. Credwn y byddai ymestyn y ddyletswydd i bob polisi a lunnir yn rhoi sicrwydd, yn dileu disgresiwn ac yn sicrhau bod yr egwyddor integreiddio yn cael ei chymhwyso mewn ffordd

ystyrlon. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ystyr “polisi”

Rydym yn pryderu bod cwmpas y term “polisi”, fel y'i drafftwyd, yn ansicr ac yn agored i'w ddehongli. O ganlyniad i hyn, mae cwmpas y dyletswyddau yn adrannau 3 a 4 hefyd yn ansicr.

Rydym yn croesawu'r eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet mai'r bwriad yw i ystyr “polisi” gwmpasu ystod eang o ddogfennau, gan gynnwys polisïau, strategaethau a fframweithiau. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn sicrhau bod y bwriad hwn yn glir, a thrwy hynny ddileu ansicrwydd. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'r perwyl hwn.

Adran 5

Rydym yn croesawu cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y ddyletswydd yn adran 5 yn wan ac yn gul. Rydym yn cwestiynu a fydd yn gwella'r ffordd y caiff yr amgylchedd ei ddiogelu a sut y bydd yn gwneud hynny.

Fel y nodwyd yn y dystiolaeth gan gyfranwyr, mae Asesiadau Amgylcheddol Strategol eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ystyried ffactorau amgylcheddol wrth ddatblygu cynlluniau neu raglenni. Os ydym am i'r ddyletswydd yn adran 5 ddarparu manteision diriaethol, credwn y dylai gael ei chryfhau a'i hymestyn y tu hwnt i ddyletswyddau presennol mewn cysylltiad ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol.

O ystyried hyn, credwn ei fod yn werth ystyried gosod dyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth arfer eu swyddogaethau. Credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried hyn ymhellach.

Adrannau 6 a 7

Mae'n siomedig na chafodd y datganiad drafft ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil. Byddai hyn wedi egluro bwriadau polisi Llywodraeth Cymru ac wedi cefnogi ein gwaith craffu ar Ran 1 o'r Bil. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r datganiad drafft i ymgynghori arno fel mater o flaenoriaeth.

Ni ellir gorbwysleisio arwyddocâd y datganiad. Er bod yr egwyddorion amgylcheddol eisoes yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol, y datganiad fydd yn pennu eu hystyr, a'r ffordd y dylent gael eu dehongli a'u cymhwyso, yng nghydestun Cymru. Rydym yn pryderu, felly, nad oes gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i nodi yn y datganiad sut y dylid dehongli'r egwyddorion. Credwn fod hyn yn hepgoriad sylweddol, y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet fynd i'r afael ag ef.

Adolygu'r datganiad

Rydym yn pryderu bod adran 6(5), fel y'i drafftiiwyd, yn rhoi disgrisiwn llwyr i Weinidogion Cymru o ran adolygu'r datganiad. Rydym yn cydnabod y galwadau gan gyfranwyr ar i'r datganiad gael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Er ein bod yn nodi honiad yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai hyn yn faich biwrocrataidd a systematig, credwn y bydd adolygiad cyfnodol o'r datganiad yn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn ac yn berthnasol. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i sicrhau bod y Bil yn darparu ar gyfer hyn.

Gofynion gweithdrefnol

Roedd disgwyliad clir ymhlith cyfranwyr y dylai Gweinidogion Cymru ymgynghori'r eang wrth baratoi ac adolygu'r datganiad. Er bod adran 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori, mae'r ymgynghoreion penodol yn cael eu gadael i'w disgrisiwn i raddau helaeth. O ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad penodol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

O dan y Bil, bydd y datganiad yn rhan hanfodol o fframwaith llywodraethiant amgylcheddol newydd Cymru. Mae'n siomedig, felly, nad yw'r Bil yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar y datganiad cyn iddo gael ei osod. Mae hyn yn hepgoriad sylweddol, y dylid mynd i'r afael ag ef.

Er ein bod yn nodi honiad yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai rhoi amser i'r Senedd graffu ar y datganiad arwain at oedi cyn iddo gael ei roi ar waith, credwn y gall hyn gael ei liniaru gyda chynllunio priodol. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod y Senedd yn craffu ar y datganiad mewn ffordd ystyrlon. Mae dulliau a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r DU i sicrhau bod datganiadau egwyddorion amgylcheddol tebyg yn destun craffu seneddol yn darparu cynsail defnyddiol.

Amseriad y datganiad

Yn olaf, bydd y graddau y bydd y dyletswyddau yn adrannau 3 i 5 yn cyfrannu at yr amcan amgylcheddol yn dibynnu ar y ffordd y cânt eu cymhwyso'n ymarferol. Bydd y datganiad yn allweddol i sicrhau cymhwysiad cywir a chyson ar draws llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Mae'n hanfodol, felly, bod y datganiad yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r adeg y bydd y dyletswyddau yn dod i rym.

Argymhellion

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ymestyn cwmplas y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru yn adran 3 fel ei bod yn gymwys i bob polisi a gaiff ei lunio (yn hytrach na dim ond polisi sy'n cael, neu a allai gael unrhyw effaith ar yr amgylchedd).

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i egluro ystyr "polisi" yn Rhan 1 o'r Bil. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys darpariaeth dehongli sy'n cynnwys rhestr anghynhwysfawr o faterion a fyddai'n dod o fewn ystyr "polisi".

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn rhoi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol wrth gyflawni swyddogaethau a nodir yn adran 5(2).

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus yn fwy cyffredinol i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'n benodol yn natganiad adran 6 sut y dylai'r egwyddorion amgylcheddol gael eu dehongli.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu datganiad adran 6 unwaith bob tymor y Senedd, a
- galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu'r datganiad ar unrhyw adeg arall.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi datganiad adran 6 neu ddatganiad diwygiedig.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud darpariaeth yn y Bil ar gyfer craffu ar ddatganiad adran 6 yn y Senedd. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn adran 18 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn darparu cysail defnyddiol.

4. Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

Adrannau 8 a 9 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

136. Mae adran 8 yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC) fel corff corfforedig. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth ynglŷn â chyfansoddiad SLIAC a'r ffordd y disgwylir iddi weithredu.

137. Mae adran 9 yn darparu bod yn rhaid i SLIAC arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol o gyfrannu at yr amcan amgylcheddol mewn modd diduedd, gwrthrychol, cymesur a thryloyw.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

SLIAC sy'n gwbl weithredol

138. Roedd galwadau ar i SLIAC gael ei sefydlu a bod yn gwbl weithredol o fewn yr amser byrraf posibl. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

*"This body is long overdue, and therefore we recommend the Bill provides the strongest framework possible to ensure the Body can immediately deliver its functions appropriately and effectively once established. It is crucial the body is established at pace to close the governance gap in place since Wales' departure from the EU."*⁸⁵

139. Ychwanegodd:

*"To avoid delay, we recommend the Bill requires a timetable for the laying of statutory instruments to bring the remaining provisions ([sections] 10 to 27) into force to secure transparency and certainty in the process."*⁸⁶

140. Nododd WWF Cymru a'r Gynghrair Werdd fwriad Llywodraeth Cymru i SLIAC fod yn gwbl weithredol rhwng 18-24 mis ar ôl i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Pwysleisiwyd mai mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd dechrau'r

⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

darpariaethau perthnasol sy'n rhoi swyddogaethau/darparu pwerau i SLIAC, sy'n creu ansicrwydd a risg o oedi. Galwyd ar i'r Bil gael ei ddiwygio i sicrhau bod yr holl ddarpariaethau yn Rhan 2 yn dechrau'n awtomatig heb fod yn hwyrach na 24 mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol (h.y. cynnwys darpariaeth codiad haul).

141. Galwodd sawl cyfrannwr am eglurder ar drefniadau trosiannol (o Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW)⁸⁷ i SLIAC), gan dynnu sylw at bwysigrwydd pontio llyfn.

Diben cyffredinol SLIAC

142. Cododd sefydliadau amgylcheddol a'r Athro Lynda Warren (IEPAW) bryder bod pwrpas cyffredinol SLIAC h.y. cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, yn rhy eang. Mae hyn yn bennaf oherwydd y cyfeiriad yn yr amcan amgylcheddol at y nodau llesiant (gweler paragraffau 54 i 58).

143. Roedd gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a'r Gynghair Werdd amheuan difrifol ynghylch cymhwyso'r amcan amgylcheddol i ddiben cyffredinol SLIAC.⁸⁸ Eglurwyd:

"The OEGW will replace the role played by the European Commission and Courts in monitoring and overseeing compliance with environmental law. It will be a strategic oversight body with specific legal functions and responsibilities, all of which relate to environmental law.

*There are many examples of public authorities under-delivering because of a lack of clarity in their strategic purpose and founding legislation."*⁸⁹

144. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ar i'r diben cyffredinol gael ei symleiddio i ganolbwyntio ar yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl: sicrhau effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a chyflawni lefel uchel o ddiogelwch

⁸⁷ Er mwyn pontio'r bwlch rhwng diwedd cyfnod pontio Brexit a gweithredu trefniadau llywodraethiant amgylcheddol parhaol yng Nghymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru fesurau diogelu'r amgylchedd interim dan arweiniad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW).

⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru, a thystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghair Werdd

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru, a thystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghair Werdd

amgylcheddol a gwella'r amgylchedd naturiol.⁹⁰ Mynegodd y Gynghrair Werdd a RSPB Cymru farn debyg.

Annibyniaeth

145. Pwysleisiodd cyfranwyr y bydd annibyniaeth SLIAC yn hanfodol i'w gweithrediad effeithiol, o ystyried y ffaith bod ei rôl oruchwylio yn cynnwys Gweinidogion Cymru. Codwyd pryder ganddynt nad oes gan y Bil, fel y'i drafftwyd, ddigon o fesurau diogelu i sicrhau annibyniaeth, yn enwedig yn y tymor hwy. Galwyd ar i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â hyn.

Darpariaeth benodol ar annibyniaeth

146. Roedd cefnogaeth gref i'r Bil gynnwys darpariaeth benodol sy'n nodi annibyniaeth SLIAC i ddarparu eglurder cyfreithiol ac annibyniaeth sy'n addas i'r dyfodol.

147. Crynhodd y Gynghrair Werdd safbwyntiau llawer o gyfranwyr, gan ddweud:

*"While welcome, words of positive intent from the current administration do not amount to long term legal certainty...the absence of any explicit legal safeguards on OEGW independence leaves the body vulnerable to the political whims of future ministers, who may be less well disposed to the OEGW, especially once it has started to ask difficult questions about any potential lack of compliance with environmental laws."*⁹¹

148. Tynnodd Undeb Amaethwyr Cymru sylw at elfennau tebyg i Cyfoeth Naturiol Cymru, gan nodi bod rheolaeth Gweinidogion Cymru wedi cyfrannu mewn ffordd negyddol at weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi creu cyfleoedd a gollwyd, gan roi sawl enghraifft.⁹²

149. Tynnodd llawer o gyfranwyr sylw at y ffaith bod Deddfau'r DU a'r Alban yn cynnwys darpariaeth benodol sydd â'r nod o ddiogelu annibyniaeth yr OEP ac ESS yn y drefn honno.⁹³

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru

⁹³ Mae Deddf y DU yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Gogledd Iwerddon i roi sylw i'r angen i amddiffyn annibyniaeth yr OEP wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r

150. Wrth wneud sylwadau ar y ddarpariaeth yn Neddf y DU, dywedodd yr OEP:

*"[This] sets an overall context for the OEP's independence, and its relevance to all of our role. It provides a helpful frame of reference as we undertake our role, clearly signalling the legislative intent. We have found this to be a valuable safeguard through changes of Ministers and government."*⁹⁴

151. Cyfeiriodd Mark Roberts (Prif Weithredwr ESS) at y ddarpariaeth yn Neddf yr Alban fel mesur diogelu amhrisiadwy, gan ddweud:

*"It has meant that public bodies and the Scottish Government are very clear that, while they have to work with us, and again, there is an inevitable tension in any scrutiny relationship, we are independent, and we'll make our own decisions about what we do and how we do it, and what we conclude."*⁹⁵

Penodiadau i SLIAC

152. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn darparu ar gyfer aelodaeth SLIAC a'r broses ar gyfer penodiadau. Bydd cadeirydd, dirprwy gadeirydd ac aelodau anweithredol eraill y Bwrdd yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru, yn yr un modd â'r prif weithredwr cyntaf.

153. Cyn gwneud penodiad, rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu panel i argymhell ymgeiswyr ar gyfer penodiadau. Rhaid i'r panel gynnwys un aelod o staff Llywodraeth Cymru a dau aelod annibynnol. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i argymhelliad y panel wrth wneud penodiad.

154. Wrth benodi neu ailbenodi cadeirydd neu ddirprwy gadeirydd, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor y Senedd y mae ei gylch gwaith yn cwmpasu diogelu'r amgylchedd.

155. Cododd llawer o gyfranwyr bryder nad yw'r broses benodi yn annibynnol, gan alw ar y Senedd i gael mwy o rôl oruchwyllo.

corff. Mae Deddf yr Alban yn darparu, wrth arfer ei swyddogaethau, nad yw Safonau Amgylcheddol yr Alban yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd na reolaeth unrhyw aelod o Lywodraeth yr Alban.

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 214, 9 Gorffennaf 2025

156. Yn ôl Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin, mae'r broses benodi ar gyfer yr OEP (sy'n gymharol debyg i'r broses ar gyfer SLIAC) wedi bod yn destun llawer o feirniadaeth oherwydd bod aelodau yn cael eu penodi yn y pen draw gan Lywodraeth y DU.⁹⁶ Rhybuddiwyd yn erbyn y dull hwn.

157. Amlinellodd y Fonesig Glenys Stacey y broses ar gyfer penodi cadeirydd yr OEP. Fel rhan o'r broses hon, mae'r pwyllgor dethol perthnasol yn craffu ar yr ymgeisydd a ffefrir cyn penodi i'r swydd. Esboniodd:

*"That's quite intense, and I think it's the right thing. I do think that, in that way, committee can decide whether or not it has confidence in the proposed appointment and, indeed, the select committee produces a report of several pages. So, it's not simply a nod; it's quite an intensive process."*⁹⁷

158. Roedd sawl cyfrannwr o'r farn nad yw ymgynghori â phwyllgor y Senedd (a fydd yn ymarferol yn debygol o olygu gwrandawriad cyn penodi) cyn penodi cadeirydd neu ddirprwy gadeirydd SLIAC yn fesur diogelu digonol i sicrhau annibyniaeth. Tynnodd Dr Victoria Jenkins sylw at y ffaith nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried argymhelliad y pwyllgor.

159. Awgrymodd WWF Cymru y gallai pwyllgor y Senedd fod â rôl weithredol a mwyafrif mewn paneli recriwtio, yn hytrach na rôl wrth graffu ar ymgeiswyr a ffefrir gan y Llywodraeth.⁹⁸ Mynegodd Cyswilt Amgylchedd Cymru farn debyg. Roedd yr Athro Bob Lee o'r farn y dylai penodiadau fod yn amodol ar gymeradwyaeth y pwyllgor.

160. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban fel dewis arall posibl. Eglurodd Mark Roberts fod hyn yn dilyn y broses penodiadau cyhoeddus safonol ac yn cael ei redeg gan Lywodraeth yr Alban. Mae penodeion arfaethedig yn ddarostyngedig i wrandawriad cyn penodi gan y pwyllgor perthnasol. Dim ond gyda chymeradwyaeth Senedd yr Alban y gellir gwneud penodiadau. Wrth wneud sylwadau ar y dull hwn, dywedodd Mark Roberts:

"what that does is really reinforce the accountability of the ESS as an organisation to the Scottish Parliament, and provides a

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 9 Gorffennaf 2025

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, WWF Cymru

*fairly high degree of independence from Scottish Ministers in terms of making that appointment.*⁹⁹

Digonolrwydd cyllid

161. Bydd SLIAC yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

162. Yn unol â pharagraff 16 o Atodlen 1, “[c]aiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw daliadau i SLIAC o unrhyw symiau, ar unrhyw adegau ac yn unol ag unrhyw amodau, y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt”.

163. Pwysleisiodd llawer o gyfranwyr fod angen sicrhau bod gan SLIAC ddigon o gyllid i arfer ei swyddogaethau yn effeithiol. Codwyd pryder nad yw’r Bil, fel y’i drafftwyd, yn darparu ar gyfer hyn yn ddigonol. O bryder allweddol oedd y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol geisio gweithredu rheolaeth dros SLIAC drwy gyfyngu ar ei hadnoddau, gan gyfaddawdu annibyniaeth y corff.

164. Dywedodd Healthy Air Cymru a Cyfeillion y Ddaear Cymru nad yw’r darpariaethau cyllido yn rhoi sicrwydd ynghylch yr adnoddau y bydd eu hangen ar SLIAC, na’r amddiffyniad rhag toriadau cyllid os bydd y corff yn cael ei ystyried yn ormod o her i weinyddiaeth yn y dyfodol.¹⁰⁰

165. Dywedodd WWF Cymru:

“At present, there is no provision in the Bill to safeguard the body’s financial security [resourcing]. This cannot be left to chance, as the goodwill of current ministers does not guarantee independence in the long term.”

166. Roedd cefnogaeth gref i’r Bil gynnwys darpariaeth i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i SLIAC, yn enwedig yn yr hirdymor. Cyfeiriodd cyfranwyr at ddarpariaethau yn Neddfau’r DU a’r Alban fel enghreifftiau y gellir eu defnyddio.¹⁰¹

⁹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 9 Gorffennaf 2025

¹⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Healthy Air Cymru; a thystiolaeth ysgrifenedig, Cyfeillion y Ddaear Cymru

¹⁰¹ Mae Deddf yr Alban yn ei gwneud yn ofynnol i ESS nodi, yn ôl-weithredol, yn ei adroddiad blynyddol a’i gyfrifon a oedd yr adnoddau a ddyrannwyd iddo gan Lywodraeth yr Alban yn y flwyddyn flaenorol yn ddigonol i’w alluogi i arfer ei swyddogaethau. Mae Deddf y DU yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Gogledd Iwerddon i dalu i’r OEP y cyfryw symiau y maent yn ystyried eu bod yn rhesymol ddigonol i alluogi’r OEP i arfer ei swyddogaethau. Rhaid i’r OEP, yn ei thro, wneud datganiad blynyddol i Senedd y DU a Chynulliad Gogledd Iwerddon ynghylch a yw’r symiau’n ddigonol.

167. Mae'r OEP yn nodi bod y ddarpariaeth yn Neddf y DU yn darparu tryloywder a mecanwaith i Senedd y DU a Chynulliad Gogledd Iwerddon graffu ar ddigonolrwydd adnoddau.¹⁰² Esboniodd Natalie Prosser (Prif Weithredwr yr OEP) effaith ymarferol y ddarpariaeth, gan ddweud:

*"when budgets are being settled, particularly in strained fiscal times, there is a heightened ministerial attention to the OEP's budget. It means, when Ministers themselves are being held to account by committees, they are questioned on this...it has been very helpful for us to ensure that independence is respected, particularly in circumstances where we have the sometimes challenging job of holding Government to account."*¹⁰³

168. Cyfeiriodd UKELA at y darpariaethau ariannol yn Neddfau'r DU a'r Alban fel rhai sy'n darparu gwarantau eithaf amwys o ddigonolrwydd cyllid.¹⁰⁴ Awgrymodd y gallai'r Bil gynnwys darpariaeth i sicrhau cyllideb wedi'i neilltuo y cytunir arni ar gyfer SLIAC am gyfnod penodol, er enghraifft, pum mlynedd. Ychwanegodd:

*"While accepting that this offers no long-term assurance, there is a hope and expectation that this might take the OEGW to a point that wider public recognition of its functioning might offer it further protection."*¹⁰⁵

169. Galwodd Archwilio Cymru ar i'r adnoddau ar gyfer SLIAC ddod o Gronfa Gyfunol Cymru ar Gynnig Cyllideb y Senedd, yn debyg i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn hytrach na chyllideb a bennir gan Weinidogion Cymru.

Adran 10 – Strategaeth SLIAC

170. Mae adran 10 yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau. Mae hefyd yn cyflwyno Atodlen 2.

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 9 Gorffennaf 2026

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, UKELA

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, UKELA

171. Mae paragraff 1 o Atodlen 2 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i'r strategaeth ei gynnwys yn benodol. Mae paragraff 2 yn nodi gofynion gweithdrefnol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Cynnwys y strategaeth

172. Cododd sefydliadau amgylcheddol bryder bod paragraff 1 o Atodlen 2, fel y'i drafftiiwyd, yn rhy ragnodol ac y gellir ystyried ei fod yn tanseilio annibyniaeth SLIAC. Nododd RSPB Cymru fod yn rhaid i SLIAC gael disgresiwn llwyr wrth ddatblygu a chyhoeddi ei strategaeth er mwyn sicrhau annibyniaeth y corff.¹⁰⁶ Ychwanegodd:

*"Although it is beneficial to include some elements on the face of the Bill, for example the requirement for an enforcement policy, the overly prescriptive nature of Schedule 2 is of concern."*¹⁰⁷

173. Mynegodd y Gynghrair Werdd a WWF Cymru safbwyntiau tebyg, gan alw am lai o ofynion. Yn ôl y Gynghrair Werdd, byddai hyn yn osgoi rhoi'r argraff yn y gyfraith bod cyfeiriad strategol a blaenoriaethau SLIAC yn cael eu gosod gan Weinidogion Cymru.¹⁰⁸

174. Ni wnaeth sefydliadau amgylcheddol fynd mor bell â nodi pa ofynion yr oeddent o'r farn y dylent gael eu dileu.

175. Esboniodd Mark Roberts fod Deddf yr Alban yn eithaf manwl wrth nodi'r hyn roedd yn rhaid iddynt ei gynnwys yn eu strategaeth. Ychwanegodd nad oedd hynny wedi bod yn arbennig o broblematig, yn ei farn ef.¹⁰⁹

Osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd

176. Mae paragraff 1(1)(e) o Atodlen 2 yn darparu bod yn rhaid i strategaeth SLIAC nodi sut mae'n bwriadu osgoi gorgyffwrdd â swyddogaethau: Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, y Comisiynydd Gwybodaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

¹⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

¹⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Werdd

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 302, 9 Gorffennaf 2025

177. Pwysleisiodd llawer o gyfranwyr fod angen rheoli gorgyffwrdd posibl yn ofalus rhwng swyddogaethau SLIAC a swyddogaethau cyrff goruchwyllo presennol.

178. Wrth sôn am y risg y gallai swyddogaethau orgyffwrdd, dywedodd Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru) fod cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn eang iawn o ran rheoli amgylcheddol, tra bydd cylch gwaith SLIAC yn gul ac yn benodol iawn, gan ganolbwyntio ar gyflawni cyfraith amgylcheddol a chraffu arni.¹¹⁰ Roedd hi'n cydnabod y bydd y ddau gorff yn darparu cyngor ar gyfraith amgylcheddol, ond ar faterion gwahanol. Roedd Mary Lewis yn fodlon y byddai'r ddarpariaeth yn Atodlen 2 yn sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd rhwng swyddogaethau'r ddau gorff.

179. Awgrymodd Hafren Dyfrdwy fod angen diffinio rôl oruchwyllo SLIAC yn glir mewn perthynas â chwmnïau dŵr. Cododd Hafren Dyfrdwy a Dŵr Cymru bryder am y potensial y gallai swyddogaethau SLIAC ddyblygu swyddogaethau rheoleiddwyr presennol y diwydiant dŵr (Cyfoeth Naturiol Cymru, Ofwat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed). Awgrymodd Dŵr Cymru y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i ddarparu bod strategaeth a chanllawiau gweithredol SLIAC yn mynd i'r afael yn benodol â sut y bydd y corff yn cydlynu â rheoleiddwyr presennol y diwydiant dŵr ac yn rheoli materion trawsffiniol.

180. Cwestiynodd llawer o gyfranwyr pam nad oedd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU wedi'i gynnwys yn y rhestr o gyrff goruchwyllo, gan awgrymu bod hyn yn hepgoriad amlwg. Dywedodd Annie Smith (RSPB Cymru):

*"we are a bit puzzled about why the Climate Change Committee isn't mentioned, because it is such a significant environmental advisory body that has a role advising the Welsh Government, so it's an obvious body where there is the potential for overlap and where it would make sense to address that from the outset."*¹¹¹

181. Esboniodd Ruth Chambers:

"climate law is within the remit of the OEGW, as it's defined in the Bill, so in the future, if there's a breach of climate law in Wales, what would probably happen is the OEGW would enforce it, whereas the UK CCC would be the body that found it,

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 17 Gorffennaf 2025

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 17 Gorffennaf 2025

so they would have to work together to make sure that there isn't overlap or duplication."¹¹²

182. Nododd sawl cyfrannwr fod Deddfau'r DU a'r Alban yn darparu bod yn rhaid i strategaethau'r OEP ac ESS, yn y drefn honno, nodi'r modd y mae'r cyrff yn bwriadu osgoi unrhyw orgyffwrdd â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU. Ymhellach, mae Deddf y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r OEP a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU baratoi memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gydweithredu er mwyn osgoi gorgyffwrdd rhwng eu swyddogaethau.

183. Nododd Natalie Prosser fod y gofyniad am femorandwm cyd-ddealltwriaeth yn ddefnyddiol, gan ychwanegu:

*"A line does need to be drawn between their responsibilities and ours. I think it's clearly set out in legislation, but having that expectation early on to put in place those arrangements was really, really helpful, because we had to do it and so did they, and that allowed us to establish those relationships early on."*¹¹³

184. Eglurodd Mark Roberts fod gan ESS a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU femorandwm cyd-ddealltwriaeth hefyd, er nad yw'n ofyniad statudol.

185. Dywedodd Derek Walker ei fod wedi argymhell, yn ystod y gwaith o ddatblygu'r Bil, ei fod yn cynnwys darpariaeth ar gyfer memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a SLIAC. Dywedodd fod y gofyniad ym mharagraff 1(1)(e) o Atodlen 2 yn ymdrin â hyn yn rhannol.

Gofynion gweithdrefnol

186. Mae paragraff 2(1) o Atodlen 2 yn darparu, wrth baratoi ei strategaeth (neu ei strategaeth ddiwygiedig), fod yn rhaid i SLIAC ymgynghori â phwyllgor y Senedd y mae ei gylch gwaith yn cynnwys diogelu'r amgylchedd, ac unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

187. Pwysleisiodd sawl cyfrannwr fod angen i SLIAC ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar ei strategaeth, gyda galwadau ar i Atodlen 2 ddarparu'n benodol ar gyfer hyn.

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 64, 17 Gorffennaf 2025

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 278, 9 Gorffennaf 2025

188. Dywedodd yr Athro Maria Lee y dylai'r strategaeth fod yn seiliedig ar ymgynghoriad agored â'r cyhoedd, er mwyn gwella cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau o dan Confensiwn Aarhus.

189. Dywedodd UKELA y dylai SLIAC ymgynghori'n eang [ar ei strategaeth], nid lleiaf i adeiladu gwybodaeth y cyhoedd a'u hyder yn y ffordd y mae'n gweithredu.¹¹⁴ Awgrymodd y dylai fod gofyniad i ymgynghori tebyg i'r un yn adran 5(c) a (d) o Ddeddf Cydraddoldeb 2006 (ymgynghoriad ar gynllun strategol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol).

190. Galwodd Cyfeillion y Ddaear Cymru am ofyniad i ymgynghori ag unigolion a chymunedau, o ystyried y bydd y strategaeth yn nodi dull SLIAC o dderbyn sylwadau gan y cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol.

Adolygu'r strategaeth

191. Mae paragraff 2(2) o Atodlen 2 yn darparu bod yn rhaid i SLIAC adolygu ei strategaeth bob pedair blynedd.

192. Awgrymodd John Henderson (Dirprwy IEPAW) y dylai fod hyblygrwydd i SLIAC adolygu a diwygio ei strategaeth yn amlach. Dywedodd ei fod yn bosibl y gallai pethau newid yn llawer cyflymach, a bod strategaeth, fel cynllun, ond yn gweithio nes nad yw'n gweithio, ac yna mae'n rhaid i chi ei newid.¹¹⁵

193. Dywedodd Mark Roberts fod gan ESS gryn dipyn o ddisgresiwn wrth adolygu ei strategaeth, a chroesawodd hynny. Nid oes gofyniad ar ESS i adolygu ei strategaeth, yn hytrach pŵer galluogi sydd ganddo i'w adolygu o bryd i'w gilydd.

194. Esboniodd y Fonesig Glenys Stacey ei fod yn ofynnol i'r OEP adolygu ei strategaeth bob tair blynedd. Mae Deddf y DU hefyd yn galluogi'r OEP i adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg.

Adrannau 11 i 13 – Swyddogaethau monitro, adrodd a chynghori

195. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol (fel y'i diffinnir yn adran 29) a gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol. Mae hefyd yn rhoi disgresiwn i

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, UKELA

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 294, 9 Gorffennaf 2025

SLIAC adrodd ar unrhyw fater y mae'n ofynnol iddi ei fonitro, neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwneud cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd.

196. Mae adran 12 yn darparu y gall SLIAC roi cyngor i Weinidogion Cymru ynghylch cynigion newydd ar gyfer deddfwriaeth amgylcheddol, neu newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol. Mae gan SLIAC ddisgresiwn ynghylch a yw'n rhoi'r cyngor y gofynnwyd amdano gan Weinidogion Cymru, ond mae'n rhaid iddi egluro mewn datganiad os yw'n dewis peidio â gwneud hynny.

197. Mae adran 13 yn darparu y caiff SLIAC ddyroddi canllawiau neu roi cyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Os yw'r canllawiau'n cael eu darparu i awdurdod cyhoeddus ac yn cynnwys argymhellion, caiff SLIAC ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ymateb i argymhelliad o'r fath.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Monitro ac adrodd ar dargedau amgylcheddol

198. Mae paragraff 1(2)(a) o Atodlen 2 yn darparu bod yn rhaid i strategaeth SLIAC nodi sut mae'r corff yn bwriadu monitro unrhyw dargedau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a osodir gan gyfraith amgylcheddol neu oddi tani.

199. Awgrymodd Dr Jenkins a Ruth Chambers fod angen mwy o eglurder ynghylch rôl SLIAC wrth fonitro ac adrodd ar dargedau amgylcheddol.

200. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, RSPB Cymru a Cyfeillion y Ddaear Cymru ar SLIAC i gael rôl amlwg wrth fonitro ac adrodd ar dargedau a chynlluniau amgylcheddol.

201. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod pwerau i SLIAC gyhoeddi adroddiad sy'n adolygu'n ffurfiol yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i gyflawni yn erbyn ei rhwymedigaethau amgylcheddol o bryd i'w gilydd, a'i osod gerbron y Senedd, yn hanfodol.¹¹⁶ Ychwanegodd:

"One of the key functions of the OEP is their publication of an annual progress report under Section 28 of The Environment Act 2021. This report, to which the government must respond within a specified timeframe, provides a very useful independent and authoritative assessment of the government's

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

progress in improving the environment, and a Welsh version of the report would provide a very valuable means of verifying the progress made by the Welsh Ministers in relation to all of its environmental targets, highlighting any issues that may still need to be addressed.”¹¹⁷

202. Cafodd hyn ei adleisio gan Cyfeillion y Ddaear Cymru a RSPB Cymru, a bwysleisiodd bwysigrwydd asesiad annibynnol o'r cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth statudol (i'w osod o dan Ran 3 o'r Bil). Dywedodd RSPB Cymru:

*“The OEP’s reports under the duty have been very robust in challenging the UK Government and pushing for greater clarity as to how its environmental targets will be met. Given the challenges biodiversity is facing and the inadequacy of actions to date to address the nature emergency, we suggest a similar role should be set out for the OEGW”.*¹¹⁸

203. Wrth sôn am ei dyletswydd, dywedodd yr OEP ei bod yn creu cylch o asesu, adrodd ac ymateb sy'n anelu at greu tryloywder ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni, a sicrhau bod modd newid llwybr pan fo angen.¹¹⁹ Dywedodd Natalie Prosser fod yr OEP yn defnyddio llawer o adnoddau i fodloni ei gofynion monitro ac adrodd.¹²⁰ Fodd bynnag, ychwanegodd fod gan yr OEP ddisgresiwn dros ddwyyster yr adolygiad.¹²¹

204. Esboniodd Mark Roberts fod Bil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) yn darparu i ESS gael ei ddynodi fel y Corff Adolygu Annibynnol ar gyfer targedau bioamrywiaeth statudol arfaethedig yr Alban.¹²² Dywedodd y byddai hyn yn cynrychioli estyniad sylweddol o swyddogaethau ESS.¹²³

205. Pwysleisiodd yr Athro Lynda Warren a John Henderson pa mor bwysig ydyw bod SLIAC yn gallu pennu ei blaenoriaethau monitro ac adrodd ei hun. Dywedodd yr Athro Lynda Warren:

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

¹¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 255, 9 Gorffennaf 2025

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 255, 9 Gorffennaf 2025

¹²² Yn wahanol i'r OEP, y bwriad yw i'r Bwrdd Adolygu Annibynnol adolygu'r adroddiadau tair blynedd a baratoir gan Weinidogion yr Alban ar gynnydd tuag at dargedau.

¹²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, ESS

“if it’s going to maintain its independence, then it’s got to be free to decide which targets it’s going to be monitoring...actually forcing it to look at particular targets, making it a requirement to do so, I think could mean that it then can’t devote time to issues that it thinks are more important.”¹²⁴

Sylwadau ar faterion sy’n ymwneud â chyfraith amgylcheddol

206. Mae paragraff 1(2) o Atodlen 2 yn darparu bod yn rhaid i strategaeth SLIAC nodi sut y bydd y corff yn galluogi personau i wneud sylwadau iddi ynghylch materion sy’n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Rhaid i’r strategaeth hefyd nodi sut mae SLIAC yn bwriadu rheoli’r sylwadau hynny, gan gynnwys hysbysu pobl am ei hymateb i’w sylwadau ac unrhyw gamau gweithredu y mae’n eu cymryd.

207. Roedd sefydliadau amgylcheddol, yr IEPAW ac academyddion yn ystyried bod derbyn sylwadau gan y cyhoedd yn un o swyddogaethau allweddol SLIAC. Codwyd pryder nad yw’r Bil, fel y’i drafftwyd, yn nodi hyn yn ddigon clir. Dywedodd yr IEPAW:

“We note that [the Bill] requires the OEGW to set out in its strategy how it intends to enable people to make representations but we don’t think this part of the work should be hidden away in Schedule. We think it would be helpful to state on the face of the Bill that the OEGW has power to accept submissions on the functioning of environmental law from members of the public.”¹²⁵

208. Nododd sefydliadau amgylcheddol ac academyddion nad yw’r Bil yn darparu hawl gyfreithiol i ddinasyddion wneud sylwadau ac i gael eu hysbysu am y mesurau a gymerwyd. Dywedodd WWF Cymru:

“The Bill does not establish a legal requirement for the body to accept complaints or representations from the public. This is a major gap in what has hitherto been considered a central purpose of a new body. Excluding a specific clause to this effect

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 250, 9 Gorffennaf 2025

¹²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, IEPAW

*risks weakening the rights Welsh people had when the UK was a member of the EU.*¹²⁶

209. Yn yr un modd, nododd y Gynghair Werdd y byddai'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil yn gam yn ôl o gymharu â'r sefyllfa cyn gadael yr UE. Ychwanegodd:

*"While we agree that the OEGW should be allowed to develop its own systems and approaches, the ability for people to make representations to it on breaches of environmental law should be clearly enshrined in legislation given its public importance."*¹²⁷

210. Dywedodd RSPB Cymru ei bod hi'n hanfodol bod y Bil yn adfer yr hawliau a oedd gan ddinasyddion Cymru cyn gadael yr UE.

211. Tynnodd sefydliadau amgylcheddol a Healthy Air Cymru sylw at adrannau 32 a 34 o Ddeddf y DU fel enghraifft o ddull yn seiliedig ar hawliau, gan alw ar i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth debyg.

212. Rhybuddiodd Rhiannon Hardiman (swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol) yn erbyn gwneud y Bil yn rhy ragnodol mewn perthynas â rheoli sylwadau. Gan dynnu ar brofiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, awgrymodd y bydd angen i SLIAC, fel corff bach ag adnoddau cyfyngedig, ganolbwyntio ar feysydd pryder sy'n ymwneud â materion systemig (yn hytrach nag ymchwilio i bob sylw unigol). Felly, byddai'n bwysig rheoli disgwyliadau'r cyhoedd yn ofalus.

Dealltwriaeth y cyhoedd o'r gair Saesneg "representations"

213. Ystyriodd sawl cyfrannwr nad oedd y term Saesneg "representations" yn cael ei ddeall yn eang gan y cyhoedd, ac y gallai hynny greu dryswch ac atal pobl rhag ymgysylltu â SLIAC.

214. Pwysleisiodd Mary Lewis pa mor bwysig ydyw bod y cyhoedd yn ymwybodol o'u hawl i wneud sylwadau, a bod y weithdrefn yn hygyrch. Gwnaeth Rhiannon Hardiman bwyntiau tebyg.

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, WWF Cymru

¹²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghair Werdd

Adran 14 – Hysbysiadau gwybodaeth

215. Mae adran 14 yn rhoi pŵer i SLIAC gyflwyno hysbysiadau gwybodaeth i awdurdodau cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt roi gwybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ganddi at ddibenion arfer ei swyddogaethau. Mae gan awdurdodau cyhoeddus o leiaf ddau fis i roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

216. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar adran 14.

Adran 15 – Ymchwiliadau

217. Mae adran 15 yn rhoi pŵer i SLIAC ymchwilio (ar ei chymhelliad ei hun, neu mewn ymateb i unrhyw sylwadau a gyflwynir iddi gan unrhyw berson) i unrhyw fater sy'n ymwneud ag:

- a yw awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol (gan gynnwys unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio cyn i'r Bil ddod yn gyfraith);
- sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso; neu
- effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

218. Roedd cefnogaeth eang i bŵer SLIAC i ymchwilio.

219. Nododd NFU Cymru fod adran 15 yn galluogi SLIAC i ymchwilio i unrhyw fater sy'n ymwneud ag a yw awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg, â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol (ymhlith pethau eraill). Mewn cymhariaeth, dim ond os byddai methiant i gydymffurfio yn cael ei ystyried yn fethiant difrifol y gall yr OEP ymchwilio. Dywedodd NFU Cymru fod y trothwy is hwn yn golygu, o bosibl, y gallai SLIAC gael llwyth achosion uwch nag y gellid ei ddisgwyl fel arall gan fod mân achosion posibl o fethu â chydymffurfio yn dod o fewn cwmpas SLIAC.¹²⁸

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

220. Dywedodd Dŵr Cymru nad yw'r trothwy ar gyfer methiant yn glir. Ychwanegodd:

*"How would the OEGW deal with distinguishing between a breach of law and a disagreement over interpretation or policy position/prioritisation? Such ambiguities in the legislation could lead to inconsistent interpretation and increased litigation risk."*¹²⁹

221. Nododd NFU Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru y byddai SLIAC yn gallu ymchwilio i faterion cydymffurfio hanesyddol honedig. Nodwyd y dylai'r corff ganolbwyntio ar faterion cydymffurfio diweddar a chyfredol, yn enwedig o ystyried yr adnoddau cyfyngedig y byddai ganddi. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru na fyddai canolbwyntio ar faterion hanesyddol yn ddefnydd priodol o adnoddau na chyllid cyhoeddus.¹³⁰ Mynegodd y Cynghrair Cefn Gwlad farn debyg.

Adrannau 16 i 19 – Hysbysiadau cydymffurfio

222. Mae adran 16 yn rhoi pŵer i SLIAC gyflwyno "hysbysiad cydymffurfio" i awdurdod cyhoeddus os yw'n ystyried bod yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, neu wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth.

223. Mae adran 17 yn rhoi pŵer i SLIAC gyflwyno "hysbysiad cydymffurfio brys" i awdurdod cyhoeddus pan mae'n ystyried bod angen cymryd camau ar frys er mwyn atal neu liniaru risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl.

224. Mae adran 18 yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC adolygu hysbysiad cydymffurfio os yw awdurdod cyhoeddus yn gwneud cais iddi wneud hynny yn ysgrifenedig.

225. Mae adran 19 yn rhoi pŵer i SLIAC wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gymryd camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chymryd y camau penodedig o fewn y cyfnod penodedig. Caiff y Llys orchymyn i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y camau penodedig, cymryd y camau priodol fel

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru

y'u newidiwyd gan y Llys, neu gall dynnu unrhyw ran o hysbysiad y mae'n ystyried ei bod yn afresymol yn ôl yn y pen draw.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Hysbysiadau cydymffurfio

226. Roedd cefnogaeth eang o blaid rhoi pŵer i SLIAC gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio.

227. Wrth gymharu'r dull hwn â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf y DU, tynnodd NFU Cymru sylw at y ffaith bod y trothwy i SLIAC gyflwyno hysbysiad cydymffurfio yn is na'r trothwy i'r OEP gyflwyno hysbysiad penderfyniad (sy'n debyg ar y cyfan i hysbysiad cydymffurfio). Ymhellach, mae'r isafswm cyfnod a roddir i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau mewn ymateb i hysbysiad cydymffurfio (h.y. dim llai na 30 diwrnod) yn fyrrach na'r cyfnod a roddir i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â hysbysiad penderfyniad.

Adolygu hysbysiadau cydymffurfio

Pwyllgorau adolygu

228. Mae paragraff 10(1) o Atodlen 1 yn darparu bod yn rhaid i SLIAC sefydlu pwyllgor ("y pwyllgor adolygu") i gynnal adolygiadau o hysbysiadau cydymffurfio. Caiff y pwyllgor adolygu gynnwys aelod o SLIAC (neu ei staff) a rhaid iddo gynnwys o leiaf ddau aelod cyfetholedig o restr o unigolion a lunnir gan Weinidogion Cymru.

229. Caiff y pwyllgor adolygu gadarnhau, amrywio neu dynnu'r hysbysiad cydymffurfio yn ôl. Mae penderfyniad y pwyllgor adolygu yn derfynol (adran 18).

230. Roedd pryder eang y byddai'r darpariaethau adolygu yn tanseilio awdurdod ac annibyniaeth SLIAC. Dywedodd yr IEPAW fod ganddo amheuan difrifol ynglŷn â'r darpariaethau:

*"We think that the establishment of [a] mandatory review committee, especially one with external representatives would have serious negative impacts on the ability of the OEGW to hold public authorities to account."*¹³¹

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, IEPAW

231. Dywedodd y Fonesig Glenys Stacey ei bod yn arbennig o bryderus am y darpariaethau adolygu. Dywedodd:

*"It seems to me very important that a body like this should be independent in all respects and should be seen to be so. It should be perceived every day in every way to be independent. So, I do worry about that. I also recognise from experience that these decisions are extremely complex. Our board spends many hours, very well advised, in making each of these decisions, and what is being proposed here is that a different review committee, differently constituted to the body making the decision, then reviews it. I'm concerned about the review provision itself, but I'd be particularly concerned if the appointments for that committee were not anything other than absolutely above board and demonstrated both independence and wisdom."*¹³²

232. Cafodd safbwyntiau llawer o gyfranwyr eu crynhoi gan y Gynghrair Werdd, a ddywedodd:

"Paragraph 10(3)...would effectively outsource important decisions on compliance with environmental law on which the OEGW will have legal authority vested in it. Furthermore, the panel would comprise individuals appointed from a list maintained by the Welsh Government, which could have a real and perceived impact on the independence of the OEGW, especially in relation to compliance notices relating to the Welsh Government."

233. Galwodd llawer o gyfranwyr ar i adolygiadau gael eu cynnal yn fewnol gan SLIAC, yn amodol ar rai mesurau diogelu. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

"The review process must be redrafted to be undertaken by an internal committee made up entirely of OEGW members or members of staff; reflecting the processes used by other enforcement bodies to review their decisions at a preliminary stage. For example, the OEGW could conduct reviews with individuals not involved in the initial decision, or by co-opting an

¹³² Cofnod y Trafodion, paragraff 346, 9 Gorffennaf 2025

*independent member to observe the process could meet calls for objectivity while maintaining the OEGW's authority.*¹³³

234. Tynnodd y Gynghrair Werdd sylw at gyrff cyhoeddus eraill sy'n gweithredu prosesau adolygu ac apelio mewnol, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, a'r Comisiynydd Gamblo.

235. Esboniodd Mark Roberts fod Deddf yr Alban yn darparu i awdurdodau cyhoeddus apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio i'r siryf.

236. Awgrymodd yr Athro Colin Reid y byddai'n fwy priodol i adolygiadau gael eu cynnal gan gorff annibynnol, fel llys neu dribiwnlys. Fodd bynnag, cydnabu y gall fod rhinweddau yn y dull a ddewiswyd (yn enwedig mewn perthynas â chyflymder a gwybodaeth arbenigol bresennol o'r materion).¹³⁴

Amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiadau

237. Mynegodd sawl cyfrannwr bryder y gallai'r broses adolygu arwain at oedi cyn i faterion cydymffurfio gael eu datrys.

238. Nododd Dr Victoria Jenkins nad oes unrhyw gyfnodau wedi'u cynnwys yn y Bil ar gyfer cynnal yr adolygiad ac adrodd ar ei ganfyddiadau hyd yn oed mewn achosion o hysbysiad cydymffurfio brys.¹³⁵ Ychwanegodd ei bod yn ymddangos yn arbennig o bwysig bod yna amserlenni clir ar gyfer achosion brys.¹³⁶

239. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am eglurhad ar sut y byddai'r broses adolygu yn gweithio ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio brys, y mae'n rhaid eu datrys yn gyflymach.¹³⁷

240. Awgrymodd RSPB Cymru fod hawl i adolygu hysbysiadau cydymffurfio brys yn wrthreddfol ac yn risg uchel, o ystyried yr amgylchiadau y gellir cyflwyno hysbysiadau o'r fath oddi tanynt.¹³⁸ Dywedodd:

"There appears to be a significant undermining of the reasons for and therefore purpose of an urgent compliance notice, by

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Colin Reid

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

¹³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

*also enabling internal review of them with no specified timeframe attached.*¹³⁹

241. Awgrymodd RSPB Cymru y dylid ystyried dileu'r hawl i adolygu ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio brys.

Adolygiad yr Uchel Lys

242. Galwodd sawl cyfrannwr am eglurhad pellach ar ddarpariaethau adolygu'r Uchel Lys, gan gynnwys y broses dan sylw a'r rhwymedïau y gellir eu dyfarnu.

243. Dywedodd Ruth Chambers fod adolygiad yr Uchel Lys yn wahanol iawn i'r llwybr i ddefnyddio llys yn Neddfau'r DU a'r Alban a'i fod yn teimlo fel ffordd o fynd i'r afael â phroblem heb fod y broblem yn cael ei datrys.¹⁴⁰ Galwodd am eglurhad ynghylch a allai adolygiad yr Uchel Lys arwain at ddyfarnu iawndal.

244. Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru pa mor bwysig yw dull atal digon cryf, a galwodd am eglurhad ynghylch a yw'r rhwymedïau y gellir eu dyfarnu o dan adolygiad yr Uchel Lys yr un fath â'r rhai o dan adolygiad barnwrol.¹⁴¹

245. Wrth sôn am y darpariaethau ar gyfer adolygiad yr Uchel Lys, dywedodd Dr Jenkins y bydd hyn yn sicrhau bod posibilrwydd y caiff camau eu cymryd gerbron y llys fel dewis olaf.¹⁴² Nododd y byddai amrywiaeth o sancsiynau am ddirmyg llys ar gael pe bai awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â gorchymyn llys, a chroesawodd hynny.

Dirwyon

246. Nid yw SLIAC yn gwneud darpariaeth i SLIAC roi dirwyon. Yn hytrach, caiff SLIAC wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gymryd camau i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio (o dan adran 19).

247. Roedd barn gymysg ymhlith cyfranwyr ynghylch y pŵer i roi dirwy fel offeryn gorfodi.

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 17 Gorffennaf 2025

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

248. Dywedodd Ruth Chambers fod y gallu i roi dirwyon yn rhan hanfodol ac effeithiol iawn o system yr UE.¹⁴³ Fodd bynnag, nododd:

"[The power to issue fines] has been debated in every single bit of governance legislation and every governance body that's been set up...I think there is a general view that it has been difficult to replicate in a domestic environment where you'd have one public authority potentially fining another public authority, and, generally, public authorities, as we all know, don't have enough money, so how would that work?"¹⁴⁴

249. Gwnaed pwyntiau tebyg gan yr Athro Bob Lee. Gan ddefnyddio Cyfoeth Naturiol Cymru fel enghraifft, dywedodd ei fod dan ddigon o bwysau fel y mae ac nid oedd yn gallu gweld unrhyw fudd o gymryd adnoddau mawr eu hangen oddi wrth y corff sy'n ceisio diogelu'r amgylchedd.¹⁴⁵

250. Roedd Mary Lewis a'r Fonesig Glenys Stacey o'r farn y byddai gweithredu cyfundrefn ddirwyo yn her i SLIAC. Dywedodd y Fonesig Glenys Stacey:

"A body of the size that you are proposing would really struggle to manage the prospect of fines—setting a fine, agreeing what it should be, bringing it about. It's enormous, and for what? Just because you then give money to Government. It doesn't really make an awful lot of common sense."

251. Dywedodd Alex Philips fod dirwyon yn broblem yng nghyd-destun Cymru gan fod refeniw o ddirwyon a roddir gan y llysoedd ar hyn o bryd yn cael ei ddychwelyd i Drysorlys EM, sy'n golygu bod arian yn gadael Cymru.¹⁴⁶ Mynegodd yr Athro Lynda Warren farn debyg.

252. Dywedodd y Fonesig Glenys Stacey fod gallu'r OEP i geisio adolygiad barnwrol yn well na system o ddirwyon, gan ychwanegu ei fod yn bwerus iawn.¹⁴⁷ Mynegodd Mark Roberts farn debyg.

253. Cyfeiriodd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin at ddirwyon fel brathiad mwyaf system yr UE.¹⁴⁸ Nododd y naill a'r llall bod y pŵer i roi dirwyon yn

¹⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 17 Gorffennaf 2025

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 17 Gorffennaf 2025

¹⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 9 Gorffennaf 2025

¹⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 96, 17 Gorffennaf 2025

¹⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff

¹⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

gweithredu fel dull atal ac y dylai gael ei ystyried o ddifrif. Mynegodd y Gynghrair Cefn Gwlad farn debyg. Dywedodd:

“We recognise that EU fines were issued against states and not public bodies within states. As such, fines from the OEGW may need to be limited to a form of fixed penalties, but this penalty should be available.”¹⁴⁹

254. Rhybuddiodd FUW y gallai ffermwyr gwestiynu pam y gallan nhw fod yn destun dirwyon a chosbau tra nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddarostyngedig iddynt.¹⁵⁰

Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion sifil

255. Cododd rhai cyfranwyr bryder nad yw'r Bil yn darparu pwerau penodol i SLIAC wneud cais am adolygiad barnwrol ac ymyrryd mewn achosion sifil, gan dynnu sylw at y ffaith bod y pwerau hyn ar gael i'r OEP ac ESS. Galwyd ar i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â hyn.

256. Dywedodd Ruth Chambers wrth y Pwyllgor fod yr OEP wedi defnyddio ei phŵer i ymyrryd mewn achosion sifil mewn ffordd bwyllog ac effeithiol iawn.¹⁵¹ Ychwanegodd, pe na bai'n hawdd i SLIAC wneud hynny, oherwydd nad oes pŵer penodol, yna byddent yn pryderu.¹⁵²

257. Roedd yr Athro Lynda Warren a Ruth Chambers o'r farn y gallai diffyg pwerau penodol wanhau sefyllfa SLIAC gerbron y llys. Dywedodd Ruth Chambers wrth y Pwyllgor:

“Legal standing before the courts is often a contested matter. And I don't think it would be beyond the realms of possibility for a court, in the future, if the Bill stays as it is, to look at the OEGW and question its locus. If it looked at the other legislation in the UK, and it saw that both the OEP and Environmental Standards Scotland have an explicit duty, it would be right to ask itself, ‘Why was that explicit duty not given to OEGW?’ It

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Cefn Gwlad

¹⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru

¹⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 17 Gorffennaf 2025

¹⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 17 Gorffennaf 2025

doesn't mean that it would definitely be a barrier to OEGW accessing the court, but it could present some difficulties.”¹⁵³

Adrannau 20 i 22 – Adroddiadau gwella a chynlluniau gwella

258. Mae adran 20 yn rhoi pŵer i SLIAC gyhoeddi “adroddiad gwella” os yw’n ystyried bod awdurdod cyhoeddus yn methu neu wedi methu ar unrhyw adeg â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, neu wedi methu â gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Caiff hefyd gyhoeddi adroddiad gwella os yw’n ystyried bod Gweinidogion Cymru neu awdurdod cyhoeddus arall wedi methu â gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol.

259. Mae adran 21 yn nodi’r manylion penodol sydd eu hangen mewn adroddiad gwella.

260. Mae adran 22 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i adroddiad gwella drwy gyhoeddi “cynllun gwella” o fewn chwe mis mewn amgylchiadau arferol, neu o fewn naw mis os bydd angen ymgynghoriad.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

261. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar adrannau 20 i 22.

Adrannau 23 i 27 – Cydweithredu, datgelu gwybodaeth a chyfrinachedd

262. Mae adran 23 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu â SLIAC. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth rhesymol i SLIAC mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau, a gwneud ymdrechion rhesymol i ddatrys methiannau honedig a nodwyd gan SLIAC yn gyflym.

263. Mae adran 24 yn darparu, ymhlith pethau eraill, nad yw’n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth i SLIAC y byddai ganddo hawl i wrthod ei darparu mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol neu o dan gyfreithiau diogelu data.

264. Mae adran 25 yn gosod rhwymedigaethau cyfrinachedd ar SLIAC mewn cysylltiad â gwybodaeth a gohebiaeth a ddatgelir iddi, neu a gynhyrchir ganddi, yn amodol ar rai eithriadau.

¹⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 17 Gorffennaf 2025

265. Mae adran 26 yn gosod rhwymedigaethau cyfrinachedd ar awdurdodau cyhoeddus mewn cysylltiad â gohebiaeth sy'n ymwneud â hysbysiadau gwybodaeth, hysbysiadau cydymffurfio neu adroddiadau gwella, yn amodol ar rai eithriadau.

266. Mae adran 27 yn nodi bod gwybodaeth benodol a ddelir gan SLIAC neu awdurdod cyhoeddus o dan y Bil yn "wybodaeth amgylcheddol" at ddibenion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Pwysigrwydd gwybodaeth amserol

267. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r dyletswyddau cydweithredu yn adran 23, cwestiynodd sawl cyfrannwr a oedd y rhain yn ddigonol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i SLIAC mewn modd amserol.

268. Dywedodd Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin, er gwaethaf dyletswyddau tebyg yn Neddfau'r DU a'r Alban, fod ESS a'r OEP wedi nodi problemau o ran cael gwybodaeth.¹⁵⁴ Gwnaethant alw am amserlen gaeth i awdurdodau cyhoeddus ymateb i geisiadau am wybodaeth er mwyn osgoi materion tebyg i SLIAC.¹⁵⁵ Cododd Mary Lewis bwynt tebyg.

269. Dywedodd yr OEP wrth y Pwyllgor, er bod y darpariaethau yn Neddf y DU yn bwysig wrth gefnogi'r corff i gael gwybodaeth a sicrhau cydweithrediad, nad yw hyn wedi bod yn hawdd ei gyflawni bob amser yn ymarferol.¹⁵⁶ Ychwanegodd fod y risg y gallai diffyg cydweithrediad amserol ac effeithiol rwystro gallu'r OEP i gyflawni ei dyletswyddau statudol wedi bod yn risg strategol am gyfnodau hir.¹⁵⁷

270. Awgrymodd CLILC fod angen eglurder ar y camau y byddai angen i awdurdodau cyhoeddus eu cymryd i gydymffurfio â'r dyletswyddau cydweithredu yn adran 23(2), a sut y byddai cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro. Roedd Jean-Dulong o'r farn y gellid cyflawni hyn trwy ganllawiau gan SLIAC.

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

¹⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

Cydweithredu rhwng SLIAC a'i chymheiriaid

271. Pwysleisiodd llawer o gyfranwyr pa mor bwysig yw'r perthnasoedd gwaith adeiladol ac effeithiol rhwng cyrff llywodraethiant amgylcheddol ledled y DU. Cododd sefydliadau amgylcheddol, Healthy Air Cymru ac academyddion bryder nad yw'r darpariaethau cydweithredu a gwybodaeth yn y Bil yn darparu ar gyfer hyn yn ddigonol. Roedd galwadau ar i'r Bil gynnwys darpariaeth tebyg i'r un yn Neddfau'r DU a'r Alban i fynd i'r afael â hyn.¹⁵⁸

272. Pwysleisiodd yr OEP ac ESS bwysigrwydd y darpariaethau yn Neddfau'r DU a'r Alban. Dywedodd Natalie Prosser:

*"having a really clear provision in both our legislation and ESS's legislation that allows us to share sometimes sensitive information between us, allows us to be co-ordinated and consistent within the UK. I think the expectation of co-operation was rightly set by all of our respective Governments, and the practice of it, I think, has been to our mutual and collective benefit, and to the benefit of the environment."*¹⁵⁹

273. Yn ôl yr OEP, nid yw'n glir sut mae trefniadau tebyg yn cael eu darparu ar gyfer SLIAC ac felly a yw'r Bil yn bwriadu galluogi'r cydweithredu hwn â'r OEP a sut mae'n bwriadu gwneud hynny.¹⁶⁰

274. Dywedodd Natalie Prosser y byddai'n werthfawr iawn pe bai darpariaethau cydweithredu a rhannu gwybodaeth tebyg yn cael eu cynnwys yn y Bil.¹⁶¹ Cafodd hyn ei adleisio gan Mark Roberts, a ddywedodd y byddai'n gryfder gwirioneddol i system llywodraethiant amgylcheddol y DU yn ei chyfanrwydd.¹⁶²

Gofynion cyfrinachedd

275. Nododd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y gall y wybodaeth a restrir o dan adrannau 25(1) a 26(1) gael ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan Ddeddf

¹⁵⁸ Roedd adran 27 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r OEP ymgynghori â chorff amgylcheddol datganoledig (a fyddai'n cynnwys SLIAC) os yw'n ystyried y gallai swyddogaeth benodol y mae'n ei harfer fod yn berthnasol i swyddogaeth y mae'r corff hwnnw yn ei harfer. Mae adran 23 o Ddeddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 yn gwneud darpariaeth gyfatebol mewn perthynas ag ESS.

¹⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 279, 9 Gorffennaf 2025

¹⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

¹⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 281, 9 Gorffennaf 2025

¹⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 283, 9 Gorffennaf 2025

Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2024 (Rheoliadau 2004) o dan rai amgylchiadau. Cwestiynodd a oedd modd cyfiawnhau'r lefel hon o amddiffyniad uwch rhag datgelu mewn perthynas â hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio.

276. Pwysleisiodd WildFish bwysigrwydd cynnal yr hawl i'r cyhoedd gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol o dan Rheoliadau 2004. Dywedodd:

*"if information [listed under sections 25(1) and 26(1)] would otherwise have been published pursuant to the 2004 Regulations, it must continue to be published. The mere existence of an OEGW investigation should not reduce access to environmental information."*¹⁶³

Adran 28 – Cynlluniau trosglwyddo staff

277. Mae adran 28 yn cyflwyno Atodlen 3 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i SLIAC.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

278. Ni chafodd y Pwyllgor unrhyw dystiolaeth gan gyfranwyr ar adran 28.

Adrannau 29 i 32 – Ystyr termau allweddol

279. Mae adran 29 yn diffinio "cyfraith amgylcheddol" at ddibenion Rhan 2. Fe'i diffinnir drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddatganoledig, sy'n golygu, yn ei hanfod, ddeddfwriaeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd sydd wedi cael ei gwneud, neu a allai gael ei gwneud, gan y Senedd.

280. Mae adran 30 yn diffinio "awdurdod cyhoeddus" at ddibenion Rhan 2. Fe'i diffinnir fel person (ac eithrio SLIAC) sy'n awdurdod Cymreig datganoledig (yn unol ag adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) neu a restrir ym mharagraff 9(2) neu (6) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno.

281. Mae adran 31 yn egluro bod cyfeiriadau at "effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol" yn Rhan 2 yn gyfeiriadau at ei heffeithiolrwydd o ran cyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd.

¹⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, WildFish

282. Mae adran 32 yn egluro bod cyfeiriadau at “[f]ethu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol” yn Rhan 2 yn gyfeiriadau at yr awdurdod cyhoeddus perthnasol yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy’n groes i gyfraith amgylcheddol, neu’n methu ag arfer ei swyddogaethau pan fo’r methiant yn groes i gyfraith amgylcheddol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Ystyr “cyfraith amgylcheddol”

283. Mae ystyr “cyfraith amgylcheddol” yn pennu cwmpas cylch gwaith SLIAC. Fe’i diffinnir drwy gyfeirio at ddarpariaeth ddatganoledig, ac nid yw’n ymwneud â “t[h]rethiant, cyllid neu gyllidebau”.

284. Cododd RSPB Cymru a’r Athro Colin Reid bryder y gallai’r diffiniad o “gyfraith amgylcheddol” fod yn agored i’w ddehongli. Dywedodd RSPB Cymru:

“We strongly recommend it is made clear that the OEGW is able to review and scrutinise all legal and policy areas (including interpretative guidance) which may impact the environment, including for example economic, transport, social and health policies as well as consideration of international law particularly those conventions, protocols and agreements which lead to our domestic environmental protection legislation.”¹⁶⁴

285. Mae adran 29(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu a yw darpariaeth ddatganoledig o fewn y diffiniad o “gyfraith amgylcheddol” ai peidio. Cyfeiriodd Dr Victoria Jenkins at y pŵer hwn fel un eang, gan ddweud y byddai’n galluogi Gweinidogion Cymru i eithrio elfennau pellach o’r gyfraith o’r diffiniad hwn.¹⁶⁵ Mynegodd WildFish farn debyg, gan alw ar i’r pŵer gael ei ddileu.

286. Cyfeiriodd Ruth Chambers at y pŵer fel un synhwyrol, gan nodi nad yw cyfraith amgylcheddol yn gysyniad statig a bod angen iddo newid.¹⁶⁶ Fodd bynnag, tynnodd sylw at y ffaith y gallai newidiadau i ystyr “cyfraith amgylcheddol” gael effaith sylweddol ar gwmpas cylch gwaith SLIAC. Felly, galwodd ar i

¹⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

¹⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

¹⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 17 Gorffennaf 2025

Weinidogion Cymru orfod ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 29(4), yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf y DU.

Ystyr “awdurdod cyhoeddus”

287. Galwodd y Gynghrair Werdd ar i restr ddiffiniol o'r awdurdodau cyhoeddus a fydd yn destun goruchwyliaeth gan SLIAC gael ei chyhoeddi er mwyn cynorthwyo gyda thryloywder a dealltwriaeth y cyhoedd.¹⁶⁷

288. Cododd sefydliadau amgylcheddol a Cyfoeth Naturiol Cymru bryder bod ystyr awdurdod cyhoeddus yn arwain at fwlch goruchwyllo. Mae'r memorandwm esboniadol yn rhoi esboniad defnyddiol o'r mater hwn:

“Nod y diffiniad o awdurdodau cyhoeddus yw cipio awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas/cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, gan gynnwys cwmnïau preifat sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus (megis cwmnïau dŵr)... Nid yw'r diffiniad yn ymestyn ymhellach o ran ei gwmpas. Gan na fydd y Bil yn cynnwys pwerau goruchwyllo i SLIAC mewn perthynas â rhai cyrff neilltuedig sy'n gweithredu yng Nghymru (megis y Weinyddiaeth Amddiffyn) ac nad oes gan OEP bwerau goruchwyllo mewn perthynas â chyrff o'r fath, bydd “bwlch” goruchwyllo.”¹⁶⁸

289. Galwodd y Gynghrair Werdd ar i Lywodraeth Cymru egluro pa awdurdodau cyhoeddus fyddai'n dod o fewn y bwlch goruchwyllo hwn. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru y gallai'r bwlch hwn arwain at awdurdodau cyhoeddus yn gweithio i safonau gwahanol, a sefyllfa lle na fyddai rhai yn cael eu dwyn i gyfrif am fethiant i gynnal cyfraith amgylcheddol.¹⁶⁹ Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, y Gynghrair Werdd a RSPB Cymru ar i ystyriaeth frys gael ei rhoi i sut y byddai'r mater hwn yn cael ei datrys.

290. Dywedodd Mary Lewis (Cyfoeth Naturiol Cymru) y byddai'n hanfodol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn ymchwilio i unrhyw achosion a amheuir o ddiffyg cydymffurfio gan awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o fewn y bwlch goruchwyllo.¹⁷⁰

¹⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Werdd

¹⁶⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.262-3.263

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 210, 17 Gorffennaf 2025

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

Adrannau 8 a 9

SLIAC sy'n gwbl weithredol

291. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor, yn seiliedig ar gysail blaenorol a dealltwriaeth o'r gwaith dan sylw, y bydd SLIAC yn gwbl weithredol o fewn 18 i 24 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol.¹⁷¹ Ychwanegodd fod 18 mis yn optimistaidd, a'i bod yn cymryd mwy fel 24 mis fel arfer i sefydlu sefydliad newydd fel hwn.¹⁷²

292. Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cabinet am y potensial y gallai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol oedi'r broses o SLIAC yn dod yn gwbl weithredol, dywedodd nad oedd o'r farn y byddai unrhyw awydd o gwbl i oedi'r broses honno. Ychwanegodd:

*"the formal part of establishing the OEGW in law will be within this Senedd term. It's up to us then to make sure that we keep on driving forward...making sure it gets up and running on time. But realistically, the work we're doing behind the scenes already is being done in order to make sure it can be up and running as soon as possible...And clearly, you and I and others will have to keep on pushing on this, but it will be established."*¹⁷³

293. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet fanylion am y camau y mae angen eu cymryd tuag at SLIAC sy'n gwbl weithredol, gan gynnwys penodi'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd (nododd y gallai hynny gymryd hyd at 12 mis), datblygu strategaeth SLIAC ac ymgynghori arni, a recriwtio staff.

294. Wrth sôn am yr angen am ddarpariaeth codiad haul ar gyfer Rhan 2, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

"There is a high degree of uncertainty...around the process and procedures to establish a body like the OEGW. So, if we hold

¹⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 26 Mehefin 2025

¹⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 26 Mehefin 2025

¹⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 26 Mehefin 2025

*ourselves hostage to a specific timescale, it's a very high risk approach".*¹⁷⁴

295. Awgrymodd ei fod yn agored i ystyried darpariaeth codiad haul ond rhybuddiodd yn erbyn symud yn rhy gyflym a rhoi'r corff mewn sefyllfa lle gallai fethu.¹⁷⁵

296. Roedd yr Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod pwysigrwydd trosglwyddiad llyfn o'r IEPAW i SLIAC. Ychwanegodd:

"The details of this transition will, of course, be subject to independent decisions taken by the OEGW, however, we have provided several mechanisms to aid with this, including a 'modular' approach for functions to be commenced by order earlier or later, depending on readiness and need".

Diben cyffredinol SLIAC

297. Wrth wneud sylwadau ar ddiben cyffredinol SLIAC, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"environmental law impacts upon several of the well-being goals themselves. So, we directly acknowledge this within the wider purpose of the OEGW, given the very unique and powerful role that it's going to play in safeguarding the environment...what the Bill does is it recognises and strengthens these connections to this unique policy framework in Wales, one that we should be really proud of, and it gives them particular emphasis."*¹⁷⁶

298. Ychwanegodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet:

"the focus of the environmental objective is the attainment of a high level of environmental protection, and an improvement of the environment. So, that's the focus, that's the objective, and the purpose of the OEGW is to contribute to achieving that."

¹⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 18 Medi 2025

¹⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 18 Medi 2025

¹⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 18 Medi 2025

*Whilst we have referred to the FG Act, that's one aspect of the details about the environmental objective in section 1.*¹⁷⁷

Annibyniaeth

299. Wrth sôn am y graddau y mae'r Bil yn diffinio ac yn amddiffyn annibyniaeth SLIAC, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"we absolutely recognise, we're crystal clear, that the independence of the OEGW is crucial to its operation. That's why the Bill includes very specific areas that will work to strengthen its independence".*¹⁷⁸

300. Eglurodd na fydd yn rhaid i SLIAC roi cyngor i'r llywodraeth, yn wahanol i'r OEP. Ymhellach, ni fydd gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl yn natblygiad strategaeth SLIAC. Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, mae hyn yn fwy annibynnol na'r dull sydd ganddynt yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, lle mae'n rhaid i'r OEP yno roi sylw i ganllawiau a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.¹⁷⁹

301. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi dysgu o'r dull a fabwysiadwyd yn Neddfau'r DU a'r Alban, yn hytrach na'i ailadrodd, er mwyn cryfhau annibyniaeth SLIAC. Ychwanegodd eu bod nhw o'r farn eu bod nhw wedi mynd y tu hwnt i'r mesurau a nodir mewn deddfwriaeth arall i sicrhau annibyniaeth.¹⁸⁰

Darpariaeth benodol ar annibyniaeth

302. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet na fyddai cynnwys darpariaeth benodol i nodi annibyniaeth SLIAC oddi wrth Lywodraeth Cymru yn effeithio'n sylweddol ar y mesurau ymarferol, diriaethol a roddwyd yn y [Bil], sy'n dangos annibyniaeth SLIAC ac yn sicrhau ei bod yn effeithiol.¹⁸¹ Dywedodd ei fod yn cael hynny weithiau mewn deddfwriaeth lle bydd pobl eisiau gweld rhywbeth areithiol sy'n dweud, 'A gyda llaw, dim ond i wneud yn glir'. Fodd bynnag, nododd nad oedd yn siŵr a fyddai'n ychwanegu at yr hyn sydd yno.¹⁸²

¹⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 265, 18 Medi 2025

¹⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 26 Mehefin 2025

¹⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 89, 26 Mehefin 2025

¹⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 26 Mehefin 2025

¹⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 26 Mehefin 2025

¹⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 95, 26 Mehefin 2025

303. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor wedyn nad oedden nhw'n gweld unrhyw anfanteision [i gynnwys darpariaeth benodol], ond nid oeddent yn teimlo bod ei hangen.¹⁸³ Dywedodd ei fod yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater hwn.

Y broses benodi

304. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r ymagwedd a gymerwyd yn y Bil at benodi cadeirydd a dirprwy gadeirydd SLIAC yn anarferol.¹⁸⁴

305. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd wedi ystyried darparu rôl fwy amlwg i bwyllgor perthnasol y Senedd/y Senedd yn y broses benodi. Dywedodd:

*"we've weighted the appointment process to give more prominence to the independent panel members, who will have that necessary expertise then to inform advice that will come to Ministers. The relevant Senedd committee will need to be consulted prior to the appointment, and those are powerful hearings in front of a committee...we just don't think it's necessary to involve the Senedd committee directly in the appointment process."*¹⁸⁵

Digonolrwydd cyllid

306. Cwestiynodd yr Ysgrifennydd Cabinet rinweddau cynnwys darpariaeth digonolrwydd cyllid, yn enwedig a fyddai'n cyflawni'r canlyniad bwriadedig. Dywedodd:

"Who determines what sufficiency of funding is? Is it you, the committee? Is it the Minister? Is it the body? Is it the organisation? So, actually, I understand what people are saying about that, that a body can only be independent if it has sufficient funding. We agree with that...But it's whether there is a belief that a phrase in legislation that calls for 'sufficient

¹⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 18 Medi 2025

¹⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 26 Mehefin 2025

¹⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 18 Medi 2025

*funding' is sufficient to do what the stakeholders are trying to achieve with that."*¹⁸⁶

307. Awgrymodd yr Ysgrifennydd Cabinet wedyn ei fod yn agored i ystyried cynnwys darpariaeth o'r fath, ond ailadroddodd yr anawsterau a oedd yn gysylltiedig â diffinio'r term.

308. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod wedi diystyru Cronfa Gyfunol Cymru (y Gronfa) fel mecanwaith cyllido ar gyfer SLIAC oherwydd gallai fod yn anfantais sylweddol i'r corff, yn enwedig yn ei flynyddoedd cynnar.¹⁸⁷ Esboniodd y byddai angen dychwelyd unrhyw danwariant i'r Gronfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn hytrach na chael ei gario ymlaen i'r gyllideb adrannol.

Adran 10

Cynnwys y strategaeth

309. Wrth wneud sylwadau ar yr hyn sy'n ofynnol i'w gynnwys yn y strategaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd o'r farn bod paragraff 1 o Atodlen 2 yn rhy ragnodol. Ychwanegodd:

*"[It] simply outlines those areas that the strategy could cover...We think the details set out for the strategy in Schedule 2 are well balanced. They only contain matters that the OEGW must communicate through the strategy. But the substance of those matters is at the discretion of the OEGW, if not otherwise prescribed in the Bill itself."*¹⁸⁸

310. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i drafod eu pryderon am y gofynion i lywio ystyriaeth ymhellach.

Osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd

311. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn disgwyl i SLIAC ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'i rôl a'i chyfrifoldebau, gan gynnwys sut mae'r rhain yn wahanol i reoleiddwyr rheng flaen.

312. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai gorgyffwrdd cyfyngedig rhwng swyddogaethau SLIAC a swyddogaethau Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, gan

¹⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 80, 26 Mehefin 2025

¹⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 155, 18 Medi 2025

¹⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 18 Medi 2025

ddadlau bod y cyrff wedi'u sefydlu o dan fframweithiau deddfwriaethol gwahanol, a bod ganddynt ddibenion sylfaenol gwahanol.¹⁸⁹ Dywedodd ei fod yn hyderus y gall unrhyw orgyffwrdd gael ei reoli trwy drefniadau gweinyddol rhwng y ddau sefydliad ond, fel gyda swyddogaethau eraill, SLIAC fydd yn penderfynu ar hynny fel y gwêl yn briodol.¹⁹⁰

313. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gallai SLIAC ffurfioli ei berthynas â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan ychwanegu:

“penderfyniad annibynnol i SLIAC fydd hyn yn y pen draw. Yn fy marn i, nid yw'n rhywbeth y dylid ei orfodi trwy statud o gofio ein bod yn ceisio cadw annibyniaeth SLIAC a rhoi cymaint o ddisgresiwn â phosibl iddi, fel sy'n briodol.”¹⁹¹

314. Esboniodd mai awdurdod sydd wedi'i gadw'n ôl yw Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, felly, byddai cynnwys darpariaeth yn y Bil i'w gwneud yn ofynnol i Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â SLIAC yn gofyn am gydsyniad Llywodraeth y DU. Ychwanegodd y gallai SLIAC ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU gan ddefnyddio ei phwerau cyffredinol o dan baragraff 23 o Atodlen 1.

Gofynion gweithdrefnol

315. Wrth sôn am yr adolygiad pedair blynedd o'r strategaeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“We think that within four years of its initial publication is the right timeline to review the strategy, and we think this is important for several reasons. It allows the strategy to remain responsive to emerging environmental challenges and to refocus those priorities for the OEGW if the OEGW feels that is needed. It also, I have to say, supports public accountability so that the strategy needs to be consulted upon and published so

¹⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 26 Mehefin 2025

¹⁹⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

¹⁹¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

that the OEGW's intentions are clear and transparent and visible and open to scrutiny.”¹⁹²

Adrannau 11 i 13

Monitro ac adrodd ar dargedau amgylcheddol

316. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn galluogi SLIAC i fonitro ac adrodd ar dargedau amgylcheddol, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud hynny. Eglurodd:

“we have been cautious not to prescribe how the OEGW should carry out its functions. As an independent body of experts, the OEGW is best placed to determine its own priorities. If it considers that any statutory targets, not just biodiversity targets, warrant focused attention, there is nothing in the legislation to prevent it from doing so. We believe this approach respects the principle of independence while ensuring the necessary powers and transparency are in place to support effective environmental governance.”¹⁹³

317. O ran targedau bioamrywiaeth, dywedodd:

“the OEGW has to demonstrate how it will comply with the environmental objective, which includes halting and reversing biodiversity decline. So, it's really embedded there within it.”¹⁹⁴

Sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol

318. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r Bil, fel y'i drafftaiwyd, yn galluogi'r cyhoedd i wneud sylwadau i SLIAC ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Fodd bynnag, ychwanegodd:

“I recognise this could be an area where it's helpful to remove any doubt whatsoever, because...one of the benefits we had previously before we withdrew from the EU was the ability of citizens or citizens' organisations to bring representations. That is within the Bill already. But if it helps presentationally, we

¹⁹² Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 18 Medi 2025

¹⁹³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Medi

¹⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 186, 18 Medi 2025

think there might be ways to surface this more clearly within the Bill, given the importance of providing citizens access to environmental justice.”¹⁹⁵

319. Wrth esbonio pam mae’r Bil yn defnyddio’r term “sylwadau” yn hytrach na “cwynion”, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“if we were purely to define this in terms of ‘complaints to’, it creates some expectations around things such as automatic consideration, investigation and immediate outcomes...It’s more proportionate and more effective for OEGW to consider any representations, but alongside the wider body of evidence that it gathers and then makes a judgment as to whether to investigate.”¹⁹⁶

Adran 15

320. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet fod gallu SLIAC i ymchwilio yn seiliedig ar doriadau sydd wedi digwydd ar unrhyw adeg yn bwysig iawn. Eglurodd:

“Y bwriad wrth gynnwys “ar unrhyw adeg” yw caniatáu iddi wneud sylwadau am fethiannau honedig a allai fod wedi’u gwneud yn y gorffennol (ac a allai fod wedi dod i’r amlwg yn ddiweddar) ac i sicrhau nad oes bwlch rhwng yr IEPAW a’r Corff newydd. Heb hyn, byddai SLIAC ond yn gallu ymchwilio i dramgwyddau a ddigwydd ar ôl ei sefydlu...”¹⁹⁷

321. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet “os bydd ymchwiliad yn dod i’r casgliad bod y methiant i gydymffurfio bellach wedi dod i ben, ni fydd SLIAC yn gallu cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ond...gallai ddefnyddio ei swyddogaethau eraill mewn perthynas â’r methiant honedig hwnnw”.¹⁹⁸ Dywedodd fod yn rhaid i fethiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol barhau i fynd rhagddo pan gyhoeddir yr hysbysiad cydymffurfio, gan ychwanegu “Mae’r elfen “unrhyw adeg” yn cyfeirio at allu SLIAC i ymchwilio yn unig, nid at ei gallu i orfodi”.

¹⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 182, 18 Medi 2025

¹⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 108, 26 Mehefin 2025

¹⁹⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

¹⁹⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

Adrannau 16 i 19

Adolygu hysbysiadau cydymffurfio

322. Wrth esbonio'r rhesymeg dros y ddarpariaeth adolygu, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y gallu i awdurdodau cyhoeddus ofyn am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio yn "sicrhau amddiffyniad gweithdrefnol gan wneud y broses orfodi'n decach ac yn fwy dilys ac atebol."¹⁹⁹ Ychwanegodd, "Mae'n ffordd i awdurdodau cyhoeddus herio penderfyniadau heb orfod dibynnu ar ei ddyrchafu i lefel adolygiad barnwrol neu dribiwnlys haen gyntaf a all fod yn dreth ar amser i bob parti".²⁰⁰

Pwyllgorau adolygu

323. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet mai "SLIAC fydd yn ffurfio'r pwyllgor adolygu ei hun ond bydd ynddo elfennau allweddol iddo allu gweithredu'n annibynnol ar y sefydliad ehangach", gan gynnwys aelodau cyfetholedig wedi'u dewis o restr o arbenigwyr.²⁰¹ Ychwanegodd:

"Cedwir y rhestr hon gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bwlch rhwng SLIAC ac adolygwyr yr hysbysiad cydymffurfio gwreiddiol. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, mai SLIAC ei hun fydd yn dewis yr unigolion fydd yn eistedd ar bob pwyllgor adolygu.

*Rydym wedi ystyried y dewis arall bod SLIAC ei hun yn cadw'r rhestr hon ond penderfynon ni pe bai'n cadw'r rhestr o arbenigwyr y gallai cwestiynau godi ynghylch tegwch y broses adolygu ei hun."*²⁰²

Adolygiad o hysbysiadau cydymffurfio brys

324. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet a oedd perygl y gallai cais i adolygu hysbysiad cydymffurfio brys arafu'r camau sydd angen eu cymryd er

¹⁹⁹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰⁰ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

mwyn atal neu liniaru risg bod niwed difrifol yn digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl. Dywedodd:

*"Rydym wedi datblygu'r agwedd hon yn benodol i sicrhau bod y cais am adolygiad yn adlewyrchu brys yr achos penodol. Rydym yn cydnabod yn llawn bod yn rhaid i SLIAC gael y pŵer i reoli achosion yn gyflym ac yn effeithiol, lle bo angen i awdurdod cyhoeddus weithredu ar frys."*²⁰³

325. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Yn y rhan fwyaf o achosion hoffai'r OEGW gynnal yr adolygiad hwn ac ymateb i'r cais am adolygiad o fewn 7 diwrnod er mwyn cydnabod natur frys y mater, ond bydd hwn yn fater iddynt wneud penderfyniad annibynnol yn ei gylch."*²⁰⁴

326. Ychwanegodd:

*"er ei bod yn bosibl y gallai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr, er enghraifft, wyrdroi achos apêl mewn amser byr, ni fydd hyn bob amser yn bosibl. Felly, mae risg y gallai oedi posibl yn sgil defnyddio'r system tribiwnlys estyn y risg o niwed difrifol i'r amgylchedd neu i iechyd pobl."*²⁰⁵

Adolygiad yr Uchel Lys

327. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet os yw awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â gorchymyn llys sy'n gorfodi hysbysiad cydymffurfio, "[y] gellir gwneud cais i'r Llys i ganfod bod yr Awdurdod Cyhoeddus yn cyflawni dirmyg llys, neu gall y Llys benderfynu cychwyn yr achos hwn ei hun".²⁰⁶ Ychwanegodd, "Mae amrywiaeth o sanctsiynau ar gael os canfyddir dirmyg llys a fyddai wedyn ar gael i'r Llys, sy'n cynnwys cosbau ariannol".²⁰⁷

²⁰³ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²⁰⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Medi 2025

²⁰⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Medi 2025

Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion llys

328. Wrth wneud sylwadau am y diffyg pŵer penodol i SLIAC wneud cais am adolygiad barnwrol ac ymyrryd mewn achosion llys, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“We don’t think it’s required...The OEGW would be able to apply for judicial review without any express provision on the face of the Bill. Anyone can apply for a JR under the existing mechanisms. The courts decide ultimately if the applicant has sufficient standing to proceed. So, in our view, a statement on the face of the Bill that the OEGW can apply for JR and intervene in proceedings would carry no greater weight whatsoever than existing provisions in law to bring a JR to intervene.”²⁰⁸

329. Cydnabu’r Ysgrifennydd Cabinet bwerau’r OEP ac ESS o ran adolygiadau barnwrol, ond dywedodd eu bod yn adlewyrchu dyluniad eu system orfodi, sy’n wahanol i’n un ni.²⁰⁹ Nododd fod pwerau’r OEP ac ESS yn fwy cyfyngol mewn rhai ffyrdd oherwydd eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gan eu cyrff amgylcheddol ymwneud â methiant difrifol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.²¹⁰

330. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet y gellid defnyddio pwerau ategol SLIAC (a nodir ym mharagraff 23 o Atodlen 1) os yw’n dymuno gwneud cais am adolygiad barnwrol neu ymyrryd mewn achos llys.

Adrannau 23 i 27

Cydweithredu rhwng SLIAC a’i chymheiriaid

331. Pan ofynnwyd i’r Ysgrifennydd Cabinet pam nad yw’r Bil yn cynnwys gofyniad i SLIAC ymgynghori â’i chymheiriaid ar faterion perthnasol, dywedodd:

“Nid ydym wedi gofyn am gydsyniad, ac fe fyddai ei angen, i roi rhwymedigaeth statudol benodol ar SLIAC i ymgynghori â’r cyrff

²⁰⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 192, 18 Medi 2025

²⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 26 Mehefin 2025

²¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 195, 18 Medi 2025

hyn neu fel arall i'w gorfodi i gydweithio. Rydym o'r farn bod hyn yn fater i SLIAC ei ystyried ymhellach wedi iddi gael ei sefydlu.”²¹¹

332. Soniodd am y memorandwm cyd-ddealltwriaeth anstatudol presennol rhwng yr IEPAW a'r OEP ac ESS, a nododd ei fod yn “effeithiol”. Ychwanegodd fod “gan SLIAC bwerau cyffredinol y gallai eu defnyddio [i ymrwymo i femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'i chymheiriaid]”.²¹²

333. Ar y mater o rannu gwybodaeth gyfrinachol gyda'r OEP ac ESS, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*“the confidentiality clauses within the Bill already support the effective treatment of information provided to the OEGW, including the capability to share information with the consent of the public authority that provided the information or the correspondence”.*²¹³

334. Rhybuddiodd:

*“including provisions stating that confidential information can or will be shared with third parties would undermine the confidence of public authorities in the OEGW, and it could actually reduce those collaborative efforts to obtain information, and even resolve non-compliance without resorting to stricter formal measures, which could take much more time and much more resource.”*²¹⁴

Adrannau 29 i 32

Ystyr “cyfraith amgylcheddol”

335. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor:

“nid oes meini prawf penodol ar gyfer penderfynu a yw darpariaeth ddatganoledig yn bodloni'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Mater i SLIAC benderfynu arno fydd hyn, ar sail

²¹¹ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

²¹² Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

²¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 18 Medi 2025

²¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 203, 18 Medi 2025

ei dehongliad o'r diffiniad. Os caiff ei herio, câi'r llysoedd ddyfarnu."²¹⁵

336. Ychwanegodd, "Gall y dadleuon ynghylch beth sy'n dod o dan gyfraith amgylcheddol fod yn eang a chymhleth, gan gwmpasu meysydd fel ansawdd aer, dŵr, gwastraff, bioamrywiaeth, a mwy".²¹⁶

337. Wrth esbonio'r rhesymeg dros y pŵer yn adran 29(4), dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet, "[mae'n bwysig cofio bod Adran 29(4)] yn paratoi'r Bil/Deddf ar gyfer y newidiadau a ddaw mewn deddfwriaeth sy'n esblygu".²¹⁷ Ychwanegodd y byddai rheoliadau'n destun ymgynghoriad ffurfiol, "y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo [iddo]", a chymeradwyaeth y Senedd.²¹⁸

Ystyr "awdurdod cyhoeddus"

338. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod cyrff a fyddai'n dod o fewn y bwlch goruchwyllo yn cynnwys National Rail, Ystâd y Goron a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Dywedodd y gellid mynd i'r afael â'r bwlch hwn trwy gydweithredu rhwng SLIAC, yr OEP a'r awdurdodau cyhoeddus eu hunain.²¹⁹

339. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet, er mai mater i SLIAC a'r OEP ei ddatrys ydyw, fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi dechrau trafodaeth gyda'r OEP gyda'r bwriad o lunio ateb ar gyfer y dyfodol y gellid ei gyflwyno i SLIAC ei ystyried.²²⁰

Ein barn ni

Adrannau 8 a 9

O ystyried yr angen amlwg am gorff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru i fynd i'r afael â'r bwlch goruchwyllo sy'n deillio o ymadawriad y DU â'r UE, rydym yn fodlon ar adran 8.

²¹⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²¹⁶ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²¹⁷ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²¹⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst

²¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 18 Medi 2025

²²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 18 Medi 2025

Mae Cymru eisoes wedi bod heb gorff llywodraethiant amgylcheddol ers pum mlynedd. Felly, rydym yn awyddus i SLIAC fod yn gwbl weithredol o fewn yr amser byrraf posibl. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fwriad i SLIAC fod yn gwbl weithredol o fewn dwy flynedd i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd penderfynu pryd y dylid cychwyn y darpariaethau yn Rhan 2 sy'n rhoi swyddogaethau i SLIAC, ac sy'n rhoi pwerau iddi. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar unrhyw lywodraeth newydd i gyflawni amserlen o ddwy flynedd oni bai ei fod yn cael ei ddarparu'n benodol yn y Bil.

Er ein bod yn nodi honiad yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai cynnwys amserlen statudol ar gyfer cychwyn y darpariaethau perthnasol yn "risg uchel", nid ydym yn cytuno. Credwn y byddai'n gwasanaethu fel mesur diogelu hanfodol rhag oedi pellach, gan gynnwys o ganlyniad i unrhyw newid yn y llywodraeth. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i sicrhau bod y darpariaethau perthnasol yn Rhan 2 yn cael eu cychwyn o fewn 2 flynedd i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol, i'r graddau nad ydynt wedi'u cychwyn trwy Orchymyn yn gynt na hyn.

Yn ein hadroddiadau ar y trefniadau interim presennol ar gyfer diogelu'r amgylchedd, rydym wedi galw am drosglwyddiad wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda o'r IEPAW i'r corff llywodraethiant newydd. Rydym yn ailadrodd y galwadau hynny ac yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar drefniadau llywodraethiant yn ystod y cyfnod pontio.

Diben cyffredinol SLIAC

Rydym yn cydnabod bod cyfranwyr yn pryderu bod diben cyffredinol SLIAC, fel y'i diffinnir yn adran 9(a), yn rhy eang. Mae hyn yn bennaf oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar gyfrannu tuag at yr amcan amgylcheddol. Rydym yn fodlon bod cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd yn ddiben cyffredinol priodol. Fodd bynnag, clywsom bryderon y gallai'r cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn adran 1(1)(a) arwain at wanhau'r ffocws y bydd SLIAC yn ei roi ar yr amgylchedd.

Er ein bod yn nodi esboniad yr Ysgrifennydd Cabinet am y dull a fabwysiadwyd, credwn y dylai roi ystyriaeth bellach i ddiben cyffredinol SLIAC, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth.

Annibyniaeth SLIAC

Bydd SLIAC yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Bydd yn dwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill i gyfrif o ran eu rhwymedigaethau amgylcheddol. Felly, mae annibyniaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru yn hanfodol os yw SLIAC am sefydlu hygyrdded a meithrin hyder gwleidyddion a'r cyhoedd.

Roedd barn glir ymhlith cyfranwyr nad yw'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn diffinio nac yn diogelu annibyniaeth SLIAC yn ddigonol. Clywsom alwadau am ddarpariaeth benodol yn y Bil i sicrhau bod annibyniaeth SLIAC yn glir; darpariaeth debyg i'r un yn Neddfau'r DU a'r Alban, sy'n sefydlu'r OEP ac ESS.

Nodwn fod cynsail yng nghyfraith Cymru ar gyfer darpariaeth o'r fath. Roedd y ddeddfwriaeth a sefydlodd Comisiynydd Safonau'r Senedd a Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn nodi'n glir eu bod yn annibynnol ar y Senedd. Credwn y byddai cynnwys darpariaeth o'r fath yn y Bil yn dileu ansicrwydd ynghylch annibyniaeth SLIAC ac yn lliniaru'r risg, neu'r risg ganfyddedig, y gall fod ymyrraeth gan y llywodraeth. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i roi hyn ar waith.

Penodiadau i SLIAC

Rydym yn pryderu y gallai'r broses benodi ar gyfer SLIAC gael ei hystyried yn un sy'n tanseilio ei hannibyniaeth. Nodwn fod y broses yn debyg i'r un ar gyfer rolau cyhoeddus arwyddocaol eraill, megis Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, credwn fod rôl SLIAC, yn enwedig ei gallu i gymryd camau gorfodi yn erbyn Llywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn wahanol i rolau cyhoeddus eraill. O ganlyniad, mae'r broses benodi ar gyfer SLIAC yn gofyn am fesurau diogelu cryfach.

Yr hyn rydym yn ei ffafrio yw bod penodiadau i SLIAC yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd er mwyn sicrhau atebolrwydd, tryloywder ac annibyniaeth. Byddai hyn yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd yn yr Alban ar gyfer penodiadau i Fwrdd ESS. Os nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon mabwysiadu'r dull hwn, byddem yn fodlon â rôl fwy sylweddol i bwyllgor perthnasol y Senedd. O ran hyn, credwn fod y dull a fabwysiadwyd wrth benodi Comisiynydd y Gymraeg, lle mae aelod o'r pwyllgor yn eistedd ar y panel dethol, yn darparu cynsail defnyddiol. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried hyn.

Digonolrwydd cyllid

Nodwn yr esboniad a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet i SLIAC gael ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Gyda'i gilydd, rydym yn fodlon â'r dull gweithredu hwn. Fodd bynnag, rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr y gallai amlygu SLIAC i heriau cyllido yn y dyfodol a thanseilio ei hannibyniaeth.

Clywsom dystiolaeth gymhellol bod y darpariaethau digonolrwydd cyllid yn Neddfau'r DU a'r Alban wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau tryloywder a galluogi craffu ar ddigonolrwydd adnoddau ar gyfer yr OEP ac ESS. Credwn y dylai darpariaeth debyg gael ei chynnwys yn y Bil. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

Nid ydym wedi ystyried cost amcangyfrifedig sefydlu SLIAC na chostau gweithredol parhaus. Materion i Bwyllgor Cyllid y Senedd, sy'n gyfrifol am graffu ar oblygiadau ariannol y Bil, yw'r rhain.

Adran 10

Cynnwys y strategaeth

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd gan rai cyfranwyr bod Atodlen 2 yn rhy ragnodol. Rydym yn croesawu cadarnhad yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn. Rydym yn disgwyl iddo fyfyrion ar farn rhanddeiliaid cyn Cyfnod 2.

Osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd

Rydym yn fodlon â'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil i reoli unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau SLIAC a chyrff goruchwyllo presennol yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw rhai cyrff, y gall eu swyddogaethau orgyffwrdd â SLIAC, wedi'u rhestru ym Mharagraff 1(1)(e) o Atodlen 2.

Mae hepgoriad Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU o'r rhestr yn arbennig o drawiadol, o ystyried y cynnig y dylid ei gynnwys yn y Papur Gwyn. Nid yw'n glir o dystiolaeth yr Ysgrifennydd Cabinet pam mae Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt. Rydym yn cydnabod barn cyfranwyr bod Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn hepgoriad sylweddol ac amlwg, felly rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â hyn. Rydym yn nodi y bydd angen cydsyniad Llywodraeth y DU, fwy na thebyg, i gynnwys Pwyllgor Newid

Hinsawdd y DU yn y rhestr. Os yw hynny'n wir, rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet geisio cydsyniad ar y cyfle cynharaf posibl.

Nodwn hefyd nad yw Ofwat na'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi'u rhestru. Byddem yn croesawu esboniad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch hyn, o ystyried eu rôl fel rheoleiddwyr y diwydiant dŵr.

Gofynion gweithdrefnol

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu bod disgwyliad clir i SLIAC ymgynghori'n eang wrth baratoi ei strategaeth. Er bod Paragraff 2(1) o Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC ymgynghori, mae'r ymgynghoreion penodol yn cael eu gadael i'w disgresiwn i raddau helaeth. Credwn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad penodol i SLIAC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi hyn ar waith.

Rydym yn fodlon ar y cyfan â'r gofyniad ar SLIAC i adolygu ei strategaeth bob pedair blynedd. Fodd bynnag, credwn ei fod yn werth rhoi'r hyblygrwydd i SLIAC adolygu ei strategaeth yn amlach pe bai'n dymuno. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer hyn.

Adrannau 11 i 13

Monitro cynnydd tuag at dargedau amgylcheddol

Roedd y Papur Gwyn yn nodi y byddai'r corff llywodraethiant newydd yn asesu'r broses o gyflawni ystod o dargedau amgylcheddol statudol, gan gynnwys targedau bioamrywiaeth a bennir o dan Ran 3 o'r Bil (gweler Pennod 6). Er bod y Bil yn galluogi SLIAC i fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni targedau, nid yw'n ofynnol iddi wneud hynny. Roedd hyn yn bryder i lawer o gyfranwyr ac mae'n bryder a rennir gennym.

Yn ein hadroddiad yn 2025, nodwyd pryderon am y diffyg cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yma i fynd i'r afael â'r dirywiad parhaus yn natur Cymru. Gallai cyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol ysgogi newid trawsnewidiol. Fodd bynnag, mae angen trefniadau monitro ac adrodd cadarn ac effeithiol i sicrhau tryloywder, craffu ac atebolrwydd. Er y bydd gofynion adrodd Gweinidogion Cymru yn Rhan 3 o'r Bil yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gyflawni hyn, nid ydynt yn cynnwys yr elfen hanfodol o annibyniaeth.

Mae'n ofynnol i'r OEP fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at dargedau amgylcheddol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, gan gynnwys targedau

bioamrywiaeth. Os bydd Bil yr Alban, fel y'i drafftwyd, yn dod yn gyfraith, bydd ESS yn gwerthuso cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth yr Alban. Credwn fod achos cryf dros roi rôl gyfatebol i SLIAC mewn perthynas â thargedau bioamrywiaeth Cymru. Er ein bod yn nodi rhesymeg yr Ysgrifennydd Cabinet dros y dull a fabwysiadwyd, o ystyried y dirywiad parhaus yn natur Cymru, credwn fod targedau bioamrywiaeth yn haeddu sylw arbennig. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried hyn ymhellach.

Sylwadau ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol

Rhaid sicrhau bod derbyn sylwadau gan y cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol yn un o swyddogaethau allweddol SLIAC. Rydym yn pryderu nad yw'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn darparu ar gyfer hyn yn ddigonol. Mae'r darpariaethau mewn perthynas â sylwadau wedi'u claddu yn Atodlen 2 i bob pwrpas. Er bod yn rhaid i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn galluogi personau i wneud sylwadau, nid yw hawl y dinesydd i wneud sylwadau yn cael ei nodi'n glir yn y Bil.

Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cydnabod y gall fod angen ystyried y dull a fabwysiadwyd yn y Bil ymhellach, sy'n galonogol. Rydym yn disgwyl iddo gyflwyno gwelliannau i ddarparu dull yn seiliedig ar hawliau i ddinasyddion wneud sylwadau. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf y DU yn darparu cynsail defnyddiol.

Adran 15

Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai cyfranwyr ynghylch cwmpas pwerau ymchwilio SLIAC. Fodd bynnag, mae esboniad yr Ysgrifennydd Cabinet yn rhoi sicrwydd i ni ynghylch hyn. Fel y cyfryw, rydym yn fodlon â'r darpariaethau fel y'u drafftwyd.

Nodwn y bydd yn ofynnol i SLIAC amlinellu ei pholisi ymchwilio fel rhan o'i strategaeth. Fel y nodwyd eisoes, rydym yn disgwyl i SLIAC ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth baratoi ei strategaeth.

Adrannau 16 i 19

Adolygu hysbysiadau cydymffurfio

Rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylai awdurdodau cyhoeddus gael yr hawl i ofyn am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio. Fodd bynnag, mae gennym ddau bryder ynglŷn â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer ymdrin ag adolygiadau. Yn gyntaf,

gallai dirprwyo penderfyniadau i bwyllgor adolygu sy'n cynnwys aelodau allanol danseilio awdurdod a hygrededd SLIAC. Yn ail, gallai cyfranogiad Llywodraeth Cymru wrth lunio rhestrau paneli danseilio annibyniaeth SLIAC.

Clywsom enghreifftiau o gyrff goruchwyllo sy'n cynnal adolygiadau mewnol o hysbysiadau cydymffurfio a/neu gwynion, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Credwn y dylid mabwysiadu dull tebyg ar gyfer adolygu hysbysiadau cydymffurfio a roddir gan SLIAC, yn amodol ar fesurau diogelu priodol. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi hyn ar waith.

Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd gan gyfranwyr y gallai'r amser a gymerir i adolygu hysbysiad cydymffurfio arwain at oedi wrth ddatrys y materion cydymffurfio sylfaenol. Mae hyn yn peri pryder arbennig yn achos hysbysiadau cydymffurfio brys, o ystyried yr amgylchiadau y cânt eu rhoi oddi tanynt. Er ein bod yn cydnabod y bydd yr amser a gymerir i gwblhau adolygiad yn amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad a chymhlethdod yr achos, dylai'r Bil osod disgwyliad clir bod adolygiadau yn cael eu cwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Adolygiad yr Uchel Lys

Rydym yn croesawu'r eglurhad a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai amrywiaeth o sancsiynau, gan gynnwys cosbau ariannol, ar gael i'r Uchel Lys pe canfyddir bod awdurdod cyhoeddus wedi cyflawni dirmyg llys ar ôl methu â chydymffurfio â gorchymyn perthnasol a roddwyd o dan adran 19.

Dirwyon

Nodwn y byddai'n well gan rai cyfranwyr i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer dirwyon. Rydym yn cydnabod, er bod dirwyon wedi bod yn offeryn defnyddiol yng nghyd-destun system llywodraethiant amgylcheddol yr UE, bod yna heriau yn gysylltiedig â gweithredu system ddirwyo yng nghyd-destun Cymru. Rydym felly yn fodlon nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer dirwyon.

Adolygiad barnwrol ac ymyrraeth mewn achosion llys

Rydym yn nodi'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth y gallai'r diffyg pŵer penodol yn y Bil rwystro SLIAC rhag gwneud cais am adolygiad barnwrol neu ymyrryd mewn achosion llys. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi rhoi sicrwydd i ni nad yw hyn yn wir, gan bwysleisio y gall unrhyw berson wneud cais am adolygiad barnwrol neu ymyrryd mewn achosion llys ar yr amod bod

ganddynt statws cyfreithiol. Rydym yn fodlon, felly, nad yw'r Bil yn cynnwys pŵer penodol o'r fath.

Adrannau 23 i 27

Rydym yn awyddus i sicrhau bod SLIAC yn datblygu perthnasoedd gwaith cryf â'i chymheiriaid ledled y DU. Er nad yw'r Bil yn darparu ar gyfer hyn yn benodol, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ein sicrhau y byddai SLIAC yn gallu ymrwymo i Femoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda'r OEP ac ESS gan ddefnyddio ei phwerau cyffredinol, a rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda nhw, yn ddarostyngedig i amodau penodol. Ar y sail hon, rydym yn fodlon â'r dyletswyddau cydweithredu.

Rydym yn nodi barn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bod y Bil yn darparu gwell amddiffyniad rhag datgelu ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio y tu hwnt i'r hyn a ddarperir eisoes o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2024. Byddem yn croesawu esboniad gan yr Ysgrifennydd Cabinet am y rhesymeg dros y dull gweithredu hwn.

Adrannau 29 i 32

Ystyr “cyfraith amgylcheddol”

Rydym yn fodlon ag ystyr “cyfraith amgylcheddol” yn adran 29.

Rydym yn pryderu nad yw'r Bil yn cynnwys gofyniad penodol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn arfer y pŵer yn adran 29(4), er y gallai hyn gael effaith sylweddol ar gwmpas pwerau goruchwyllo SLIAC.

Er bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgynghori, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ni fyddai unrhyw rwymedigaeth o reidrwydd ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y dyfodol. O ystyried hyn, credwn y dylai'r Bil ei gwneud hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLIAC, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach cyn gwneud rheoliadau o dan adran 29(4). Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi hyn ar waith.

Ystyr “awdurdod cyhoeddus”

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth na fydd rhai awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru yn destun goruchwyliaeth gan SLIAC na'r OEP. Er

ein bod yn ymwybodol bod y “bwlch” goruchwylio hwn yn rhannol o ganlyniad i'r setliad datganoli, rydym yn pryderu nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael ag ef neu ei leihau. Os nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon neu'n gallu ehangu cwrmpas awdurdodau cyhoeddus o dan y Bil, neu os nad yw fel arall yn gallu cael y cydsyniad angenrheidiol gan Lywodraeth y DU, credwn y dylai strategaeth SLIAC nodi sut mae'n bwriadu gweithio gyda'r OEP i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio gan awdurdodau o'r fath. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r perwyl hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i sicrhau y bydd yr holl ddarpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn dod i rym yn awtomatig ddwy flynedd i'r dyddiad y bydd y Ddeddf yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, i'r graddau nad ydynt wedi'u cychwyn trwy Orchymyn yn flaenorol.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu mai diben cyffredinol SLIAC yw sicrhau effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a chyfrannu at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth benodol yn y Bil i nodi annibyniaeth SLIAC oddi wrth Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod penodi (neu ailbenodi) aelodau anweithredol SLIAC yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan y Senedd.

Argymhelliad 14. Os nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i dderbyn Argymhelliad 13, dylai gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu rôl fwy sylweddol i Bwyllgor perthnasol y Senedd wrth benodi (neu ailbenodi) aelodau anweithredol SLIAC. Mae'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer penodi Comisiynydd y Gymraeg yn darparu cynsail defnyddiol.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth benodol yn y Bil ar gyfer sicrhau bod SLIAC yn cael digon o gyllid. Mae'r dulliau a fabwysiadwyd yn Neddf yr Amgylchedd 2021 a Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn darparu cynsail defnyddiol.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn y rhestr o gyrff goruchwyllo lle dylai SLIAC geisio osgoi swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd o dan baragraff 1(1)(e) o Atodlen 2. Os oes angen cydsyniad ar gyfer y ddarpariaeth hon, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet gymryd rhan mewn trafodaethau cynnar gyda Llywodraeth y DU, gyda'r bwriad o gael cydsyniad cyn i'r Bil gyrraedd ei gyfnod terfynol yn y Senedd.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru egluro canlyniad unrhyw asesiad y mae wedi'i gynnal o orgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau SLIAC ac OfWat, a rhwng swyddogaethau SLIAC a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Os yw gorgyffwrdd posibl wedi'i nodi, dylai hefyd esbonio pam nad yw OfWat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed wedi'u rhestru ym mharagraff 1(1)(e) o Atodlen 2.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i SLIAC gynnal ymgynghoriad cyhoeddus wrth baratoi ei strategaeth (neu ei strategaeth ddiwygiedig).

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu pŵer galluogi i SLIAC adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg. Dylai'r pŵer hwn ategu yn hytrach na disodli'r gofyniad i SLIAC adolygu ei strategaeth unwaith bob pedair blynedd.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu rôl wedi'i diffinio'n glir i SLIAC wrth fonitro ac adrodd ar gynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth statudol (a bennir o dan Ran 3 o'r Bil).

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu dull yn seiliedig ar hawliau i ddinasyddion:

- wneud sylwadau i SLIAC ar faterion sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol,
- cael gwybod am ymateb SLIAC i sylwadau ac unrhyw gamau a gymerwyd.

Mae adrannau 32 a 34 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn darparu cynsail defnyddiol.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- galluogi SLIAC i gynnal adolygiad mewnol o hysbysiad cydymffurfio yn dilyn cais gan awdurdod cyhoeddus o dan adran 18, a
- sicrhau na all aelod o bersonél SLIAC fod yn rhan o'r adolygiad o hysbysiad cydymffurfio os oeddent yn ymwneud ag ymchwilio i'r methiant cydymffurfio honedig neu'r penderfyniad i gyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddarparu bod yn rhaid cwblhau adolygiad o hysbysiad cydymffurfio/cydymffurfio brys cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn cais gan awdurdod cyhoeddus o dan adran 18.

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymeg dros ddarparu gwell amddiffyniad rhag datgelu ar gyfer hysbysiadau gwybodaeth a hysbysiadau cydymffurfio (o dan adrannau 25(1) a 26(1)) y tu hwnt i'r amddiffyniad a ddarperir eisoes o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLIAC, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ehangach cyn gwneud rheoliadau o dan adran 29(4).

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhestr gynhwysfawr o awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru a fyddai y tu allan i oruchwyliaeth SLIAC neu'r OEP.

Argymhelliad 27. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i geisio cydsyniad gan Lywodraeth y DU i ddod ag awdurdodau cyhoeddus sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n arfer swyddogaethau datganoledig yng Nghymru o fewn goruchwyliaeth SLIAC. Os nad yw'n fodlon neu'n methu cael cydsyniad, dylai gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut mae'n bwriadu gweithio gyda'r OEP i fynd i'r afael â materion cydymffurfio mewn perthynas â'r awdurdodau hynny.

5. Rhan 3: Targedau bioamrywiaeth

Adran 33 – Targedau bioamrywiaeth

340. Mae adran 33 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf 2016) i fewnosod saith adran newydd sydd, gyda'i gilydd, yn cyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.

341. Mae adran newydd 6B yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru os ydynt wedi'u bodloni y byddai cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Rhaid i bob targed bennu safon i'w chyflawni, y mae rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol, a dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.

342. Mae adran newydd 6C yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheoliadau drafft gerbron y Senedd o fewn tair blynedd ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan osod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o'r pedwar maes blaenoriaeth.

343. Mae adran newydd 6D yn nodi'r broses y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth osod unrhyw darged o dan y fframwaith, gan gynnwys ceisio cyngor gan arbenigwr annibynnol.

344. Mae adran newydd 6E yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod unrhyw dargedau a osodir mewn rheoliadau yn cael eu cyrraedd.

345. Mae adran newydd 6F yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged a osodir o dan y fframwaith. Effaith dynodi yw gofyniad i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed sy'n berthnasol i'r awdurdod cyhoeddus.

346. Mae adran newydd 6G yn nodi pryd y caiff Gweinidogion Cymru, neu bryd y mae rhaid iddynt, adolygu unrhyw dargedau bioamrywiaeth a osodwyd o dan adran newydd 6B.

347. Yn gyffredinol, mae adran newydd 6H yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag dirymu neu ostwng targed bioamrywiaeth a osodir o dan adran 6B oni bai bod eithriad yn gymwys.

348. Mae adran newydd 6I yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad mewn cysylltiad â tharged ar y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid ei gyrraedd neu cyn hynny. Rhaid i'r datganiad nodi a yw'r targed wedi'i gyrraedd. Os nad yw wedi'i gyrraedd, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad o fewn 12 mis yn egluro pam nad yw'r targed wedi'i gyrraedd ac yn nodi'r camau arfaethedig i sicrhau bod y targed yn cael ei gyrraedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

349. Er bod cefnogaeth eang i gyflwyno'r fframwaith gosod targedau, cododd llawer o gyfranwyr bryder nad oedd yn cynnwys digon o sicrwydd nac uchelgais ac nad oedd yn ddigon clir. Galwyd ar i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r materion hyn.

350. Awgrymodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol y gellid bod wedi defnyddio'r Bil fel cyfle i fynd i'r afael â heriau amgylcheddol y tu hwnt i'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Dywedodd:

*"the Bill only mandates target-setting in relation to biodiversity. While this is a welcome and necessary step, we encourage the Welsh Government to consider a broader suite of targets across other environmental domains to reflect the interconnected nature of environmental pressures."*²²¹

Targedau bioamrywiaeth: cyffredinol

351. Cododd RSPB Cymru bryder bod cyfrannu at "atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth" (yn adran newydd 6B(2) o Ddeddf 2016 i'w mewnosod gan adran 33) yn brawf gwan ar gyfer penderfynu a ddylid gosod targed.²²² Eglurodd:

*"As in the GBF, the aim to restore biodiversity as well as halting and reversing decline should be clear, and Ministers should be satisfied that each target will 'significantly contribute' to this ambition".*²²³

352. Mynegodd WildFish farn debyg.

²²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

²²² Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

353. Mae adran newydd 6B(7) yn diffinio “rhywogaethau brodorol” at ddibenion gosod targedau. Cododd NFU Cymru bryder ynghylch goblygiadau posibl y diffiniad yng nghyd-destun ailgyflwyno rhywogaethau, gan gyfeirio at yr arfer fel un dadleuol.²²⁴ Awgrymodd y dylai'r diffiniad gael ei ddiwygio, er enghraifft ei gyfyngu i rywogaethau sy'n bresennol yng Nghymru ar hyn o bryd, neu sydd wedi bod yn bresennol yng Nghymru yn naturiol o fewn cyfnod penodol.²²⁵

354. Awgrymodd Grŵp Cynghori Cymru Peat-free Partnership y dylid ystyried, wrth osod targedau, ddinistrio bioamrywiaeth ar y môr ar gyfer gweithgareddau fel y defnydd o fawn mewn garddwriaeth.²²⁶

“Targed pennawd”

355. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai'r Bil gynnwys “targed pennawd”, sy'n adlewyrchu ymrwymiad y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, ac un o gerrig milltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef:

“Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth gyda gwelliant yn statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad yn amlwg erbyn 2050.”

356. Yn ei [hymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn](#), dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn ystyried disodli'r targed pennawd â datganiad o ddiben neu genhadaeth natur-bositif i ddarparu'r sail ar gyfer fframwaith adfer natur y Bil. Nid yw'r Bil yn cynnwys yr un o'r rhain.

357. Gan sôn yn fwy cyffredinol am bwysigrwydd targed pennawd, esboniodd yr OEP, mewn perthynas â thargedau amgylcheddol ar gyfer Lloegr, ei bod wedi eirioli dros hierarchaeth glir o dargedau ym mhob maes amgylcheddol lle mae'r llywodraeth yn dyheu am welliant sylweddol.²²⁷ Ychwanegodd:

“In our view, there should be an apex or headline target that sets out the overall intended environmental outcome supported by a suite of SMART (Specific, Measurable, Attainable, Realistic and Time-bound) interim targets in each

²²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

²²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

²²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cynghori Cymru Peat-free Partnership

²²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

area. We judge this clarity and coherence to be essential if targets are to have the intended galvanising effect.”²²⁸

358. Mynegodd sefydliadau amgylcheddol a Derek Walker siom fod yna symud i ffwrdd o “darged pennawd” arfaethedig y Papur Gwyn. Dywedodd WWF Cymru:

“WWF remains disappointed about the lack of a headline, timebound target to reverse the decline in species abundance in line with the international community. This is a key part of biodiversity recovery and should be included in the Bill to give a clear signal of the urgency of action needed.”²²⁹

359. Fel dewis arall i gynnig y Papur Gwyn, awgrymodd Dr Victoria Jenkins darged pennawd o 2050 (yn hytrach na 2030 a 2050), sy’n cyd-fynd â gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Dywedodd:

“I don’t think there’s anything wrong with an aspirational goal, and I think it’s very much within the Welsh way of environmental law that we have aspiration and that we put that on the face of the legislation.”²³⁰

360. Amlinellodd Dr Victoria Jenkins fanteision “targed pennawd”, gan dynnu sylw at y targed sero net fel enghraifft. Esboniodd:

“[The net zero target] captures the public imagination, it tells us what’s gone wrong—that we’ve been emitting too many greenhouse gases, that we need to address that—and I think to say ‘We need to recover biodiversity by 2050’ would give us the same sort of perspective, which I think we actually really need.”²³¹

361. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am darged hirdymor ar gyfer adfer bioamrywiaeth erbyn 2050 (yn ogystal â thargedau byrdymor/interim a hirdymor).²³²

²²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WWF Cymru

²³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 9 Gorffennaf 2025

²³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 9 Gorffennaf 2025

²³² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

362. Awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru y dylai fod gweledigaeth tymor hwy wedi'i hategu gan dargedau byrdymor, gan dynnu sylw at rôl cyllidebau carbon wrth gefnogi'r targed sero net.²³³

363. Er bod Neil Parker (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn cydnabod bod y targed sero net yn bwerus, nid oedd o'r farn y byddai targed pennawd tebyg ar gyfer bioamrywiaeth yn ymarferol.²³⁴ Dywedodd:

"there are many more moving parts [in terms of biodiversity]. How you then track that and monitor that and deliver upon that becomes much more difficult".²³⁵

364. Dywedodd Beth Stoker (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) eu bod nhw'n deall yn llwyr werth cael targed pennawd, yn enwedig o safbwynt cyfathrebu, ac adeiladu'r naratif hwnnw o amgylch pwysigrwydd natur.²³⁶ Fodd bynnag, eglurodd nad oes cynsail ar gyfer targed "pennawd" bioamrywiaeth, naill ai yn Lloegr nac yn rhyngwladol. Felly, daeth i'r casgliad nad yw'n glir beth fyddai ei werth yn y byd go iawn.

Targed 2035 ar gyfer toreithrwydd rhywogaethau

365. Galwodd sefydliadau amgylcheddol ar i'r Bil gynnwys targed i wrthdroi'r dirywiad mewn toreithrwydd rhywogaethau erbyn 2035 (targed 2035). Cefnogwyd yr alwad hon gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

366. Wrth esbonio'r rhesymeg dros y targed ar gyfer 2035, dywedodd RSPB Cymru:

"This short-term target, addressing a key biodiversity measure, would act as a 'north star' - giving an indication of the scale and pace of change required to set biodiversity on a path to recovery, and embedding the ambition and commitment of the current Welsh Government and Senedd as they prepare to hand the delivery of this vital legislation onto the next."²³⁷

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru

²³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 17 Gorffennaf 2025

²³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 235, 17 Gorffennaf 2025

²³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 17 Gorffennaf 2025

²³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

367. Mae targed tebyg wedi'i gynnwys yn Neddf y DU (ynghyd â dyletswyddau i sefydlu targedau amgylcheddol hirdymor).²³⁸ Wrth sôn am effaith y targed hwnnw, dywedodd Ruth Chambers:

"We see it everywhere. It's pervasive, but in a good way. It drives Government action, the civil service talk about it, there are programmes of activity attached to it. What we know is that one of the single biggest drivers of civil service activity is fear of legal risk and worries about compliance".²³⁹

368. Nododd Cyswllt Amgylchedd Cymru nad oes unrhyw arwydd ar wyneb y Bil o uchelgais neu frys heb darged 2035, gan olygu y bydd ymdrechion amgylcheddol Cymru yn ddigyfeiriad nes bod targedau'n cael eu gosod gan reoliadau, a allai fod blynyddoedd i ffwrdd.²⁴⁰

369. Dywedodd Ruth Chambers:

"I fear that [without the 2035 target] the drift that we've experienced [to date]...will continue, and just be put off to the next deadline and the next deadline".²⁴¹

Hyd y targed

370. Cododd sefydliadau amgylcheddol bryder nad yw'r Bil yn nodi hyd targedau i'w gosod mewn rheoliadau (o dan adran newydd 6B o Ddeddf 2016). Dywedwyd y byddai hyn yn galluogi llywodraeth yn y dyfodol i osod targedau byrdymor yn unig neu dargedau hirdymor yn unig, gan bwysleisio'r angen am y ddau. Eglurodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

"Long-term targets are required to set out a vision for nature restoration, providing a point (or outcome) to aim for as actions are taken, over many years, to recover and restore biodiversity...Interim or shorter-term targets drive immediate

²³⁸ Mae adran 3 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn gosod gofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i osod targed gan reoliadau mewn perthynas â mater sy'n ymwneud â thoreithrwydd rhywogaethau. Rhaid i'r dyddiad penodedig ar gyfer y targed toreithrwydd rhywogaethau fod yn 31 Rhagfyr 2030.

²³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 130, 17 Gorffennaf 2025

²⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 130, 17 Gorffennaf 2025

*action, create accountability, and serve as good indicators of progress”.*²⁴²

371. Galwodd sefydliadau amgylcheddol ar i'r Bil gael ei ddiwygio i sicrhau bod y ddau fath o dargedau yn cael eu gosod. Dywedodd y Cynghrair Werdd:

*“Just as the Global Biodiversity Framework describes both 2030 targets and longer-term 2050 goals, the bill should ensure that Welsh Ministers are accountable for delivering legally binding interim and long-term targets, with at least one long-term and one short-term target required for each priority area.”*²⁴³

372. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru, WWF Cymru a RSPB Cymru am dargedau hirdymor o 15 mlynedd o leiaf (yn unol â'r dull a fabwysiadwyd yn Neddf y DU ar gyfer gosod targedau amgylcheddol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon).

373. Dywedodd WWF Cymru y dylid gosod targedau byrdymor ar gyfer tymor pob Senedd hyd nes y caiff targedau hirdymor eu cyrraedd.²⁴⁴

374. Pwysleisiodd cyfranwyr eraill bwysigrwydd gosod targedau byrdymor a hirdymor, ond ni aethant mor bell ag awgrymu y dylai'r Bil ddarparu'n benodol ar gyfer hyn. Eiriolodd Beth Stoker (Cydbwyllgor Cadwraeth Natur) dros gyfres o dargedau sy'n cynrychioli gwahanol amserlenni.²⁴⁵ Waeth beth fo hyd y targed, pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi i fonitro ac adrodd yn erbyn cynnydd yn rheolaidd.

Meysydd blaenoriaeth

375. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer targedau.²⁴⁶ Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru eu bod yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gweithredu nawr ac yn yr hirdymor.²⁴⁷ Soniodd y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur am alinio'r meysydd blaenoriaeth â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ehangach.

²⁴² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Cynghrair Werdd

²⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, WWF Cymru

²⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 233, 17 Gorffennaf 2025

²⁴⁶ Mae adran newydd 6C o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil, yn nodi'r meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer targedau: lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol; rheoli ecosystemau yn effeithiol; lleihau llygredd; ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i chymhwyso.

²⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyfoeth Naturiol Cymru

376. Tynnodd Cyswllt Amgylchedd Cymru sylw at yr angen am gyfres o dargedau bioamrywiaeth i lywio, ar y cyd, gamau i adfer rhywogaethau dan fygythiad, trawsnewid ein safleoedd gwarchodedig a'u hymwreiddio mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn, ac adfer ecosystemau sy'n dod â buddiannau i bobl a bywyd gwyllt.²⁴⁸ Galwodd ar i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru fod yn fodlon y bydd y gyfres o dargedau a osodir yn cyfrannu'n sylweddol at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, a'i hadfer i lefelau iach a gwydn yn y pen draw.²⁴⁹

377. Pwysleisiodd yr Athro Steve Ormerod fod angen i dargedau ganolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na chael eu harwain gan weithredoedd.²⁵⁰ Cafodd hyn ei adleisio gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, RSPB Cymru a Trafnidiaeth Cymru.

378. Ceisiodd RSPB Cymru sicrwydd y byddai targedau lluosog yn cael eu gosod ar gyfer pob maes blaenoriaeth dros amser, gan nodi y byddai un targed yn y meysydd blaenoriaeth hyn yn annigonol.²⁵¹ Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Dr Victoria Jenkins yn rhannu'r farn hon.

379. Ceisiodd cyfranwyr eglurhad ar rai meysydd blaenoriaeth, awgrymwyd newidiadau drafftio iddynt, a thynnwyd sylw at faterion i'w blaenoriaethu o fewn y meysydd hynny.

Lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol

380. Cododd RSPB Cymru bryder y gallai'r maes blaenoriaeth "Lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol" fod yn gyfyngol gan y gallai gael ei ddarllen fel un sy'n canolbwyntio ar y risg o ddiflaniad yn unig, yn hytrach na mesurau ehangach yn ymwneud â rhywogaethau.²⁵² Nododd:

*"It is vital that this framework seeks to drive the recovery not only of threatened species, but also species that are widespread but declining, as well as keeping common species common (this is in keeping with Target 4 and Goal A of the GBF)."*²⁵³

²⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Steve Ormerod

²⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

381. Galwodd ar i'r maes blaenoriaeth gael ei ailddrafftio'n ehangach, gan awgrymu "gwella statws rhywogaethau brodorol".²⁵⁴

Rheoli ecosystemau yn effeithiol

382. Dywedodd RSPB Cymru fod y maes blaenoriaeth "rheoli ecosystemau yn effeithiol" yn gwneud cysylltiad i'w groesawu â tharged adfer ecosystemau (targed 2) a tharged 30 erbyn 30 (targed 3) y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Pwysleisiodd bwysigrwydd targedau sy'n mynd i'r afael â maint a chyflwr ecosystemau – yn hytrach nag ystyried rheolaeth fel dirprwy yn seiliedig ar weithredu yn unig ar gyfer y rhain.

383. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru mai'r maes blaenoriaeth "rheoli ecosystemau yn effeithiol" yw'r mwyaf defnyddiol yn y cyd-destun morol, yn enwedig mewn perthynas â gwydnwch y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

Lleihau llygredd

384. Er bod yr Athro Steve Ormerod yn cefnogi llygredd fel maes blaenoriaeth, cwestiynodd a allai canolbwyntio ar lygredd olygu y byddai'r angen i reoli ffactorau eraill sy'n ysgogi dirywiad mewn bioamrywiaeth, fel diraddio cynefinoedd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, yn cael ei golli.²⁵⁵ Yn ei farn ef, mae yna ragdybiaeth bod rhai o'r ffactorau ysgogi eraill yn cael eu cwmpasu gan y camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd o amgylch gwydnwch ecosystemau neu atal diflaniad.²⁵⁶

385. Mynegodd Dr Victoria Jenkins bryder y gallai fod dryswch ynghylch y targedau llygredd a osodir o dan y Bil ac y gallent orgyffwrdd â thargedau ehangach.²⁵⁷

386. Galwodd WWF Cymru ar i Lywodraeth Cymru osod targed clir i haneru'r maethynnau dros ben sy'n cael eu colli erbyn 2030 fel rhan o'r maes blaenoriaeth llygredd. Ychwanegodd y byddai hyn yn adlewyrchu cytundeb COP15²⁵⁸ ac yn

²⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Steve Ormerod

²⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 159, 9 Gorffennaf 2025

²⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

²⁵⁸ Targed 7 o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yw lleihau risgiau llygredd i lefelau nad ydynt yn niweidiol erbyn 2030.

ysgogi'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus i weithredu er mwyn mynd i'r afael â llygredd dŵr croyw sy'n parhau i fod yn gyffredin ledled Cymru.²⁵⁹

Ansawdd y dystiolaeth ac ati

387. Dywedodd Dr Jenkins ei bod hi'n amlwg bod angen system gadarn o dystiolaeth i danlinellu'r system lywodraethu ar gyfer atal a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth.²⁶⁰ Fodd bynnag, nododd fod y maes blaenoriaeth ansawdd tystiolaeth yn ddryslyd. Roedd o'r farn y byddai'n bwysig i dargedau yn y maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio ar ansawdd tystiolaeth, yn hytrach na mynediad at dystiolaeth a defnyddio a chymhwyso tystiolaeth.

Amserlen ar gyfer targedau meysydd blaenoriaeth

388. Roedd beirniadaeth eang o'r amserlen tair blynedd ar gyfer gosod rheoliadau a fyddai'n pennu'r gyfres gyntaf o dargedau, gyda chyfranwyr yn nodi nad yw'n ddigon uchelgeisiol, yn enwedig yng nghyd-destun y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a thargedau 2030 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

389. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru:

*"The Bill currently requires targets to be set within 36 months of Royal Assent – this timeframe means that targets might not be set until 2029. Given that the target priority areas are based on the GBF 2030 Targets, it would be unacceptable to delay target setting to a point where no measurable progress could be made by 2030. There is a clear risk the urgent change needed to reverse biodiversity loss would be delayed as a result."*²⁶¹

390. Dywedodd RSPB Cymru fod yr amserlen yn annerbyniol o hir o ystyried yr argyfwng natur y mae Cymru yn ei wynebu ar hyn o bryd.²⁶² Cyfeiriodd Ruth Chambers at yr amserlen fel moethusrwydd na allwn ei fforddio. Dywedodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain fod tair blynedd i osod y targedau yn ormodol.²⁶³

²⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, WWF Cymru

²⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

²⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

391. Tynnodd sefydliadau amgylcheddol a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol sylw at y ffaith bod targedau wedi'u gosod ar gyfer Lloegr o fewn 13 mis i Ddeddf y DU dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Ymhellach, yr amserlen arfaethedig i osod targedau ar gyfer yr Alban yw 12 mis (ar ôl i'r adran berthnasol o Fil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) ddod i rym). Dywedodd Ruth Chambers fod llywodraethau eraill wedi gwneud hynny o fewn 12 mis, felly mae'n rhaid i ni ofyn pam na fyddai hynny'n bosibl yng Nghymru?²⁶⁴

392. Wrth eirioli i'r Bil ddarparu ar gyfer amserlen fwy uchelgeisiol, nododd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol:

"Given the urgency of the biodiversity crisis in Wales...action should not be delayed until all information is available. Committing to early and ambitious targets can help front-load mitigation, delivering environmental, health and economic benefits earlier in the target period.

*Introducing such targets would also help drive earlier action, accountability and investment, allowing relevant stakeholders to adapt practices and deliver meaningful change early. Furthermore, acting sooner enables better alignment [of] efforts across the UK, increasing coherence and amplifying the collective impact to shared environmental challenges."*²⁶⁵

393. Nododd sefydliadau amgylcheddol fod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud tuag at ddatblygu targedau a dangosyddion addas. Roedden nhw o'r farn y byddai amserlen o 12 mis yn gyflawnadwy, a galwyd ar i'r Bil gael ei ddiwygio i'r perwyl hwn.

394. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i ymgymryd â dau brosiect (ar ddangosyddion bioamrywiaeth posibl a modelu senarios ar gyfer targedau) i lywio'r gwaith o ddatblygu targedau. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar y cynnydd hyd yma. Esboniodd y Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur y byddai gwaith ar ddangosyddion posibl yn cael ei gwblhau ym mis Hydref 2025, gyda'r posibilrwydd y byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar ddatblygu

²⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 17 Gorffennaf 2025

²⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

dangosyddion, yn amodol ar angen a'r adnoddau sydd ar gael. Roedd disgwyl i'r gwaith ar fodelu senarios gael ei gwblhau oddeutu mis Mehefin 2026.

395. Mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi cefnogi datblygu targedau ar gyfer Lloegr a'r targedau arfaethedig ar gyfer yr Alban. Wrth sôn am yr amserlen ar gyfer datblygu targedau, dywedodd Beth Stoker (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur) fod profiad a thystiolaeth yn awgrymu y gallai'r targedau gael eu datblygu o fewn amserlen dynn o 12 mis.²⁶⁶ Ychwanegodd ei bod yn deall bod yna faterion sy'n benodol i'r Gymraeg a allai olygu bod angen amserlen hirach yng Nghymru.²⁶⁷

396. Esboniodd Dŵr Cymru y bydd amseru'r targedau yn hollbwysig i gwmnïau dŵr, a thynnwyd sylw at yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol mewn cynigion buddsoddi. Galwodd ar i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad cynnar trwy ganllawiau strategol, gan gynnwys eu hymgorffori mewn Datganiadau Cyfeiriad Strategol.²⁶⁸

Y broses o osod targedau

397. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar y broses o osod targedau (adran newydd 6D o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil)).

398. Dywedodd RSPB Cymru y bydd y gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi crynodeb o gyngor annibynnol o dan y ddarpariaeth gosod targedau yn darparu rhywfaint o dryloywder.²⁶⁹ Fodd bynnag, galwodd ar i'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried y cyngor hwnnw, yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ym Mil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban).

399. Pwysleisiodd sawl cyfrannwr bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoeddus cyn gwneud rheoliadau i osod targedau.

400. Galwodd Dŵr Cymru am broses ymgynghori glir ar yr holl reoliadau a wneir o dan y Bil, gan gynnwys y rhai i osod targedau.²⁷⁰

401. Ailadroddodd yr Athro Maria Lee yr angen am ofyniad i ymgynghori â'r cyhoedd, sy'n gyson â Chonfensiwn Aarhus.

²⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 17 Gorffennaf 2025

²⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 247, 17 Gorffennaf 2025

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

²⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

402. Galwodd academyddion o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac UNESCO-MOST bridges²⁷¹ am ofyniad i ymgynghori â grwpiau cymunedol, sefydliadau treftadaeth lleol a deiliaid gwybodaeth ansefydliadol eraill cyn gwneud rheoliadau.²⁷²

403. Pwysleisiodd y Gynghrair Cefn Gwlad bwysigrwydd ymgynghori â'r sector ffermio ac eraill y mae'r targedau yn debygol o effeithio arnynt. Yn yr un modd, roedd NFU Cymru o blaid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â thirfeddianwyr a'u cynrychiolwyr, o ystyried effaith bosibl targedau ar ddefnydd/rheoli tir. Ychwanegodd y gallai methu ag ymgynghori niweidio neu roi straen ar y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a ffermwyr.

404. Galwodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar i Awdurdodau Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru fod yn ymgynghoreion statudol ar gyfer y rheoliadau gosod targedau.

Adolygu targedau

405. Mae adran newydd 6G o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru adolygu targed "o bryd i'w gilydd". Ymhellach, mae'n ofynnol iddynt adolygu targed os ymddengys iddynt ei bod yn bosibl na fydd y targed yn cael ei gyrraedd, neu nad yw'r targed yn briodol mwyach.

406. Cododd llawer o gyfranwyr bryder bod y darpariaethau adolygu yn rhoi disgresiwn llwyr i Weinidogion Cymru ynghylch a ddylid adolygu targedau a phryd. Roedd galwadau ar i'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad ar gyfer adolygu targedau yn rheolaidd.

407. Dywedodd Ruth Chambers y gallai galluogi Gweinidogion Cymru i adolygu targedau o "bryd i'w gilydd" fod yn ddechrau llethr llithrig iawn, a'i fod yn rhoi'r cyfle mwyaf posibl i Weinidogion y dyfodol gymylu pethau pe baent am wneud hynny.²⁷³ Ychwanegodd:

"From time to time' could mean tomorrow, it could mean in three months, it could mean in 20 years; we just simply don't know. So, I don't think it would be unreasonable to ask for a

²⁷¹ Mae UNESCO-MOST BRIDGES yn glymblaid gwyddoniaeth gynaliadwyedd drawsddisgyblaethol a ysgogir gan y dyniaethau sy'n canolbwyntio ar ddatrys y problemau cymdeithasol y mae Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn tynnu sylw atynt.

²⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, Gareth Thomas, Louise Steel a Luci Attala, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac UNESCO-MOST

²⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 17 Gorffennaf 2025

more specific and sensible timescale to be put into the Bill for reviewing targets".²⁷⁴

408. Tynnodd RSPB Cymru, y Gynghair Werdd a'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol sylw at y ffaith ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, o dan Ddeddf y DU, adolygu targedau amgylcheddol (gan gynnwys targedau bioamrywiaeth) bob tair blynedd.²⁷⁵ Ymhellach, mae Bil yr Alban yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban adolygu targedau bioamrywiaeth bob deng mlynedd.²⁷⁶

409. Nododd RSPB Cymru y byddai gofyniad i adolygu'r targedau'n rheolaidd, ynghyd â gofyniad i geisio cyngor annibynnol, yn galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cyfres digon uchelgeisiol o dargedau bioamrywiaeth yn cael ei sefydlu a'i chynnal yn yr hirdymor.²⁷⁷ Cafodd hyn ei adleisio gan Cyfeillion y Ddaear Cymru:

410. Dywedodd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol:

"[A requirement for regular review] would ensure that targets remain ambitious, evidence-based, and responsive to emerging challenges. It would also provide a clear cadence for progress, helping to maintain momentum and public confidence. Waiting until all conditions are ideal before acting risks delaying the very interventions needed to reverse environmental decline."²⁷⁸

411. Awgrymodd UKELA a Dr Victoria Jenkins y dylai'r targedau gael eu hadolygu'n rheolaidd, er enghraifft, bob tair neu bum mlynedd. Awgrymodd NFU Cymru y dylid cynnal adolygiadau ar gyfnodau addas, er enghraifft, y pwynt canol, er mwyn sicrhau bod y targedau yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.²⁷⁹

²⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 17 Gorffennaf 2025

²⁷⁵ Mae Deddf y DU yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adolygu targedau amgylcheddol a osodwyd o dan y Ddeddf bob pum mlynedd o'r adolygiad cyntaf, a oedd yn ofynnol erbyn 31 Ionawr 2023. Pwrpas yr adolygiad yw ystyried a fyddai'r targedau (a thargedau perthnasol eraill) yn gwella'r amgylchedd naturiol yn Lloegr yn sylweddol. Yn dilyn yr adolygiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol adrodd i Senedd y DU.

²⁷⁶ Mae Bil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion yr Alban i adolygu ac adrodd ar dargedau a osodwyd o dan y Bil unwaith bob deng mlynedd. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion yr Alban i adolygu'r targedau fel y maent yn ystyried ei fod yn briodol.

²⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

²⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NFU Cymru

Dirymu neu ostwng targedau

412. Mae adran newydd 6H(1) o Ddeddf 2016) (i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil) yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i ddirymu neu ostwng targed ac mae'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir eu dirymu neu eu gostwng.

413. Derbyniwyd yn gyffredinol bod angen y pŵer i ddirymu neu ostwng targedau yn angenrheidiol er mwyn darparu hyblygrwydd dros y tymor hwy. Fodd bynnag, galwodd WildFish ar i'r pŵer gael ei ddileu, gan ddweud y byddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru symud y pyst gôl yn ddiweddarach.²⁸⁰

414. Gofynnodd nifer o gyfranwyr am eglurhad ynghylch yr amgylchiadau y gellir arfer y pŵer i osod targedau oddi tanynt i'w dirymu neu eu gostwng, neu codwyd pryderon yn eu cylch.

415. Pwysleisiodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod angen sicrhau nad yw targedau'n cael eu lleihau i'r fath raddau fel eu bod yn tanseilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd y targedau.²⁸¹ Ychwanegodd:

*"As drafted, future Governments could seek to undermine the delivery against the biodiversity targets by re-setting targets of substantially reduced ambition, resulting in backsliding which nature can't afford."*²⁸²

416. Nododd Dr Victoria Jenkins ei bod yn ymddangos bod yr amgylchiadau yn rhoi llawer o ddisgresiwn i Lywodraeth Cymru, a galwodd ar i'r hyn a ddrafftwyd ar gyfer adran newydd 6H(1) gael ei dynhau.²⁸³ Mynegwyd barn debyg gan lechyd Cyhoeddus Cymru.

417. Awgrymodd RSPB Cymru y dylid ystyried ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddisodli targed sy'n cael ei ddirymu gyda tharged arall. Esboniodd fod darpariaeth debyg wedi'i chynnwys ym Mil yr Amgylchedd Naturiol (Yr Alban), gan ddweud ei bod yn ymddangos bod hyn yn darparu mesur i ddiogelu targedau bioamrywiaeth rhag cael eu gollwng.²⁸⁴

418. Awgrymodd Cyfeillion y Ddaear Cymru a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Cymru y dylai'r Bil ei gwneud yn glir y byddai darpariaethau i ddirymu neu ostwng

²⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, WildFish

²⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

²⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

²⁸⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

targedau yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod targedau mwy uchelgeisiol pe bai angen.

Datganiad am dargedau

419. Mae adran newydd 6I o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil) yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud datganiad ynghylch targed.

420. Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiad nad yw targed wedi'i gyrraedd, rhaid iddynt, o fewn 12 mis, osod a chyhoeddi adroddiad sy'n esbonio pam nad yw'r targed wedi'i gyrraedd, a'r camau y maent wedi'u cymryd, neu y maent yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau y cyrhaeddir y targed "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol".

421. Dywedodd RSPB Cymru fod 12 mis yn ymddangos yn gyfnod rhy hir, yn enwedig o ystyried, os nad yw targed wedi'i gyrraedd, ei bod yn debygol y bydd angen cymryd camau adferol ar frys.²⁸⁵ Galwodd ar i adroddiadau gael eu gosod a'u cyhoeddi o fewn chwe mis. Cododd Dr Victoria Jenkins bryder fod "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol" yn rhy amwys ac y gallai fod yn arwyddocaol wrth arafu cynnydd.²⁸⁶

Data a monitro bioamrywiaeth

422. Tynnodd llawer o gyfranwyr sylw at y ffaith y byddai monitro o ansawdd uchel ag adnoddau priodol yn hanfodol i gyrraedd targedau bioamrywiaeth. Nododd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur:

*"... effective delivery requires robust local monitoring and evaluation mechanisms that can capture spatial variation, inform place-based decision-making, and support adaptive management. Strengthening these elements is critical to ensuring that setting biodiversity targets leads to tangible outcomes on the ground."*²⁸⁷

423. Nododd llawer o gyfranwyr y gallai adnoddau annigonol ar gyfer monitro fod yn rhwystr posibl i weithredu Rhan 3 yn effeithiol. Dywedodd yr Athro Steve Ormerod fod adnoddau eisoes yn faes sy'n peri pryder wrth fonitro sefydliadau,

²⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

²⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Victoria Jenkins

²⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

gan nodi bod ein gallu i fonitro newid amgylcheddol yn dirywio, yn hytrach na'n cynyddu.²⁸⁸

424. Dywedodd yr Athro Colin Reid fod y broses o gasglu data ar fioamrywiaeth yn un dameidiog ar hyn o bryd a'i bod yn dibynnu'n helaeth ar fewnbwn gwirfoddol.²⁸⁹ Nododd hefyd fod angen talu sylw i'r ffordd y caiff data ei gasglu a'i wneud ar gael.²⁹⁰

425. Pwysleisiodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Cymru bwysigrwydd sicrhau bod data sylfaenol yn gywir ac yn gynhwysfawr i osgoi rheoleiddio anghymesur er mwyn gweithredu'n bwyllog, yn hytrach nag ymyriadau wedi'u targedu yn seiliedig ar dystiolaeth safle-benodol.²⁹¹

426. Tynnodd sawl cyfrannwr sylw at rôl pobl a sefydliadau lleol wrth fonitro. Dywedodd academyddion o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac UNESCO-MOST y dylai'r Bil gydnabod cyfreithlondeb tystiolaeth yn seiliedig ar gymuned a threftadaeth.²⁹²

427. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Athro Steve Ormerod y dylai fframweithiau monitro gynyddu rolau gwyddor y dinesydd a chynnwys cyfleoedd i gydweithio.

428. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru ar i'r Bil gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod data ar gael at ddibenion monitro cynnydd tuag at y targedau bioamrywiaeth. Tynnodd sylw at adran 16 o Ddeddf y DU fel enghraifft y gellir ei defnyddio. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y byddai hyn yn sicrhau y byddai'r gwaith i gynyddu capasiti monitro yn dechrau ar unwaith, yn hytrach nag aros i darged gael ei osod o dan y maes blaenoriaeth ansawdd tystiolaeth ac ati.

Adran 34 – Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus

429. Mae adran newydd 6F o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 33 o'r Bil) yn galluogi Gweinidogion Cymru drwy reoliadau i ddynodi awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru

²⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 173, 9 Gorffennaf 2025

²⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Colin Reid

²⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Yr Athro Colin Reid

²⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

²⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, Gareth Thomas, Louise Steel a Luci Attala, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac UNESCO-MOST

ymgyngori â'r awdurdod perthnasol ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol".

430. Mae adran 34 yn diwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i ychwanegu darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus a ddynodwyd o dan adran newydd 6F gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd targed y mae wedi'i ddynodi mewn perthynas ag ef.

431. Bwriedir i'r darpariaethau hyn ategu'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol yn adran 6 o Ddeddf 2016 (y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol)²⁹³, sydd wedi bod yn destun beirniadaeth sylweddol gan sefydliadau amgylcheddol, Archwilio Cymru²⁹⁴ a'r Pwyllgor hwn²⁹⁵.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

432. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr a wnaeth sylwadau ar ddynodi a'r ddyletswydd gysylltiedig yn gefnogol i'r dull a fabwysiadwyd ar y cyfan. Fodd bynnag, galwodd rhai cyfranwyr am eglurhad ar yr hyn y byddai dynodi yn ei olygu yn ymarferol a/neu codwyd pryder ynghylch hynny.

433. Dywedodd Annie Smith fod gan awdurdodau cyhoeddus rôl sylfaenol i'w chwarae wrth gyflawni targedau. Cyfeiriodd at y gwendidau yn y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol, gan awgrymu y gallai dynodi a'r ddyletswydd gysylltiedig helpu i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd:

"it is really welcome that the Bill thinks about a way of binding public authorities into delivery... I think the question is: what's the best way of enabling this bit of the Bill to almost act as something that gives new responsibilities to those public authorities, so that it is absolutely in their remit to be delivering for biodiversity and contributing to those targets?"²⁹⁶

²⁹³ Mae adran 6(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (a ddiffinnir yn adran 6(9) o'r Ddeddf) i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, a thrwy wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, i'r graddau y mae'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

²⁹⁴ Yn ei adroddiad, Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (Mawrth 2025), canfu Archwilio Cymru nad oedd y ddyletswydd yn cael ei gweithredu'n dda. Gwnaeth gyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru gyda'r nod o fynd i'r afael â hyn.

²⁹⁵ Yn ei adroddiad, Atal a gwrthdroi colled natur erbyn 2030 (Ionawr 2025), canfu'r Pwyllgor ddiffygion wrth weithredu'r ddyletswydd a gwnaeth sawl argymhelliad gyda'r nod o fynd i'r afael â'r rhain.

²⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 17 Gorffennaf 2025

434. Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod y dull a fabwysiadwyd yn debygol o olygu na fydd angen i'r sector cyhoeddus ehangach gyfrannu at dargedau natur cyn y dyddiad cau 30x30, a bod cyfle wedi'i golli yn hyn o beth.²⁹⁷

435. Cododd Hafren Dyfrdwy bryder am yr hyn y byddai'n ofynnol i gwmnïau dŵr ei wneud pe baent yn cael eu dynodi. Dywedodd:

*"Given that water companies now have statutory biodiversity [Outcome Delivery Incentives] to deliver against, we would want reassurance that this would not result in an expectation of delivering more than our 'fair share'."*²⁹⁸

436. Aeth ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd cydbwysu uchelgais â fforddiadwyedd biliau dŵr, gan ychwanegu na ddylai cwmnïau dŵr gael eu rhoi mewn sefyllfa lle nad ydynt yn cael eu hariannu ar gyfer rhwymedigaeth ychwanegol.²⁹⁹

437. Pwysleisiodd CLILC fod angen sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o bwerau i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol at gyflawni targedau, yn enwedig drwy'r gyfundrefn gynllunio.

438. Awgrymodd Archwilio Cymru a CLILC fod angen eglurder pellach ynghylch pa awdurdodau cyhoeddus a allai gael eu dynodi, a thrwy hynny fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd newydd. Mae hyn yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru ar weithredu'r ddyletswydd bioamrywiaeth (Mawrth 2025), a ganfu fod ansicrwydd ynghylch pa awdurdodau sy'n cael eu cwmpasu gan y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol. Yn ei adroddiad, argymhellodd Archwilio Cymru y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi rhestr o'r awdurdodau a gwmpesir gan y ddyletswydd bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud hyn erbyn diwedd 2025.

439. Dywedodd Archwilio Cymru wrth y Pwyllgor:

"Er mwyn cynnal eglurder yn dilyn y gwelliant a fewnosodwyd gan adran 34(4) o'r Bil, credwn y bydd angen i Lywodraeth Cymru ddarparu rhestrau ychwanegol (neu restr wedi'i rhannu'n segmentau) sy'n nodi pa gyrff sy'n dod o dan y

²⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

²⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hafren Dyfrdwy

²⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Hafren Dyfrdwy

*dyletswyddau penodol (dyletswydd adran 6(5)(d) a dyletswydd adran 6(2A)).*³⁰⁰

440. Roedd sawl cyfrannwr o'r farn y dylai pob awdurdod cyhoeddus fod â rôl wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau, yn hytrach nag awdurdodau a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru.

441. Roedd UKELA yn eirioli dros osod ddyletswydd gyffredinol ar awdurdodau i ystyried sut y gallai eu swyddogaethau gael eu cyflawni mewn modd sy'n cyflawni'r amcan o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.³⁰¹

442. Galwodd Cyswllt Amgylchedd Cymru am ddyletswydd ar bob awdurdod i gyflawni ac adrodd yn erbyn y targedau bioamrywiaeth.³⁰²

443. Awgrymodd Climate Cymru y dylid ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyflawni'r targedau adfer natur hyn lle mae eu swyddogaethau yn effeithio ar natur.³⁰³

Pwysigrwydd cyllid

444. Pwysleisiodd cyfranwyr fod angen i awdurdodau dynodedig gael eu hariannu'n briodol i gymryd camau i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau.

445. Dywedodd Alex Phillips:

*"I think that [designation and the associated duty] could actually really change things, but this can't be an excuse for Welsh Government to just palm off responsibility onto other bodies. It needs to come with money to do that as well, and sufficient wider resources."*³⁰⁴

446. Yn ôl Ruth Chambers, ni fydd targedau yn cyflawni eu hunain, felly gallai neilltuo'r cyfrifoldeb hwnnw fod yn wirioneddol arwyddocaol. Nododd na ddylai hyn ddigwydd heb adnoddau.³⁰⁵

³⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilio Cymru

³⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, UKELA

³⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyswllt Amgylchedd Cymru

³⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Climate Cymru

³⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 168, 17 Gorffennaf 2025

³⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 170, 17 Gorffennaf 2025

447. Nododd Jean-Francois Dulong (CLILC) fod adnoddau, cyllid, arbenigedd a gallu yn rhwystrau sy'n atal awdurdodau lleol rhag ysgogi gweithredu ar fioamrywiaeth.³⁰⁶ Er ei fod yn croesawu'r camau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd hyd yma i gefnogi awdurdodau, dywedodd nad oedd yn ddigonol i sicrhau bod y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Cyfeiriodd at yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2025, a ganfu fod y ddyletswydd yn cael ei gweithredu'n wael ar draws y sector cyhoeddus.

448. Ychwanegodd Jean-Francois Dulong:

"if we are already failing in some aspects of the [existing biodiversity duty], I am not sure how strengthening the section 6, without adequate funding, is going to solve the problem".³⁰⁷

449. Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod y ddyletswydd yn fandad sylweddol, heb ei ariannu, gan ychwanegu:

"Meaningful action beyond our existing response function and greening activities within the current estate will require new investment and without a clear "new burdens" funding commitment from the Welsh Government, this duty has the potential to divert funds from other activity or remain unfunded and conceptual."³⁰⁸

450. Cafodd hyn ei adleisio gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a rybuddiodd y byddai'r ddyletswydd yn dargyfeirio arian hanfodol o'i swyddogaethau diogelu bywyd craidd heb adnoddau ychwanegol, gan greu risg annerbyniol i'r cyhoedd.³⁰⁹

Canllawiau i gefnogi gweithredu

451. Nid oes unrhyw ofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i helpu awdurdodau cyhoeddus dynodedig i gydymffurfio â'u dyletswyddau newydd o dan Ran 3 o'r Bil (h.y. y ddyletswydd i gyfrannu at gyflawni targedau a'r dyletswyddau cynllunio ac adrodd cysylltiedig). Yn ôl y ME, mae Llywodraeth

³⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 18 Medi 2025

³⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 18 Medi 2025

³⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

³⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cymru yn bwriadu adolygu a diweddarau'r canllawiau ar y ddyletswydd bioamrywiaeth i gyd-fynd â Rhan 3.

452. Roedd barn gyffredinol y bydd angen canllawiau clir ac amserol i helpu awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd (o dan bob Rhan o'r Bil, gan gynnwys y dyletswyddau cynllunio ac adrodd newydd). Dywedodd Dŵr Cymru y bydd llwyddiant y Bil yn dibynnu'n fawr ar ansawdd y canllawiau. Ychwanegodd, os yw'r deunyddiau hyn yn destun oedi neu os nad ydynt yn ddigon clir, efallai y bydd awdurdodau cyhoeddus yn ei chael hi'n anodd deall a chyflawni eu rhwymedigaethau.³¹⁰

453. Awgrymodd Jean-Francois Dulong y byddai gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i gefnogi gweithredu'r ddyletswydd newydd yn fuddiol.

454. Dywedodd Archwilio Cymru fod ei adroddiad ym mis Mawrth 2025 yn tynnu sylw at "bryderon penodol a godwyd gan awdurdodau cyhoeddus ynghylch canllawiau a gwybodaeth ategol ynghylch [y d]dyletswydd [bioamrywiaeth]". Dywedodd:

*"The Bill (when enacted) will no doubt be accompanied by new guidance. This provides a key opportunity to review and refresh existing guidance. However, the Welsh Government will need to be mindful of the inherent risk that new guidance could add to current complexities and confusion for public authorities. Any new guidance will need to be clear about how expectations and requirements from the Bill will interact with those set out in the 2016 Act."*³¹¹

Adran 35 – Cynlluniau Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf 2016

455. Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) i gyhoeddi cynlluniau sy'n nodi'r camau gweithredu maent yn bwriadu eu cymryd i fodloni'r ddyletswydd bioamrywiaeth.

456. Mae adran 35 o'r Bil yn diwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn eu cynllun (y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn fel y cynllun estynedig): y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau

³¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

³¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Dŵr Cymru

bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyrraedd, pryd y maent yn bwriadu cymryd y camau hynny a sut y bydd y targedau, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

457. Croesawodd RSPB Cymru y gofyniad newydd, gan ddweud:

*"The connection to statutory targets, and Welsh Ministers' duty to ensure the targets are met, should make this process more robust than current arrangements [under section 6], with clear additional opportunities to hold Government to account."*³¹²

458. Er na roddodd yr OEP sylwadau uniongyrchol ar adran 35, pwysleisiodd bwysigrwydd "cynllunio a thryloywder wrth nodi sut mae targedau i'w cyflawni".³¹³ Nododd:

*"Statutory targets should be supported by statutory requirements for delivery plans that ensure clear, sufficiently detailed and plausible delivery pathways are in place and followed. This is not least so that all who are to play their part understand the contribution they are intended to make, and so progress can be properly tracked and delivery pathways adjusted if needed."*³¹⁴

459. Tynnodd RSPB Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at yr angen am ddull trawslywodraethol o gyflawni targedau ac i'r cynllun estynedig adlewyrchu hyn. Nododd RSPB Cymru, o dan Ran 1 o Ddeddf 2016, fod yn rhaid i gynllun sero net Llywodraeth Cymru nodi cynigion a pholisïau sy'n cwmpasu meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru. Awgrymodd y dylai gofyniad tebyg gael ei gynnwys yn y Bil o ran y cynllun estynedig.

460. Tynnodd RSPB Cymru sylw at y diffyg gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgysylltu/ymgyngori â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r cynllun estynedig.

³¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

³¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

³¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, OEP

Adran 36 – Adroddiadau o dan adran 6 o Ddeddf 2016

461. Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn gosod gofynion ar awdurdodau cyhoeddus a Gweinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithredu'r ddyletswydd bioamrywiaeth bob tair blynedd.

462. Mae adran 36 yn diwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol i:

- awdurdod cyhoeddus esbonio mewn adroddiad beth mae wedi'i wneud i gyfrannu at gyrraedd y targed bioamrywiaeth y mae wedi'i ddynodi iddo (pan fo hynny'n berthnasol);
- Gweinidogion Cymru egluro yn eu hadroddiad y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau bioamrywiaeth a osodir, ac a ydynt yn debygol o gael eu cyrraedd.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

463. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar adran 36.

464. Cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei adroddiad ym mis Mawrth 2025, a ganfu fod “y dulliau adrodd presennol [o ran y ddyletswydd bioamrywiaeth] yn anghyson ac o ansawdd amrywiol”. Wrth wneud sylwadau ar adran 36, awgrymodd fod gan y gofynion adrodd newydd “botensial i helpu i gryfhau monitro ac adrodd [o dan adran 6 o Ddeddf 2016]”.³¹⁵

465. Cododd Archwilio Cymru bryder, er gwaethaf y gofynion adrodd amrywiol yn Rhan 3, “yn ymarferol, efallai na fydd adroddiad cyffredinol sy'n nodi gweithgaredd ac effeithiau'r holl awdurdodau cyhoeddus perthnasol mewn perthynas â thargedau bioamrywiaeth”.³¹⁶ Tynnodd sylw at ei argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu adroddiadau sy'n rhoi golwg gyffredinol ar gamau gweithredu, cynnydd a chydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â'r ddyletswydd.

Cylchoedd adrodd

466. Roedd Dŵr Cymru ac NFU Cymru o'r farn ei bod yn bosibl na fydd y cylch adrodd tair blynedd presennol yn caniatáu digon o amser i asesu effeithiolrwydd mesurau. Dywedodd Dŵr Cymru y gallai fframwaith adrodd tymor hwy, wedi'i gefnogi gan ddiweddariadau interim symlach, ddarparu asesiad mwy ystyrlon o

³¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilio Cymru

³¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilio Cymru

gynnydd. Mynegodd NFU Cymru farn debyg, gan awgrymu y dylid pennu cylch adrodd pum mlynedd ar gyfer targedau hirdymor, a chylch tair blynedd ar gyfer targedau byrdymor.

Adran 37 – Adroddiad gwerthuso

467. Mae adran 37 yn diwygio Deddf 2016 i ychwanegu adran newydd 6A sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'adroddiad gwerthuso' cyn diwedd 2031 a phob tair blynedd wedi hynny. Rhaid i'r adroddiad gwerthuso amlinellu asesiad Gweinidogion Cymru o effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn eu cynlluniau i gynnal a gwella bioamrywiaeth o dan adran 6 o Ddeddf 2016.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

468. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar adran 37.

469. Dywedodd RSPB Cymru na ddylai Gweinidogion Cymru fod yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd cynlluniau bioamrywiaeth ar eu pennau eu hunain. Awgrymodd y dylid rhoi rôl werthuso i SLIAC yn debyg i rôl yr OEP o ran cynlluniau amgylcheddol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Archwiliwyd y mater hwn yn fanylach ym mharagraffau 198 i 205.

Adran 38 – Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth

470. Mae adran 38 yn diwygio Deddf 2016 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth yng Nghymru.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

471. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar adran 38.

472. Er bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn croesawu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth, dywedodd nad oedd yn cynnwys digon o fanylion.

473. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel rhan o'r ddyletswydd, y dylai Gweinidogion Cymru hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth i iechyd a lles pobl.

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

Adran 33

“Targed pennawd” neu “ddatganiad cenhadaeth”

474. Pan ofynnwyd iddo am y symudiad i ffwrdd o “ddatganiad cenhadaeth”, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“instead of a mission statement, which...would have been a declaratory statement, the Bill incorporates our ambition to tackle the nature emergency through how the powers and duties in the Bill interact...We think that this new approach...reflects the intent of the previously proposed mission statement. In fact, it takes a further step, because it sets out the specific aspects of biodiversity that we must contribute to. So, we’ve done it in a different way, but we think in a much more explicit way and a way that will drive that in trying to halt and reverse biodiversity loss.”³¹⁷

Targed 2035 ar gyfer toreithrwydd rhywogaethau

475. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dull a fabwysiedir yn y Bil yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddull sy’n seiliedig ar ecosystemau, sy’n canolbwyntio ar iechyd a gwydnwch yr ecosystem gyffredinol honno. Nododd:

“It gives that much more holistic, sustainable pathway to nature recovery in the round. So, if we go for a headline species abundance target, it would diverge from this ecosystem-based approach, which underpins all of our environmental policies, which are well established...[and] based on the global biodiversity framework approach”.³¹⁸

476. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y Bil yn adlewyrchu pwysigrwydd toreithrwydd rhywogaethau, gan ychwanegu:

“[It] is as a key consideration for Welsh Ministers in setting out our targets. So, in setting the targets, Welsh Ministers, I and

³¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 131, 26 Mehefin 2025

³¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 218, 18 Medi 2025

*others have got to be satisfied that those targets contribute to halting and reversing biodiversity decline, and in particular that they contribute to increasing the abundance of native species or enhancing the resilience of ecosystems and increasing genetic diversity”.*³¹⁹

477. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai cynnwys targed toreithrwydd rhywogaethau yn golygu gwneud hynny heb ymgymryd â'r modelu senarios angenrheidiol i'n galluogi i gyrraedd y targed llawer mwy penodol, mesuradwy, cyraeddadwy a realistig hwnnw.³²⁰ Ychwanegodd y gallai gosod targed o'r fath heb ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid beryglu cyflawnadwyedd.

Hyd y targed

478. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Cabinet pam nad yw'r Bil yn sôn am hyd targedau. Dywedodd y byddai hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fabwysiadu dull llawer mwy hyblyg ac yn caniatáu i dargedau byrdymor, tymor canolig a hirdymor gael eu gosod.³²¹

479. Ychwanegodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*“This...reflects the complexities of our environmental systems...So for example, setting the target to determine the condition of all our protected sites is likely to be a very short-term target. However, a habitat extent and condition target is likely to be a longer timeframe. It can take decades for some habitats to be turned around and to become well established.”*³²²

480. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn agored i awgrymiadau ar gyfer sut i gynnwys hyd targedau yn y Bil, tra'n caniatáu hyblygrwydd i osod ystod ystyrlon o dargedau.

Meysydd blaenoriaeth

481. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y meysydd blaenoriaeth wedi'u datblygu yng nghyd-destun y 23 o dargedau yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac yn dilyn ymgysylltu a blaenoriaethu helaeth gydag ystod o randdeiliaid.³²³

³¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 219, 18 Medi 2025

³²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 220, 18 Medi 2025

³²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 18 Medi 2025

³²² Cofnod y Trafodion, paragraff 221, 18 Medi 2025

³²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 136, 26 Mehefin 2025

Dywedodd ei fod yn hyderus eu bod yn mynd i'r afael â'r heriau a'r materion bioamrywiaeth mwyaf brys yng Nghymru.³²⁴

482. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet nad yw'r maes blaenoriaeth ar gyfer lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol yn atal gosod targed sy'n mynd i'r afael â thoreithrwydd, dosbarthiad neu ddiflaniad.³²⁵ Ychwanegodd:

"in considering how [the] target-setting requirements work alongside the priority areas, this provides additional confidence that targets will be set that reflect the importance of other species than those only at risk of extinction".³²⁶

Amserlen ar gyfer targedau meysydd blaenoriaeth

483. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor fod gwaith i lywio datblygiad targedau yn digwydd ar gyflymder.³²⁷ Dywedodd fod disgwyl i waith y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar fodelu senarios ddechrau'n fuan ac y byddai'n debygol o gymryd 12 mis i'w gwblhau. Nododd y bydd y gwaith hwn yn darparu'r sylfaen dystiolaeth fel y gellir gosod y lefelau targed priodol ar gyfer Cymru.³²⁸

484. Esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet, yn dilyn datblygu targedau, y byddai angen amser i gyflwyno rheoliadau, a fyddai'n cynnwys cwblhau asesiadau effaith, ymgynghoriad cyhoeddus, drafftio rheoliadau, a chamau gweithdrefnol yn y Senedd. Nododd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau ymlaen llaw, os yw'n bosibl iddi wneud hynny.³²⁹

485. Wrth sôn am yr amser a gymerwyd i osod targedau ar gyfer Lloegr, esboniodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dystiolaeth a'r dadansoddiad a oedd yn sail i'r targedau hynny wedi cymryd dwy flynedd. Nododd fod amseriad y targedau arfaethedig ar gyfer yr Alban yn parhau i fod yn ansicr oherwydd y darpariaethau cychwyn y Mil yr Alban.

486. Pwysleisiodd yr Ysgrifennydd Cabinet pa mor bwysig ydyw bod amser yn cael ei gymryd i gael y targedau'n iawn. Cyfeiriodd at adroddiad diweddar gan yr OEP, a ganfu fod modelu DEFRA ar gyfer targed toreithrwydd rhywogaethau 2030

³²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 136, 26 Mehefin 2025

³²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 18 Medi 2025

³²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 18 Medi 2025

³²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 145, 26 Mehefin 2025

³²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 147, 26 Mehefin 2025

³²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 26 Mehefin 2025

wedi dioddef oherwydd ei fod wedi symleiddio rhagdybiaethau a bylchau data.³³⁰ Nododd:

“They leapt to it. They went for it. And that undermined it as a target. So, we’re trying to learn from DEFRA’s experience and other people’s experience. So, we have templated a more conservative timeline—I acknowledge that—in developing these targets, but we believe this is important because it will allow us to much more accurately develop our model assumptions, get it right, and lead to much more concrete target ambitions that are really tangible, really measurable, and can be delivered.”³³¹

487. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet wrth y Pwyllgor y byddai amserlen o 12 mis ar gyfer gosod targedau yn cyfyngu’n sylweddol ar y gwaith manwl a’r modelu y byddai modd iddynt eu gwneud.³³² Ychwanegodd y gallai, o bosibl, leihau lefel ein targedau, oherwydd byddai’n rhaid i ni neidio at dargedau symlach, mwy bras, a thargedau gwael efallai.³³³

Y broses o osod targedau

488. Gofynnodd y Pwyllgor i’r Ysgrifennydd Cabinet pam nad yw’r Bil yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau gosod targedau. Dywedodd, er nad oes darpariaeth benodol yn y Bil, y byddai’n disgwyl i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal, yn unol â pholisi ymgynghori presennol Llywodraeth Cymru.

489. Ychwanegodd swyddog yr Ysgrifennydd Cabinet, wrth wneud rheoliadau, fod yn rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso’r egwyddorion o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, sy’n cynnwys gwneud trefniadau priodol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau.

Adolygu targedau

490. Pan ofynnwyd i’r Ysgrifennydd Cabinet pam nad oes gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu targedau yn rheolaidd, dywedodd:

³³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 18 Medi 2025

³³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 18 Medi 2025

³³² Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 18 Medi 2025

³³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 18 Medi 2025

“every three years we are compelled to have a progress report, and that progress report can help identify whether targets need reviewing because they are out of date, they are no longer relevant, they are not doing what they were intended to do, we have got some more evidence, and so on. So, that’s why we have got ‘from time to time’.”³³⁴

491. Ychwanegodd ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targed os yw’n ymddangos na fydd y targed yn cael ei gyrraedd o bosibl, neu nad yw’r targed yn briodol mwyach.

Dirymu a gostwng targedau

492. Wrth esbonio’r rhesymeg dros y pŵer i ddirymu a gostwng targedau, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet:

“Fel arfer, mae pŵer i wneud rheoliadau yn cynnwys hefyd y pŵer i wneud rheoliadau dilynol sy’n diwygio neu’n dirymu’r rheoliadau cynharach (adran 18 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Mae’r Bil yn cyfyngu ar y pŵer hwn, gan gyfyngu ar yr amgylchiadau lle caiff Gweinidogion Cymru [ei ddefnyddio]...[i atal lleihau] uchelgais heb reswm.”³³⁵

493. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei fod yn agored i gynnwys darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddisodli targed a ddirymwyd gyda tharged amgen newydd.³³⁶ Ychwanegodd y gallai darpariaeth o’r fath fod yn ychwanegiad eithaf gwerthfawr i’r Bil ac y gallai helpu i gryfhau ei effaith a’i uchelgais ymhellach.³³⁷

Data a monitro bioamrywiaeth

494. Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet nad oedd angen dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod data monitro ar gael. Dywedodd:

“the Bill already, as drafted, has really strong provisions to support transparency and accountability in monitoring those targets. So, if I can draw your attention to section 6B(5)(b),

³³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 26 Mehefin 2025

³³⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

³³⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 18 Medi 2025

³³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 18 Medi 2025

which puts that duty on Welsh Ministers to specify indicators for measuring progress against the targets, and the use of indicators, of course, requires Welsh Ministers to support the collection and the availability of data needed to inform them. Those will be published as part of the section 6 report, so that the underlying data is very much publicly accessible as well.”³³⁸

495. Ymhellach, dywedodd fod y maes blaenoriaeth ar gyfer ansawdd tystiolaeth ac ati yn ceisio sicrhau bod data a gwybodaeth gadarn ar gael i gefnogi'r penderfyniadau a wneir a'r polisïau sy'n cael eu datblygu, yn ogystal ag i fonitro cynnydd.

Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, efallai nad dyletswydd gyffredinol i gasglu data yw'r ffordd fwyaf ymarferol neu briodol ymlaen bob amser. Ychwanegodd y gallai casglu data penodol fod yn afresymol o gostus.³³⁹ Trwy ddatblygu targedau a dangosyddion mwy penodol, dywedodd y gallant gymryd ymagwedd llawer mwy strategol, gan roi'r adnoddau hynny lle maent yn gwybod eu bod yn mynd i gael yr effaith fwyaf.³⁴⁰

Adran 34

496. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd dynodi awdurdodau cyhoeddus a'r ddyletswydd gysylltiedig yn cryfhau ac yn darparu eglurder pellach ar weithredu'r ddyletswydd bioamrywiaeth.³⁴¹ Nododd na fyddai'n briodol cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod cyhoeddus y tu hwnt i'r ddyletswydd honno.³⁴² Awgrymodd fod y ddyletswydd bioamrywiaeth, i bob pwrpas, yn golygu y bydd pob awdurdod cyhoeddus yn cyfrannu at gyflawni targedau bioamrywiaeth yn yr ystyr eang honno.³⁴³

497. Pan ofynnwyd iddo esbonio'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylai awdurdod cyhoeddus gael ei ddynodi mewn perthynas â tharged, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd hyn "yn dibynnu i raddau helaeth ar natur y targed ei hun – yn benodol, ei fetrigau a'i ffocws thematig".³⁴⁴ Ychwanegodd:

³³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 259, 18 Medi 2025

³³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 18 Medi 2025

³⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 261, 18 Medi 2025

³⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 18 Medi 2025

³⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 18 Medi 2025

³⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 244, 18 Medi 2025

³⁴⁴ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

“Pwrpas y ddyletswydd hon yw sicrhau mai dim ond awdurdodau cyhoeddus sy’n gallu helpu i gyflawni targed trwy eu cyfrifoldebau presennol y mae Gweinidogion Cymru yn eu dynodi. Cyn ei ddynodi, rhaid i Weinidogion ymgynghori â’r awdurdod dan sylw. Bydd hynny’n rhoi cyfle i ni gael sgwrs ynghylch a oes ganddo’r offer, yr arbenigedd a’r gallu cywir i gyfrannu’n ystyrlon at y targed.”³⁴⁵

498. Mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn cydnabod bod angen datblygu sgiliau a chynyddu capasiti yn gyffredinol i gefnogi gweithredu’r Bil. Dywedodd eu bod yn brysur iawn yn gwneud hynny a’u bod yn gweithio arno.³⁴⁶

Adran 35

499. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol statudol a Chynllun Adfer Natur cysylltiedig. Nid yw’r rhain wedi’u symud ymlaen yn y Bil. Pan ofynnwyd iddo esbonio’r rheswm am hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y dull a fabwysiadwyd yn adeiladu ar ofynion cyfreithiol presennol ac yn ceisio osgoi dyblygu. Nododd y bydd y cynllun estynedig yn gwasanaethu Gweinidogion Cymru fel strategaeth bioamrywiaeth Cymru.³⁴⁷

500. Yn ddiweddarach, eglurodd yr Ysgrifennydd Cabinet mai bwriad Llywodraeth Cymru yw i’r cynllun estynedig ddisodli’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) presennol. Eglurodd mai’r “NRAP sy’n arwain y gweithredu dros fioamrywiaeth yng Nghymru a gwelwn hyn felly fel cyfle i ddod â hwn a chynllun adran 6 Gweinidogion Cymru ynghyd”.³⁴⁸

501. O ran yr angen am gyfrifoldeb trawslywodraethol dros y cynllun estynedig, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod y ddyletswydd cynllunio newydd yn berthnasol i holl Weinidogion Cymru, gan ychwanegu eu bod nhw o’r farn bod y Bil yn gadarn eisoes.³⁴⁹

³⁴⁵ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

³⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 246, 18 Medi 2025

³⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 161, 26 Mehefin 2025

³⁴⁸ Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 4 Awst 2025

³⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 249, 18 Medi 2025

Adran 36

502. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet ddiweddariad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi awdurdodau cyhoeddus i weithredu'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol, gan gynnwys: ysgrifennu at awdurdodau cyhoeddus i'w hatgoffa o'r gofyniad i gyhoeddi eu hadroddiadau adran 6; rhoi taflen adnoddau gyda dolenni i ganllawiau presennol; a chyhoeddi templed cynllunio i gefnogi'r gwaith o baratoi cynlluniau Adran 6. Esboniodd fod y camau hyn yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru.

503. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai canllawiau newydd neu wedi'u diweddarau yn cael eu cyhoeddi wrth iddynt gyflwyno'r targedau bioamrywiaeth.³⁵⁰ Dywedodd y byddai hyn yn cael ei ddatblygu yn unol ag amserlenni a cherrig milltir y broses gosod targedau.³⁵¹

Adran 37

504. O ystyried y ffaith mai ychydig iawn o dystiolaeth gafwyd ar adran 37, ni wnaeth y Pwyllgor holi'r Ysgrifennydd Cabinet yn ei chylch.

Adran 38

505. Rhoddodd yr Ysgrifennydd Cabinet enghreifftiau o sut y byddai Gweinidogion Cymru yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn ymarferol, gan gynnwys ymgyrchoedd, addysg a datblygu sgiliau.

Ein barn ni

Adran 33

“Targed pennawd”

Yn ein hadroddiad, *Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030* (Ionawr 2025), gwnaethom argymhell y dylai'r Bil gynnwys “targed pennawd” sy'n cyd-fynd â nod 2030 a gweledigaeth 2050 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, fel y cynigir yn y Papur Gwyn. Cafodd yr argymhelliad hwn ei wrthod gan Lywodraeth Cymru. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwnnw, mae uchelgais Cymru i gyflawni sero net erbyn 2050, wedi'i alinio ag ymrwymïadau newid hinsawdd byd-eang, wedi'i ymgorffori yn y gyfraith, ac mae bellach yn cael ei ddeall yn eang. Rydym

³⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 18 Medi 2025

³⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 256, 18 Medi 2025

yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio â mabwysiadu'r un dull o adfer natur. Credwn fod diffyg "targed pennawd" yn y Bil yn hepgoriad sylweddol.

Rydym yn cydnabod y byddai'r amser y byddai'n ei gymryd i gyflwyno'r Bil hwn yn golygu y byddai "targed pennawd" i alinio â nod 2030 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn debygol o fod yn anghyraeddadwy. Fodd bynnag, rydym yn parhau i fod o'r farn y dylai'r Bil gynnwys "targed pennawd" i adlewyrchu'r uchelgais cyffredinol i adfer bioamrywiaeth erbyn 2050. Byddai hyn yn anfon neges glir am uchelgais Rhan 3 o'r Bil, a'r cyfeiriad teithio hirdymor. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried hyn ymhellach.

Targed 2035 ar gyfer toreithrwydd rhywogaethau

Rydym yn cydnabod y galwadau cryf gan gyfranwyr i gynnwys targed 2035 ar doreithrwydd rhywogaethau. Credwn y byddai hyn yn ategu'r "targed pennawd" rydym eisoes wedi galw amdano. Rydym yn nodi bod Deddf y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer "targed toreithrwydd rhywogaethau", gyda manylion wedi'u gosod wedyn mewn rheoliadau. Rydym o'r farn bod hwn yn ddull pragmataidd a fydd yn ymwreiddio'r ymrwymiad mewn deddfwriaeth sylfaenol ac yn sicrhau bod modd gwneud rhagor o waith manwl ar yr un pryd. Rydym yn ystyried bod amserlen o 18 mis ar gyfer cyflwyno rheoliadau yn rhesymol. Rydym yn disgwyl, felly, i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi hyn ar waith.

Hyd y targed

Nodwn honiad yr Ysgrifennydd Cabinet bod y Bil, fel y'i drafftwyd, yn darparu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu'r hyd mwyaf priodol ar gyfer pob targed. Er ein bod yn cydnabod manteision y dull hwn, rydym yn rhannu pryderon cyfranwyr y gallai diffyg manylion am hyd targedau olygu y bydd Gweinidogion Cymru yn mabwysiadu dull de minimis yn y dyfodol.

Roedd rhanddeiliaid yn glir bod angen targedau byrdymor/interim i ysgogi cynnydd tuag at darged hirdymor yn y dyfodol. Gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y ffordd orau o sicrhau bod y Bil yn sicrhau fframwaith o dargedau byrdymor/interim a hirdymor fel bod uchelgais yn cael ei gynnal a bod rhanddeiliaid, y Senedd a'r cyhoedd yng Nghymru yn gallu olrhain cynnydd tuag at gyflawni.

Meysydd blaenoriaeth

Rydym yn cydnabod bod y meysydd blaenoriaeth wedi'u llywio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl i'r lefel hon o ymgysylltu barhau wrth ddatblygu cynigion ar gyfer targedau yn y dyfodol.

Rydym yn croesawu sicrwydd yr Ysgrifennydd Cabinet y byddai'r maes blaenoriaeth ar gyfer "lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol" yn golygu bod modd gosod targedau i fynd i'r afael â thoreithrwydd a dosbarthiad rhywogaethau, yn ogystal â diflaniad.

Amserlen ar gyfer targedau blaenoriaeth

Yn ein hadroddiad ym mis Ionawr 2025, nodwyd yn glir y byddai amserlen tair blynedd ar gyfer gosod y gyfres gyntaf o dargedau yn methu ag adlewyrchu natur frys yr argyfwng natur. Roedd y dystiolaeth a gawsom gan gyfranwyr yn atgyfnerthu hyn: mae angen targedau cynnar ac uchelgeisiol i ysgogi gweithredu ar unwaith i atal y dirywiad parhaus yn natur Cymru. Mae'r amserlen tair blynedd yn golygu na fydd targedau yn cael eu gosod o bosibl tan 2029 – blwyddyn cyn bod angen cyrraedd targedau 2030 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan gynnwys y targed 30 wrth 30 allweddol. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y bydd y newid cyflym yn yr hinsawdd ond yn gwaethygu'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Fel y cyfryw, nid ydym o'r farn bod yr amserlen hon yn dderbyniol.

Rydym wedi gwrandao'n ofalus ar y dadleuon a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet o blaid yr amserlen tair blynedd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i deimlo ei fod yn ormodol ac yn ddiangen. Nid ydym yn amau ymrwymiad yr Ysgrifennydd Cabinet i osod targedau cyn gynted â phosibl, ond ni fyddai'n ofynnol i Weinidog Cymru gyflawni'r ymrwymiad hwn yn y dyfodol. Rhaid i'r Bil gynnwys amserlen fwy uchelgeisiol i sicrhau bod y broses o osod targedau yn cael ei blaenoriaethu'n gynnar yn y Seithfed Senedd. Rydym yn nodi'r galwadau cryf am amserlen 12 mis. Fodd bynnag, o ystyried gwaith y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar fodelu senarios, ac etholiad y Senedd sydd ar ddod, credwn y byddai amserlen 18 mis yn fwy realistig a chyflawnadwy. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu ar gyfer hyn.

Y broses o osod targedau

Er ein bod yn fodlon â'r broses o osod targedau ar y cyfan, rydym yn ailadrodd pwysigrwydd ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid yn gynnar i lywio'r gwaith o

ddatblygu targedau. Rydym yn cydnabod bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn gosod targedau. Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn manau eraill yn yr adroddiad hwn, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gorfod cyflawni'r bwriad hwn o reidrwydd. Er eglurder a sicrwydd, credwn y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn gwneud rheoliadau i osod targedau. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi hyn ar waith.

Adolygu targedau

Rydym yn cytuno â chyfranwyr y dylid cryfhau'r darpariaethau adolygu. Dylai targedau fod yn destun adolygiad cyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn uchelgeisiol ac yn ymatebol i dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Nodwn fod y fframwaith gosod targedau statudol ar gyfer targedau ansawdd aer yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targedau bob pum mlynedd. Nid yw'n glir pam fod Llywodraeth Cymru wedi dewis peidio ag ailadrodd y dull hwn yn y Bil hwn. Byddai'n well gennym fod cyfnod adolygu yn digwydd o leiaf unwaith bob tymor y Senedd. Rydym yn disgwyl i ganlyniad yr adolygiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd tymor y Senedd er mwyn sicrhau bod modd ymgymryd â gwaith craffu. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddarparu ar gyfer hyn.

Dirymu neu ostwng targedau

Rydym yn cydnabod pryderon bod y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddirymu neu ostwng targedau. Fodd bynnag, rydym yn fodlon bod adrannau newydd 6B, 6D a 6H o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a'r defnydd o weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, yn darparu mesurau diogelu digonol i sicrhau bod y pŵer yn cael ei wneud arfer yn briodol. Fel y nodwyd yn gynharach, credwn y dylid ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori cyn gwneud rheoliadau i osod targed.

Cawsom ein calonogi i glywed bod yr Ysgrifennydd Cabinet yn fodlon ystyried cynnwys darpariaeth yn y Bil i sicrhau bod targed amgen newydd yn cael ei osod yn lle targed a ddirymwyd. Gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi hyn ar waith.

Data a monitro bioamrywiaeth

Clywsom y bydd monitro ansawdd uchel ag adnoddau priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod targedau yn ystyrlon. Ni fydd diben i'r targedau os na fydd modd olrhain cynnydd tuag atynt. Rydym yn nodi honiad yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd y fframwaith yn cefnogi'r gwaith o gasglu a monitro data. Fodd bynnag, credwn y byddai ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gasglu data er mwyn monitro bioamrywiaeth yn helpu i gryfhau'r fframwaith ac yn ysgogi camau a gymerir ar unwaith i sicrhau gwelliannau mewn data a monitro. Rydym yn disgwyl i'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni gydag adnoddau digonol. Rydym yn ymwybodol bod Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2023 yn cynnwys darpariaeth debyg o ran targedau ansawdd aer. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet ystyried y mater hwn ymhellach.

Adran 34

Nodwn mai'r nod wrth ddynodi awdurdodau cyhoeddus, a'r ddyletswydd gysylltiedig i gyfrannu at gyflawni targed, yw ategu'r ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol a darparu ffocws ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth. Er ein bod yn cefnogi'r nod hwn, rydym yn pryderu nad yw'r dull a fabwysiadwyd yn ddigon cadarn.

Roedd y rhan fwyaf o gyfranwyr a wnaeth sylwadau ar adran 34 yn cefnogi'r darpariaethau yn fras, ond clywsom alwadau hefyd am ddyletswydd ehangach ar awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu tuag at gyflawni targedau. O ystyried yr angen i gryfhau ymateb y sector cyhoeddus i golli bioamrywiaeth ac am gamau gweithredu ar y cyd i sicrhau bod targedau yn cael eu cyflawni, credwn fod ddyletswydd ehangach yn haeddu ystyriaeth bellach. Gofynnwn i'r Ysgrifennydd Cabinet fyfrio ar hyn.

Cymorth i weithredu

Bydd canllawiau clir ac amserol i awdurdodau cyhoeddus yn bwysig er mwyn sicrhau bod y ddyletswyddau newydd yn cael eu gweithredu'n effeithiol o dan Ran 3. Rydym yn fodlon, felly, nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer canllawiau. Er bod yr Ysgrifennydd Cabinet wedi ymrwymo'n flaenorol i gyhoeddi canllawiau (gan gynnwys drwy adolygu canllawiau ar y ddyletswydd bioamrywiaeth bresennol), ni fyddai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn rhwym wrth yr ymrwymiad hwn. Rydym yn disgwyl i'r Ysgrifennydd Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi

canllawiau i gefnogi awdurdodau cyhoeddus i weithredu eu dyletswyddau newydd o dan Ran 3. Rydym yn ailadrodd yr angen i sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â'r adeg y bydd y dyletswyddau newydd yn dod i rym.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad trylwyr o'r costau i awdurdodau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â dynodi a'r ddyletswydd gysylltiedig. Wrth osod dyletswyddau newydd ar awdurdodau cyhoeddus, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i awdurdodau gefnogi gweithrediad effeithiol.

Adran 35

Rydym yn croesawu'r eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet y bydd cynllun estynedig Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol Cymru ac yn disodli'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur. O ystyried ei arwyddocâd, rydym yn disgwyl i'r cynllun gael ei ddatblygu ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid ac i fod yn destun ymgynghoriad. Rydym yn galw ar yr Ysgrifennydd Cabinet i gyflwyno gwelliant i roi hyn ar waith.

Mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ein sicrhau y bydd y cynllun estynedig yn gynllun trawslywodraethol. Er ein bod yn croesawu hyn, credwn y gallai hynny gael ei wneud yn gliriach yn y Bil. Fel yr amlygwyd yn y dystiolaeth, mae cynllun sero net Llywodraeth Cymru yn nodi cynigion a pholisïau sy'n cwmpasu meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru i fodloni gofyniad adran 39 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Credwn y dylai gofyniad tebyg gael ei gynnwys yn y Bil i roi sicrwydd ynghylch bwriad y polisi.

Adrannau 36 a 37

Rydym yn fodlon ar y cyfan â'r dyletswyddau adrodd ar awdurdodau cyhoeddus a Gweinidogion Cymru. Rydym yn ailadrodd yr angen am ganllawiau clir ac amserol i awdurdodau cyhoeddus er mwyn helpu i weithredu'r ddyletswydd adrodd yn effeithiol.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, credwn y dylai SLIAC gael rôl amlwg wrth oruchwylio cynnydd tuag at gyflawni cynllun estynedig Llywodraeth Cymru a thargedau bioamrywiaeth.

Adran 38

Credwn fod gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o fioamrywiaeth, a'r bygythiadau parhaus y mae'n eu hwynebu, yn hanfodol i sicrhau'r ymateb cymdeithas gyfan sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Felly, rydym yn croesawu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

Argymhellion

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys "targed pennawd" yn y Bil i adlewyrchu'r uchelgais cyffredinol ar gyfer adfer bioamrywiaeth erbyn 2050, wedi'i alinio â gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar gyfer 2050.

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- gwneud rheoliadau i osod "targed toreithrwydd rhywogaethau 2035" o fewn 18 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol, ac
- ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau.

Rhaid i'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ddarparu y dylai'r fframwaith ar gyfer gosod targedau o dan adran 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (a gyflwynwyd gan adran 33 o'r Bil) ei gwneud yn ofynnol i osod targedau byrdymor/interim a hirdymor.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheoliadau sy'n gosod targedau yn y pedwar maes blaenoriaeth o fewn 18 mis i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Argymhelliad 32. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau sy'n gosod targed o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2026 (a fewnosodwyd gan adran 33 o'r Bil).

Argymhelliad 33. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu targedau unwaith bob tymor y Senedd ac adrodd i'r Senedd ar y canlyniad.

Argymhelliad 34. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd cyn gwneud rheoliadau sy'n dirymu neu'n gostwng targed o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Argymhelliad 35. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targed amgen yn lle targed sy'n cael ei ddirymu.

Argymhelliad 36. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer cael data bioamrywiaeth at ddibenion monitro cynnydd tuag at dargedau a osodwyd o dan adran newydd 6B o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Argymhelliad 37. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn data bioamrywiaeth, a chynyddu gallu a chapasiti monitro bioamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion.

Argymhelliad 38. Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth bellach i gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i gyfrannu at gyflawni targedau bioamrywiaeth. Dylai unrhyw ddyletswydd o'r fath ddisodli'r pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus mewn perthynas â tharged a'r ddyletswydd gysylltiedig i gyfrannu at gyflawni'r targed hwnnw.

Argymhelliad 39. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i wneud y canlynol:

- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus i gefnogi'r broses o weithredu'r dyletswyddau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, ac
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw i'r canllawiau hyn.

Argymhelliad 40. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad

cyhoeddus cyn cyhoeddi cynllun (neu gynllun diwygiedig) o dan adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Argymhelliad 41. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant/gwelliannau yng Nghyfnod 2 i osod gofyniad ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y cynllun o dan adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi cynigion a pholisïau sy'n cwmpasu meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru.

6. Rhan 4: Cyffredinol

506. Mae adran 39 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, ddeilliadol neu ganlyniadol o'r fath.

507. Mae adran 40 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil, gan nodi'r weithdrefn berthnasol i wneud rheoliadau'r Senedd

508. Mae adran 41 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â dogfennau, hysbysiadau a chyfarwyddiadau y mae'n ofynnol eu darparu o dan y Bil.

509. Mae adran 42 yn ddarpariaeth dehongli.

510. Mae adran 43 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i rai statudau mewn cysylltiad â sefydlu SLIAC. Mae adran 44 yn nodi pryd y bydd pob un o ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym.

511. Mae adran 45 yn darparu ar gyfer y teitl byr.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

512. Ychydig iawn o dystiolaeth gafodd y Pwyllgor ar y darpariaethau yn Rhan 4. Roedd y cyfranwyr hynny a roddodd sylwadau yn canolbwyntio'n bennaf ar bwysigrwydd ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan y Bil, a chraffu digonol ar reoliadau gan y Senedd.

Dyletswyddau SLIAC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

513. Mae paragraff 3 o Atodlen 4 yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynnwys SLIAC yn y rhestr o awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf honno. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu y byddai SLIAC yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

514. Wrth gefnogi'r ddarpariaeth hon, dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:

"This is a crucial measure that ensures the [OEGW] is itself bound by the same principles of sustainable development it will oversee in other public authorities, thereby enhancing its

credibility and ensuring its own strategies contribute positively to all of Wales's well-being goals."³⁵²

515. Mewn cyferbyniad, roedd Archwilio Cymru, sefydliadau amgylcheddol a Healthy Air Cymru yn cwestiynu a yw'n briodol i SLIAC fod yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd Archwilio Cymru:

*"Yn debyg i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er enghraifft, bydd prif swyddogaethau'r SLIAC yn cael eu cyfyngu i feysydd penodol o oruchwyliaeth yn hytrach na darparu gwasanaethau...nid yw i fod â swyddogaethau polisi gweithredol, strategol na chynllunio corfforaethol ei hun, felly nid yw'n ymddangos ei fod yn bodloni meini prawf Llywodraeth Cymru ar gyfer adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2015. Beth bynnag, mae hefyd yn anodd gweld sut y gellid ei gwneud yn briodol ofynnol iddo osod a dilyn amcanion llesiant ar draws yr holl nodau llesiant. Byddai gofyniad o'r fath yn ymddangos yn anghymesur ac o bosibl yn tynnu sylw oddi wrth gyflawni ei swyddogaethau craidd yn effeithiol."*³⁵³

516. Pwysleisiodd y Gynghrair Werdd fod angen i SLIAC ganolbwyntio ar gyflawni ei swyddogaethau statudol, yn enwedig o ystyried y gofynion sy'n debygol o gael eu gosod ar y corff.³⁵⁴ Dywedodd RSPB Cymru nad oeddent o'r farn bod [gwneud SLIAC yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol] yn briodol, o ystyried swyddogaethau a rôl goruchwyllo amgylcheddol benodol SLIAC.³⁵⁵ Galwodd ar i'r ddarpariaeth gael ei dileu. Cafodd hyn ei adleisio gan Healthy Air Cymru.

517. Fel dewis arall, awgrymodd sefydliadau amgylcheddol a Healthy Air Cymru y dylai SLIAC a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gytuno ar sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd, ac i unrhyw drefniadau o'r fath gael eu nodi yn strategaeth SLIAC.

³⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

³⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilio Cymru

³⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gynghrair Werdd

³⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, RSPB Cymru

Tystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet

Dyletswyddau SLIAC o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

518. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn rhesymol ac yn briodol ei gwneud yn ofynnol i SLIAC gydymffurfio â'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nododd fod swyddogaethau SLIAC wedi'u halinio'n gynhenid â'r nodau lles. Ychwanegodd y bydd y corff yn gwneud cyfraniad enfawr i'r dirwedd polisi a chyfreithiol ehangach, gan gynnwys datblygu cynaliadwy.

519. I bob pwrpas, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet y dylai dull SLIAC o ddatrys diffyg cydymffurfio gael ei gymhwyso trwy lens y nodau llesiant. Ychwanegodd nad ydynt o'r farn bod hyn yn gwanhau ei swyddogaeth goruchwyllo amgylcheddol; mae'n cael ei ystyried yn rhywbeth cyflenwol yn hytrach na rhywbeth sy'n gwrthdaro â mandad SLIAC.

Ein barn ni

Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd yn y dystiolaeth na fyddai'n briodol i SLIAC fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi rhoi'r sicrwydd rydym yn ei geisio ar y mater hwn.

Nodwn nad yw Atodlen 4 yn gwneud darpariaeth i SLIAC gael ei hychwanegu at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Felly, nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu i SLIAC fod yn ddarostyngedig i'r gofynion o dan y Mesur hwnnw. Byddem yn croesawu eglurhad gan yr Ysgrifennydd Cabinet ar y mater hwn.

Argymhelliad

Argymhelliad 42. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n bwriadu ychwanegu SLIAC at y rhestr o awdurdodau cyhoeddus yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Os felly, dylai egluro pam nad yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyn.

Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
26 Mehefin 2025	Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru Alice Teague, Llywodraeth Cymru Dorian Brunt, Llywodraeth Cymru Joel Scoberg-Evans, Llywodraeth Cymru
9 Gorffennaf 2025	Yr Athro Steve Ormerod, Prifysgol Caerdydd Dr Victoria Jenkins, Prifysgol Abertawe Dr Viviane Gravey, Prifysgol y Frenhines, Belfast Yr Athro Robert Lee, Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU Yr Athro Lynda Warren, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru John Henderson, Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru Y Fonesig Glenys Stacey, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd Natalie Prosser, Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd

Dyddiad	Enw a Sefydliad
	Mark Roberts, Safonau Amgylcheddol yr Alban
17 Gorffennaf 2025	Ruth Chambers, Y Gynghrair Werdd
	Annie Smith, RSPB Cymru
	Alexander Phillips, WWF Cymru
	Mary Lewis, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Neil Parker, Cyfoeth Naturiol Cymru
	Beth Stoker, Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
	Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
	Rhiannon Hardiman, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
18 Medi 2025	Jean-Francois Dulong, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
	Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
	Naomi Matthiessen, Llywodraeth Cymru
	Alice Teague, Llywodraeth Cymru
	Dorian Brunt, Llywodraeth Cymru
	Joel Scoberg-Evans, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld holl ymatebion i'r ymgynghoriad, a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
EPGBTWB 01	Archwilydd Cyffredinol Cymru
EPGBTWB 02	Dr Viviane Gravey a'r Athro Ludivine Petetin
EPGBTWB 03	Gareth Thomas, Louise Steel and Luci Attala
EPGBTWB 04	Dr Victoria Jenkins
EPGBTWB 05	Safonau Amgylcheddol yr Alban
EPGBTWB 06	Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
EPGBTWB 07	Unigolyn
EPGBTWB 08	Iechyd Cyhoeddus Cymru
EPGBTWB 09	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
EPGBTWB 10	Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd
EPGBTWB 11	Cyfoeth Naturiol Cymru
EPGBTWB 12	RSPB Cymru
EPGBTWB 13	Y Gynghrair Werdd
EPGBTWB 14	WWF Cymru
EPGBTWB 15	Yr Athro Steve Ormerod
EPGBTWB 16	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
EPGBTWB 17	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
EPGBTWB 18	Yr Athro Colin T Reid
EPGBTWB 19	Dr Fredric Windsor
EPGBTWB 20	WildFish
EPGBTWB 21	Awyr Iach Cymru

Cyfeirnod	Sefydliad
EPGBTWB 22	Cyfeillion y Ddaear Cymru
EPGBTWB 23	Yr Athro Maria Lee
EPGBTWB 24	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
EPGBTWB 25	Y Sefydliad Safonau Prydeinig
EPGBTWB 26	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
EPGBTWB 27	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
EPGBTWB 28	Climate Cymru
EPGBTWB 29	Grŵp Eiriolaeth Cymru Peat-free Partnership
EPGBTWB 30	Trafnidiaeth Cymru
EPGBTWB 31	Tirweddau Cymru Landscapes Wales
EPGBTWB 32	Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru
EPGBTWB 33	Yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt
EPGBTWB 34	Y Gynghrair Cefn Gwlad
EPGBTWB 35	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
EPGBTWB 36	Y Grid Cenedlaethol
EPGBTWB 37	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
EPGBTWB 38	Yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol
EPGBTWB 39	Cyswllt Amgylchedd Cymru
EPGBTWB 40	Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol
EPGBTWB 41	Justin Groves
EPGBTWB 42	Dŵr Cymru Welsh Water
EPGBTWB 43	Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur
EPGBTWB 44	Ymateb i'r ymgyrch
EPGBTWB 45	RenewableUK Cymru
EPGBTWB 46	Undeb Amaethwyr Cymru
EPGBTWB 47	Hafren Dyfrdwy

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
Llythyr gan y Cadeirydd at y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)	8 Gorffennaf 2025
Ymateb oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)	4 Awst 2025
Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd at y Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod ar 18 Medi mewn perthynas â Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)	29 Medi 2025